Y
Comisiwn
Etholiadol

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

## 2024-25




HC 1086
ELC/2025/02
GEN-LD17346

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

# 2024-25

## Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025

Wedi'i gyflwyno gerbron y Senedd yn unol ag Atodlen 1, Paragraffau 20(1) a 18(2)(b) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Dan orchymyn Tŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 17 Gorffennaf 2025.

Wedi'i gyflwyno gerbron Senedd yr Alban yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 20A(1) Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Wedi'i gyflwyno gerbron Senedd Cymru yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 20(A1) Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

HC 1086

ELC/2025/02

GEN-LD17346

© Y Comisiwn Etholiadol 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.electoralcommission.org.uk.

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad gael eu hanfon atom i:
The Electoral Commission, 3 Bunhill Row, London, EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 1031928
E-bost info@electoralcommission.org.uk

ISBN: 978-1-5286-5730-3
E03348957 07/25

Argraffwyd ar bapur sydd â lleiafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd un y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


Rhagair gan ein Cadeirydd .................. 6

Neges gan ein Prif Weithredwr..........6

Adroddiad perfformiad ......10

Trosolwg ............................................ 11

Uchafbwyntiau'r flwyddyn ................. 12

Ein blwyddyn mewn rhifau ................ 13

Ein hamcanion strategol .................... 14

Defnyddio ein hadnoddau i gyflawni ein nodau ............................................ 36

Ein pobl ............................................... 36

Edrych ymlaen at ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2025/26 - 2029/30 ................................................ 39

Adroddiad cynaliadwyedd ................. 42

Defnyddio ein hadnoddau ariannol yn effeithlon ............................................... 48

Adroddiad pwerau a sancsiynau ...... 53

Adroddiad blynyddol Gogledd Iwerddon ............................................... 55

Adroddiad blynyddol Cymru ..............58

Adroddiad blynyddol yr Alban ...........63

Adroddiad atebolrwydd.....69

Adroddiad llywodraethu corfforaethol ...................................................................70

Adroddiad y cyfarwyddwyr.................70

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu .............................................71

Datganiad Llywodraethu .....................74

Rheoli risg, rheolaeth fewnol a sicrwydd................................................90

Adroddiad staff ....................................99

Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwiliad...........................................118

Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SOPS) ................................118

Y datganiadau ariannol ... 140

# Rhagair gan ein Cadeirydd



O edrych yn ôl dros y deuddeg mis diwethaf, mae llawer i'w ddathlu ynghylch iechyd democratiaeth y DU.

Yn fuan wedi i'r etholiadau lleol gael eu cynnal ar draws Lloegr, cafodd etholiad cyffredinol ei alw. Fel bob amser, fe wnaeth y gymuned etholiadol roi pethau ar waith yn sydyn.

Wedi pedair blynedd yn y rôl hon, rwy'n parhau i gael fy ysbrydoli gan ymrwymiad a phroffesiynoldeb gweinyddwyr etholiadau. Hwy yw arwyr anhysbys etholiadau, sy'n mynd y tu hwnt i'r gofyn er mwyn helpu pleidleiswyr yn eu cymunedau i gymryd rhan a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Gwelodd yr etholiad cyffredinol gyfraddau uchel o gofrestriadau pleidleiswyr a cheisiadau pleidlais absennol mewn amser byr iawn, a chafodd dros 30,000 o orsafoedd pleidleisio eu trefnu.

Mae'r pwysau aruthrol ar y system gweinyddu etholiadau yn parhau o safbwynt capasiti ac amserlenni, a gwelwyd rhai pleidleiswyr yn wynebu heriau o ran derbyn eu pleidlais bost mewn da bryd er mwyn cymryd rhan. Mae yna feysydd sydd yn parhau i fod angen sylw, ond mae ein tystiolaeth yn dangos bod y mwyafrif helaeth o bleidleiswyr wedi gallu cymryd rhan ac wedi bwrw eu pleidlais yn llwyddiannus.

Trodd ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr at waith yn syth unwaith y cafodd yr etholiad ei alw, gan ymdrechu i ledaenu eu neges i gynifer â phosib o bleidleiswyr. Roedd yn ymgyrch fywiog, dda. Yn ogystal â gwrando ar eu neges, mae'n bwysig bod pleidleiswyr yn gwybod o le mae'r arian yn dod. Felly, yn ystod yr ymgyrch, aethom ati i gyhoeddi diweddariadau wythnosol ar y rhoddion a dderbyniwyd gan bleidiau er mwyn sicrhau tryloywder mewn amser real.

Fodd bynnag, roedd lefel y difrïo a'r bygythion a dderbyniodd ymgeiswyr yn gwmwl du dros yr ymgyrch. Canfu ein hymchwil wedi'r etholiadau fod dros hanner yr ymgeiswyr wedi profi rhyw fath o ddifrïo, gyda merched a phobl o leiafrifoedd ethnig yn cael eu targedu'n benodol. Mae hon yn broblem y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi, neu rydym mewn perygl o gadw pobl draw yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i weithio gyda Chynhadledd y Llefarydd, partneriaid, gan gynnwys yr heddlu a chwmnïau cyfryngau cymdeithasol, er mwyn cefnogi a gwella profiad ymgeiswyr.

Er gwaetha'r heriau a'r ffaith bod lle i wella ar y system, mae darparu etholiad cyffredinol sy'n hawlio hyder pleidleiswyr, a lle mae'r canlyniadau'n cael eu derbyn gan bawb yn ddiwahân, wastad yn rhywbeth i ymfalchïo ynddo a'i ddathlu.

Wedi dweud hynny, mae nifer o’r heriau a oedd yn amlwg yn yr etholiad hwn, ynghyd â’r data a’r dystiolaeth rydym wedi’u casglu gan bleidleiswyr, pleidiau, ymgeiswyr a gweinyddwyr, yn amlygu nifer o fygythiadau a pheryglon i'r system y mae angen mynd i’r afael â hwy

Rydym wedi treulio amser sylweddol eleni yn dadansoddi’r ymchwil ac yn ymgysylltu gyda’n rhanddeiliaid ynghylch yr hyn maen nhw’n eu hystyried yn bryderon a chyfleoedd dros y blynyddoedd sydd i ddod

Rydym wedi dwyn ynghyd y dystiolaeth a’r mewnwelediad er mwyn datblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd, sef ein glasbrint ar gyfer mynd i’r afael â’r heriau hyn dros y pum mlynedd nesaf

Ein blaenoriaethau yn ystod y cyfnod hwn yw cynyddu mynediad i’r pleidleiswyr, moderneiddio’r system, mynd i’r afael â bygythiadau, arwain trafodaeth yn seiliedig ar newidiadau, ac adeiladu ar gydnerthedd y Comisiwn

Byddwn yn gweithio’n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys llywodraethau’r DU, gweinyddwyr etholiadau, sefydliadau cymdeithas sifil, pleidiau gwleidyddol a’r heddlu er mwyn cyflawni ein nod dros y blynyddoedd nesaf.

Rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol i ni ein hunain, ond rydym yn teimlo bod y rhain yn adlewyrchu pwysigrwydd cynnal ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn ein democratiaeth

Yn olaf, hoffwn gydnabod y cynnydd rydym wedi’i wneud dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol diwethaf. Un nod allweddol oedd cryfhau’r cysylltiadau a’r gefnogaeth roeddem yn eu cynnig i’n rhanddeiliaid drwy weithio’n agos gyda gweinyddwyr etholiadau ac adeiladu ar y gwasanaeth roeddem yn ei gynnig i’n cymuned a reoleiddir; mae’r ymdrechion hyn wedi cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol sy’n darparu sail dda ar gyfer rhagor o welliannau.

Rwy’n ymfalchïo yng ngwaith ac effaith gweithgareddau’r Comisiwn dros y flwyddyn a aeth heibio, sydd wedi’i gyflawni diolch i holl waith staff y Comisiwn, partneriaid a’r gymuned etholiadol ehangach. Edrychaf ymlaen at ymgymryd â’r bennod gyffrous nesaf gyda’n gilydd.

**John Pullinger CB**
**Cadeirydd**

# Neges gan ein Prif Weithredwr

Dros y flwyddyn a aeth heibio, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod yr etholiad cyffredinol a'r pleidleisio ym mis Mai yn rhedeg yn esmwyth. Mae bob amser yn rhyfeddol gweld y gymuned etholiadol yn dod ynghyd i gyflawni hyn: sylfaen gadarn ein democratiaeth.

Unwaith y cafodd yr etholiad cyffredinol ei alw, fe wnaeth y Comisiwn Etholiadol hefyd symud yn sydyn i ddechrau ar ei waith pwysig o godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod gan bleidleiswyr y wybodaeth roeddent ei hangen er mwyn cymryd rhan. Lansiwyd ymgyrchoedd cyhoeddus cofrestru i bleidleisio ac ID pleidleiswyr, ac roeddem yn falch o weld lefelau uchel o gofrestru ac ymwybyddiaeth o ID o ganlyniad.



Er mwyn cael dewis democrataidd priodol, mae angen i bleidleiswyr allu barnu'r deunydd gan ymgeiswyr sy'n ceisio dylanwadu ar eu pleidlais. Ar ddechrau'r ymgyrch, bu i'r Comisiwn gyhoeddi cyngor newydd i bleidleiswyr ar sut i ymgysylltu'n hyderus gyda deunydd yr ymgyrch a meddwl yn feirniadol ynghylch yr hyn wnaethant ei weld neu ei glywed. Mae pryderon wedi bod cyn yr etholiad ynghylch rôl camwybodaeth a thwyllwybodaeth a ph'un a fyddai ffactorau niweidiol yn ceisio camarwain pleidleiswyr. Roeddem yn falch o weld na wnaeth y risg honno amlygu ei hun ar unrhyw raddfa fawr – ond mae'n un yr ydym yn cadw llygad agos arni.

Fel bob amser, aethom ati i gynnig cyngor ac arweiniad i weinyddwyr etholiadau a'r gymuned a reoleiddir er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu bodloni eu cyfrifoldebau.

Wedi'r etholiad, fe wnaethom ddwyn ynghyd amrywiaeth eang o dystiolaeth er mwyn asesu sut aeth pethau. Yn seiliedig ar ymchwil gyda phleidleiswyr, ymgeiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadau, daethom i'r casgliad ei fod wedi ei redeg yn dda a'i fod wedi cynnal hyder pleidleiswyr. Fodd bynnag, fe wnaethom ganfod sawl maes lle'r oedd angen gwelliannau. Aethom ati i argymell nifer o newidiadau er mwyn sicrhau bod y system yn cyflawni ar gyfer pawb, gan gynnwys ynghylch gwella'r bleidlais bost, ymddygiadau difrïol a bygythiol, ID pleidleiswyr, y broses ar gyfer pleidleiswyr dramor, ac enwebiadau ymgeiswyr.

Mae'r Comisiwn wedi bod yn gweithio'n agos gyda phwyllgorau'r llywodraeth a'r senedd er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r newidiadau hyn, a chydag eraill er mwyn mynd i'r afael â gwendidau yn y system. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Chynhadledd y Llefarydd a'r Tasglu Amddiffyn Democratiaeth er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n achosi pryder ynghylch diogelwch ymgeiswyr, camdriniaeth a bygythiadau, gydag amrywiaeth eang o bartneriaid ar ffugiadau dwfn, AI a chamwybodaeth a thwyllwybodaeth, a chyda'n prif

bartneriaid rhyngwladol er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu o’u hetholiadau, eu heriau a’u syniadau hwy.

Rydym hefyd wedi bod yn meithrin ein gwaith gyda phobl ifanc, fel bod ganddynt yr hyder a’r wybodaeth i gymryd rhan mewn democratiaeth. Mae hwn yn faes gwaith rydym yn bwriadu ei ehangu ymhellach o ystyried pwysigrwydd ymgysylltu gyda phleidleiswyr y dyfodol, yn arbennig os yw pleidlais i rai 16 oed yn cael ei gyflwyno ar draws y DU.

Mae diogelwch ac uniondeb cyllid gwleidyddol yn un o’r prif bryderon sydd gan bleidleiswyr. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth am filiynau o bunnoedd o roddion a gwariant er mwyn sicrhau bod gan bleidleiswyr dryloywder. Rydym wedi nodi cyfres eglur o newidiadau sydd eu hangen er mwyn mynd i’r afael â bregusrwydd y system sy’n tanseilio hyder pleidleiswyr.

Mae’r rhain i gyd yn themâu rydym yn eu blaenoriaethu yn ein Cynllun Corfforaethol newydd, wedi’i gytuno arno gan Bwyllgor y Llefarydd, y Senedd a Senedd yr Alban, sy’n adlewyrchu’r amrywiaeth o brosiectau rydym yn bwriadu eu cyflawni dros y bum mlynedd nesaf er mwyn gwella iechyd ac uniondeb ein systemau democrataidd.

Mae atgyfnerthu’r Comisiwn ei hun yn un o’n pum maes blaenoriaeth. Rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith i sicrhau bod gennym y systemau a’r gefnogaeth gywir yn eu lle er mwyn gwella ein perfformiad, yn arbennig felly o safbwynt cyllid, TG, caffael a rheoli prosiectau, er mwyn gallu cyflawni ein cynllun corfforaethol yn llwyddiannus.

Eleni, fe wnaeth Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth orffen eu hymchwiliad i'r ymosodiad seiber ar gafodd y Comisiwn yn 2021. Mae’n eglur nad oedd gennym ffactorau amddiffyn digonol yn eu lle bryd hynny. Fe wnaethant nodi’r mesurau a roddwyd yn eu lle ers hynny gan groesawu’r camau roeddem wedi’u cymryd. Rydym wedi buddsoddi’n fawr yn ein seilwaith digidol a’n seiberddiogelwch er mwyn amddiffyn rhag ymosodiadau pellach, ac rydym yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol ac eraill er mwyn sicrhau bod data democrataidd y DU yn cael ei ddiogelu. Credwn fod ein prosesau democrataidd yn seilwaith cenedlaethol hanfodol.

Mae’r Comisiwn yn parhau i fuddsoddi yn ei bobl a llefydd, gan sicrhau bod gennym y sgiliau a’r adnoddau cywir i allu cyflawni ein huchelgeisiau. Fel bob amser, rwy’n ddiolchgar am gefnogaeth ac arbenigedd staff y Comisiwn. Roedd eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ar yr etholiad cyffredinol, yn dangos unwaith eto grŵp mor ymroddedig o bobl ydynt, wedi eu hymrwymo i hyrwyddo ac amddiffyn democratiaeth y DU.

Edrychaf ymlaen at yr heriau a’r cyfleoedd sydd o’n blaen. Ond rwy’n hyderus, ynghyd â phartneriaid ar draws y gymuned etholiadol, y gallwn sicrhau bod popeth rydym ni’n ei wneud yn helpu pobl i ymddiried a gweld gwerth mewn etholiadau a chymryd rhan ynddynt.

**Vijay Rangarajan**
**Prif Weithredwr**

# Adroddiad perfformiad



# Trosolwg

Mae’r adran hon yn darparu trosolwg o’r Comisiwn Etholiadol, ein pwrpas, ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a’r risgiau allweddol i gyflawni ein nodau.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o wybodaeth gyllidebol o fewn yr adroddiad perfformiad. Mae hwn yn adrodd ar y prif bwyntiau o’r datganiadau ariannol, lle mae rhagor o fanylion ar gael.

Rydym wedi paratoi ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024/25 yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon, a nodir ar dudalen 171, ac a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF dan baragraff 17 (2) o Atodlen 1 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Rydym wedi paratoi’r adroddiad pwerau a sancsiynau ar dudalen 53 yn unol â pharagraff 15 Atodlen 19(b) a pharagraff 27 Atodlen 19(c) PPERA.

## Ein rôl

Mae’r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y system etholiadol a sicrhau ei huniondeb. Rydym yn annibynnol o lywodraethau a phleidiau gwleidyddol ac yn uniongyrchol atebol i Senedd Cymru, y DU, a’r Alban.



Rydym yn cyflawni dros bleidleiswyr ar draws pob rhan o’r DU, gyda swyddfeydd y Comisiwn Etholiadol yng **Nghaerdydd**, **Belfast**, **Caeredin** a **Llundain**. Rydym yn gweithio’n agos gyda llywodraeth Cymru, y DU a’r Alban. Rydym yn atebol i'r Senedd, Senedd y DU a Senedd yr Alban, ac yn cael ein hariannu gan bob un o’r rhain ar gyfer y gwaith yr ymgymerir ag ef ar etholiadau dan eu pwerau datganoledig neu wedi’u cadw. Nid yw’r gyfraith etholiadol yn ddatganoledig yng Ngogledd Iwerddon ac mae’n parhau i gael ei gadw i San Steffan.

Mae’r Comisiwn yn sefydliad ledled y DU, ac mae’r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau gan gadw hynny mewn cof. Yn unol â gofynion cyfreithiol, mae’r Adroddiad Blynyddol hwn yn canolbwyntio ar y gwaith a wneir mewn perthynas â’n rôl a’n hatebolrwydd i Senedd y DU. Mae gwybodaeth ar wahân ar gael mewn perthynas â’n gwaith ar etholiadau datganoledig yng Nghymru a’r Alban, ac mae ein hatebolrwydd i’r seneddau hynny ar dudalen 62 a 69.

# Uchafbwyntiau’r flwyddyn




Ymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr




Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth o ID pleidleiswyr




Wythnos Croeso i Dy Bleidlais




Adroddiad ymchwil ar safbwynt pobl ifanc ar ddemocratiaeth



Cyngor newydd i bleidleiswyr ar ymgysylltu gyda deunydd ymgyrchu




Darparu canllawiau i weinyddwyr, gan gynnwys ynghylch hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio




Adroddiad ar yr etholiad cyffredinol a’r etholiadau ym mis Mai



Tystiolaeth i Gynhadledd y Llefarydd ynghylch diffrïo a bygwth




Cyhoeddi adroddiadau rhoddion cyn pleidleisio a ffurflenni gwariant ar gyfer yr etholiad cyffredinol

# Ein blwyddyn mewn rhifau

**2.2 miliwn**
yn ychwanegol o bleidleiswyr wedi cofrestru yn ystod ein hymgyrchoedd

**12,116**
o ymatebion i ymholiadau gan y cyhoedd

**590,000**
o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn Wythnos Croeso i Dy Bleidlais

**87%**
yn ymwybodol am yr angen am ID pleidleiswyr

**394**
o bleidiau gwleidyddol ar ein cofrestrau

**4,515**
o grynodebau gwariant ymgeiswyr a rhoddion wedi'u cyhoeddi

**£16m**
o roddion wedi'u cyhoeddi yn ystod yr etholiad cyffredinol

**5**
sesiwn pwyllgor tystiolaeth seneddol y DU

# Ein hamcanion strategol

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod pobl yn ymddiried yn etholiadau a refferenda, yn eu gwerthfawrogi ac yn cymryd rhan ynddynt. Rydym yn anelu i lwyddo drwy gyflawni'r amcanion strategol sydd wedi'u hamlinellu yn ein Cynllun Corfforaethol. Dyma flwyddyn olaf y cynllun hwn, a chafodd un newydd ei lansio ym mis Ebrill 2026. Mae'r amcanion strategol hyn yn sail i sut rydym yn gwerthuso perfformiad y Comisiwn am y flwyddyn.

**Cofrestru a phleidleisio hygyrch**

**Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw ac ariannu gwleidyddol sy'n cydymffurfio**

**Gwasanaethau etholiadol lleol cryf**

**Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol**

**System etholiadol fodern a chynaliadwy**

Er mwyn sicrhau ein bod fel sefydliad yn gallu bodloni'r amcanion hyn, mae gennym dri gweithgaredd galluogi allweddol.

**Rydym yn arddangos annibyniaeth ac uniondeb**


**Rydym yn sefydliad medrus lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi**

**Rydym yn sefydliad sy'n dysgu lle mae gwelliant yn barhaus, a lle defnyddir adnoddau'n effeithiol**

# Adolygiad pumed blwyddyn

Dyma flwyddyn olaf Cynllun Corfforaethol cyfredol y Comisiwn. Ers ei ddechreuad, rydym wedi goruchwylio a chefnogi darparu etholiadau cyffredinol, lleol, etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, etholiadau'r Senedd, Senedd Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban.

Roedd rhoi’r Ddeddf Etholiadau ar waith yn ddarn canolog o waith yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys canllawiau newydd ar gyfer gweinyddwyr a’r gymuned a reoleiddir, cod ymarfer statudol ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, a chefnogaeth ragweithiol a chymorthfeydd rhoi cyngor er mwyn helpu’r gymuned etholiadol i baratoi ar gyfer y newidiadau. Roedd yna hefyd waith cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwaith partneriaethau ar raddfa fawr er mwyn cefnogi pleidleiswyr i ddeall y mesurau newydd.




Mae’r Comisiwn hefyd wedi buddsoddi yn ei gapasiti ac adnoddau er mwyn cefnogi’r gymuned a reoleiddir i ddeall y gyfraith ac i gyflawni cydymffurfiaeth. Mae ein cronfa ddata cyllid gwleidyddol bellach yn darparu gwybodaeth ynghylch dros £1bn o roddion a adroddwyd gan bleidiau ac ymgyrchwyr ers i’r Comisiwn gael ei sefydlu. Mae hyn yn hanfodol i'r tryloywder rydym yn ei ddarparu, ac rydym yn parhau i amlygu meysydd lle gellid diwygio system cyllid gwleidyddol y DU er mwyn cynyddu hyder yn y system.

Roedd y cynllun hwn yn cynnwys ymestyn targedau a chyfres uchelgeisiol o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y Comisiwn. Rydym wedi gweithio’n agos gyda sefydliadau eraill wrth geisio cyflawni’r amcanion hyn, gan gynnwys awdurdodau lleol, pleidiau, ymgyrchwyr, yr heddlu a phartneriaid.

Mae’r adroddiad hwn yn adlewyrchu ein hymdrechion i gyrraedd yr amcanion hyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac mae’n edrych ymlaen at ein Cynllun Corfforaethol nesaf.

# Dadansoddiad perfformiad




Mae'r adrannau sy'n dilyn yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn 2024-25 er mwyn cyflawni pob un o'r **pum amcan strategol** a'r **tri ffactor galluogi** sydd gan y Comisiwn.

Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn adlewyrchu bod y sefydliad wedi bodloni'r rhan fwyaf o'i dargedau, gan gynnwys ymatebion prydlon i randdeiliaid a chyhoeddi data ariannol allweddol ac adroddiadau wedi etholiad.

Fodd bynnag, unwaith mae etholiad cyffredinol yn cael ei alw, mae ambell edefyn o'n gwaith arferol yn oedi, er mwyn blaenoriaethu cyflawni'r etholiad ac i gefnogi pleidiau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nad ydynt yn blaid i ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau. Roedd dau etholiad a gynhaliwyd eleni y naill yn syth ar ôl y llall yn golygu ei bod wedi cymryd yn hirach i brosesu ceisiadau cofrestru ac i ddirwyn ymchwiliadau i ben.

# Cofrestru a phleidleisio hygyrch

**Ein nod yw:**

- cynyddu lefelau cofrestru pleidleiswyr, yn arbennig felly ymysg grwpiau sydd ar hyn o bryd yn cael trafferth ymwneud â'r broses
- cael gwared ar rwystrau, yn arbennig rhai sy'n effeithio pobl sydd ar hyn o bryd yn cael trafferth bwrw eu pleidlais.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn




Rhoddodd y Comisiwn ymgyrch cofrestru pleidleiswyr ar ei newydd wedd ar waith. **Derbyniwyd dros 3.5 miliwn o geisiadau i gofrestru i bleidleisio** yn ystod yr ymgyrchoedd cyn etholiad fis Mai a'r etholiad cyffredinol. Aeth hyn y tu hwnt i darged y Comisiwn, ond rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd i wella cyfraddau cofrestru, a chyda grwpiau penodol o bleidleiswyr.

Cafodd hyn ei gefnogi gan yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r gofyn am ID pleidleiswyr. **Roedd ymwybyddiaeth o'r mesur – y cyntaf ar adeg etholiad cyffredinol ar draws y DU – yn 87%** yn syth wedi'r etholiad. Mae hyn yn cymharu i 22% pan gafodd y mesur ei gyflwyno gyntaf yn 2022. Yng Ngogledd Iwerddon, lle mae'r gofyn am ddangos ID ffotograffig wedi bod yn ei le ers 2003, mae'r lefelau ymwybyddiaeth yn 89%.

Rydym wedi gweithio gyda **246 o awdurdodau lleol a 256 o sefydliadau cymdeithas sifil**, **prifysgolion, grwpiau'r Lluoedd Arfog** ac eraill cyn yr etholiad cyffredinol er mwyn cefnogi'r rhai sy'n llai tebygol o fod ag ID. O'r data sydd ar gael, fe wnaethom gyrraedd o leiaf 67,000 o bleidleiswyr yn uniongyrchol drwy'r gwaith hwn, a llawer mwy, mae'n debyg, drwy rwydweithiau partneriaid.

Aethom ati i redeg yr ymgyrch Dy Bleidlais Di a Neb Arall, ar y cyd â CrimeStoppers mewn ardaloedd a oedd wedi'u hadnabod i fod mewn perygl o dwyll etholiadol. Roedd yr

ymgyrch yn tynnu sylw at yr hyn sy'n cael ei ystyried yn dwyll etholiadol, gyda'r bwriad o rymuso pobl i amddiffyn eu pleidlais ac adrodd am unrhyw bryderon wrth CrimeStoppers.

Bu i dros **1.3 miliwn o bobl wneud cais i bleidleisio drwy'r post** wedi i etholiad cyffredinol y DU gael ei gyhoeddi, a dyma'r etholiad cyffredinol cyntaf lle allai pobl ymgeisio ar-lein. Fodd bynnag, ni wnaeth rhai o'r garfan oedd yn bwrw eu pleidlais drwy'r post dderbyn eu pecynnau pleidleisio mewn pryd i'w cwblhau a'u dychwelyd cyn diwrnod yr etholiad. Er nad oedd y problemau hyn yn systemig, nid oedd systemau pleidlais bost yn gweithio'n ddigon da i rai pleidleiswyr, ac fe wnaethom amlinellu cynigion ar gyfer sut allent gael eu gwella.

O fewn dau fis i ddiwrnod yr etholiad, fe gyhoeddwyd dadansoddiad gennym o'r gofyn am ID pleidleiswyr, gan dynnu ar ddata gorsafoedd pleidleisio ac ymchwil ar farn y cyhoedd i ddarparu mewnwelediad ar ei weithredu. Dangosodd yr ymchwil er bod **llai na 0.1% o bleidleiswyr wedi eu hatal rhag pleidleisio** gan y gofyniad, mae rhai grwpiau gan gynnwys pleidleiswyr sy'n ddi-waith a phleidleiswyr anabl yn parhau i'w chael hi'n fwy anodd dangos ffurflen wedi'i derbyn. Cyflwynwyd argymhellion gennym er mwyn ymestyn y rhestr ID ac i ystyried fersiwn digidol o'r ID am ddim.

Yn yr hydref, fe wnaethom gyhoeddi ein **hadroddiad llawn ar yr etholiad cyffredinol ac etholiadau mis Mai**. Dangosodd y dystiolaeth bod yr etholiadau wedi eu cynnal yn dda, ond bod rhai rhannau o'r system angen eu newid, yn arbennig y prosesau pleidlais bost a thramor. Argymhellwyd nifer o welliannau sylweddol gennym sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi pobl i gymryd rhan ac i ennyn ymddiriedaeth yn etholiadau'r dyfodol.




Cynyddodd ein gwaith ymhellach o ran hyrwyddo llythrennedd gwleidyddol, a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth wleidyddol ymysg ein pobl ifanc.

**Bu i dros 590,000 o bobl ifanc a 4,800 o addysgwyr a phartneriaid gymryd rhan yn ein Hwythnos Croeso i Dy Bleidlais.**

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gennym ar draws y wlad er mwyn dathlu'r wythnos, gan gynnwys un gyda seneddwyr a phartneriaid addysg yn Nhŷ'r Cyffredin. Cefnogwyd yr wythnos gan 38 o gynrychiolwyr etholedig.

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2024-25 |
|---|---|---|
| Ychwanegiadau at gofrestrau etholiadol yn ystod ein hymgyrch cofrestru pleidleiswyr | **576,661** (Mai) | **671,261** |
| | **1,279,501** (Etholiad cyffredinol) | **1,624,255** |

# Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a chyllid gwleidyddol sy'n cydymffurfio

**Rydym yn gweithio tuag at wella tryloywder ymgyrchu gwleidyddol, a helpu pleidiau ac ymgyrchwyr i gydymffurfio gyda'r gyfraith drwy:**

- sicrhau y gall ymgyrchwyr gyrchu cefnogaeth er mwyn deall y gyfraith yn y ffordd a'r amser sy'n gweithio orau iddynt hwy
- sicrhau bod cyfreithiau cyllid gwleidyddol yn cael eu gweithredu'n deg, gan weithio gyda gwasanaethau'r heddlu a rheoleiddwyr eraill i gefnogi eu gwaith mewn meysydd y tu hwnt i'n cylch gorchwyl cyfreithiol
- cyhoeddi data cyflawn a manwl gywir ar gyllid gwleidyddol
- darparu mewnwelediadau i ymgyrchwyr a seneddau ar sut mae dulliau ymgyrchu yn effeithio'n uniongyrchol ar hyder y pleidleiswyr mewn etholiadau.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

Er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth a hyder yn y system, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru cyn yr etholiad cyffredinol, a darparu cyngor amserol a manwl gywir i bleidiau, ymgyrchwyr ac ymgeiswyr. Roedd ein canllawiau yn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Etholiadau, gan gynnwys ynghylch cyfyngiadau ar ymgyrchu trydydd parti dramor a gwariant tybiannol. Cafodd god ymarfer statudol newydd ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn blaid hefyd ei roi ar waith cyn yr etholiad cyffredinol.




Aethom ati i **gyhoeddi rhyddhau rhoddion cyn etholiad bob chwe wythnos** yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol, gan ddarparu tryloywder mewn amser real. Roedd hyn yn cynnwys gwerth oddeutu £16 miliwn o roddion.

Wedi'r etholiad, gwnaethom gyhoeddi ffurflenni gwariant ar gyfer pleidiau ac ymgyrchwyr sydd wedi gwario llai na £250,000, a ffurflenni ymgeiswyr, gan ddarparu pleidleiswyr â gwybodaeth ynghylch yr arian gafodd ei wario yn ystod yr ymgyrch. Bydd y rhifyn olaf o ddata ar wariant yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2025.

Cafodd trefn argraffnodau digidol eu monitro gennym, gan ddarparu arweiniad a chyngor, er mwyn sicrhau bod gan bleidleiswyr dryloywder ar bwy sy'n ceisio eu cyrraedd ar-lein. Yn gyffredinol, ymddengys bod lefelau uchel o gydymffurfiaeth â'r drefn newydd.




Er mwyn helpu **i fynd i'r afael â'r mater o gam-drin a bygwth ymgeiswyr**, fe wnaeth y Comisiwn weithio gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Coleg Plismona er mwyn diweddaru ei ganllawiau ar y cyd ar gyfer ymgeiswyr ac eraill ar gam-drin a bygwth. Cafodd canllawiau tebyg ar y cyd gyda Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon ei adolygu a'i gyhoeddi eleni.

Cyn yr etholiad cyffredinol, **gweithiom gyda'r Jo Cox Foundation, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus** er mwyn galw'n gyhoeddus am ymgyrch a oedd yn rhydd rhag camdriniaeth. Fe wnaethom annog ymgeiswyr i adrodd am ddigwyddiadau wrth yr heddlu, ac i ymgyrchwyr siarad gyda'u staff a'u gwirfoddolwyr ynghylch pwysigrwydd ymgyrchu'n ddiogel.

Byddwn yn parhau i gyfrannu at y drafodaeth ac rydym wedi cynnwys argymhellion ar y pwnc yn ein hadroddiad wedi'r etholiad. Rydym hefyd wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i **Gynhadledd y Llefarydd** ar raddfa'r broblem a rhai o'r dylanwadwyr y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael ag ef.

Yn dilyn yr etholiad cyffredinol a'r ymgynghoriad gyda phleidiau, adolygwyd y Cynllun **Grantiau Datblygu Polisi (PDG)** gennym a gwnaed argymhellion i'r Gweinidog gennym ynghylch sut ddylid diweddaru'r Cynllun. Cafodd y rhain eu cytuno arnynt a chafodd yr arian ei ddyrannu i bleidiau cymwys ym mis Ebrill.

Parhaom i gyflwyno'r achos dros ddiwygio cyfreithiau cyllid gwleidyddol er mwyn sicrhau bod y system yn cael ei hamddiffyn rhag y posibilrwydd o ddylanwad o dramor. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth newydd y DU wrth iddynt ystyried newidiadau cyfreithiol posib.

Mae nifer o'r argymhellion hyn wedi'u cefnogi gan sefydliadau eraill, gan gynnwys Transparency International, Spotlight on Corruption, APPG on Anti-Corruption and Responsible Tax, ac rydym yn parhau i ymgysylltu gyda hwy ar eu hargymhellion polisi.

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2024-25 |
|---|---|---|
| Cyhoeddi yn brydlon adroddiadau ar roddion a benthyciadau sy’n cael eu derbyn erbyn y terfyn amser statudol | **100%** | **100%** |
| Cyhoeddi datganiadau cyfrifon cyn pen 60 diwrnod gwaith | **100%** | **100%** |
| Gwneud cynnydd gydag ymchwiliadau a dod â nhw i gasgliad yn brydlon | **90%** | **58%** |
| Hysbysu / cyhoeddi penderfyniadau ar sancsiynau (hysbysiadau terfynol) yn brydlon yn dilyn cyfnod cynrychiolaethau | **90%** | **80%** |
| Hysbysiad prydlon o ganlyniad ceisiadau cofrestru ymgyrchwyr ar gyfer pleidiau a rhai nad ydynt yn bleidiau (ar gyfer rhai newydd a newid manylion) | **90%** | **77%** |
| Ymatebion prydlon i geisiadau am gyngor rheoleiddio ar adroddiadau ariannol | **90%** | **98%** |
| Cynnyrch / adnoddau canllawiau rheoleiddio effeithiol wedi’u darparu er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth â'r gyfraith | **AMHERTHNASOL** | **100%** |
| Ymholiadau sy’n gysylltiedig â chynnyrch canllawiau er mwyn helpu i adnabod meysydd presennol a/neu newydd sy’n gallu darparu eglurder ychwanegol o’r gyfraith | **100%** | **100%** |

*Pan gafodd yr etholiad cyffredinol ei alw, fe wnaethom newid ein ffocws i gefnogi’r gymuned a reoleiddir i ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau, ac i gyhoeddi gwybodaeth ariannol yn brydlon. Arweiniodd hyn at ohirio rhai ymchwiliadau.*

*Yn dilyn yr etholiadau, fe wnaethom wella ein perfformiad o ran bodloni targedau cofrestru pleidiau yn ail hanner y flwyddyn. Fel sy’n arferol, fe wnaeth llwyth gwaith yr ymchwiliadau gynyddu yn sylweddol dros y ddau etholiad. Dechreuodd hyn wella erbyn y chwarter olaf.*

# Gwasanaethau etholiadol lleol cydnerth

**Rydym yn helpu awdurdodau lleol a gweinyddwyr etholiadau i ymateb i fod dan bwysau drwy:**

- osod safonau perfformiad heriol ar gyfer gwasanaethau etholiadol lleol
- darparu arweiniad a chefnogaeth hygyrch ar gyfer gweinyddwyr etholiadau
- cefnogi cynnydd yng nghydnerthedd gwasanaethau etholiadol lleol
- sicrhau bod y system etholiadol yn gweithio’n effeithiol.

## Gwaith a wnaed i gyflawni’r nod hwn

Fel bob amser, rydym yn **cynhyrchu canllawiau cynhwysfawr** ar baratoi ar gyfer etholiadau a rhedeg yr etholiadau, gyda'r bwriad o gefnogi Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadau. Mae hyn yn cynnwys canllawiau hygyrchedd er mwyn cefnogi pobl anabl i bleidleisio’n annibynnol ac yn gyfrinachol.




Bu i ni **alw ynghyd y Bwrdd Cydlynu a Chynghori Etholiadol (ECAB) ar y cyd**, sy’n cynnull swyddogion canlyniadau ledled y DU, yn ogystal â chynrychiolwyr o lywodraeth Cymru, y DU a’r Alban, Cymdeithas Gweinyddwyr Etholiadau, SOLACE, y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn yr Alban a’r Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon. Rôl ECAB yw darparu cyngor strategol ar redeg etholiadau a monitro byw yn ystod cyfnodau’r etholiad. Roedd y Bwrdd yn benodol yn awyddus i adnabod a symud ymlaen gweithredoedd er mwyn mynd i’r afael â heriau yn ymwneud â chydnerthedd a chapasiti, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn, staff pleidleisio a chyflenwyr.

Parhaom i ddefnyddio’r safonau perfformio er mwyn cefnogi a herio’r rhai sy’n rhedeg etholiadau gan helpu i sicrhau darparu gwasanaethau etholiadol o safon uchel yn gyson ar gyfer pleidleiswyr ac i fynd i’r afael â'r heriau sy’n hysbys i gydnerthedd parhaus gwasanaethau etholiadau lleol.

Er mwyn **mynd i’r afael â phryderon ynghylch twyll etholiadol**, aethom ati i weithio gyda’r gymuned etholiadol, gan ddarparu arweiniad a hyfforddiant ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio, ac atgyfnerthu pwysigrwydd cyfrinachedd wrth bleidleisio a’r camau y dylid eu cymryd er mwyn mynd i’r afael ag unrhyw broblemau fyddai’n codi.

Mae ein llawlyfr gorsaf bleidleisio yn amlinellu rôl a phwerau staff gorsaf bleidleisio wrth atal rhywun rhag mynd gyda phleidleisiwr i fwth pleidleisio.

## Dangosyddion perfformiad


| Dangosydd | Targed | 2024-25 |
|---|---|---|
| Cyngor manwl gywir i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac ymgeiswyr ac asiantau o fewn tri diwrnod (Prydain Fawr) | **100%** | **97%** |

# Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol

**Rydym yn ymgysylltu gyda seneddwyr a llywodraethau er mwyn gwella'r gyfraith etholiadol fel ei bod yn addas i'w diben, yn lleihau cymhlethdod, aneffeithlonrwydd a risg, ac yn galluogi arloesi drwy:**

- gefnogi ystyriaeth a gweithrediad effeithiol o ddeddfwriaeth yn seneddau'r DU
- ymgysylltu gydag agendâu diwygio cyfraith etholiadol y llywodraethau er mwyn sicrhau bod diwygiadau'n cael eu cynllunio'n dda ac yn cael eu rhoi ar waith yn dda
- darparu cyngor arbenigol ar ymarferoldeb ac effaith unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud i wella'r system etholiadol
- gwneud achos dros ddiwygiadau yn y dyfodol, yn seiliedig ar dystiolaeth glir o safbwyntiau ac anghenion rhanddeiliaid, a'r buddion y byddai'r newidiadau arfaethedig yn eu cyflawni.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn




Yn dilyn etholiad cyffredinol y DU a'r etholiadau ym mis Mai, bu i'r Comisiwn **gyhoeddi ei adroddiad wedi etholiad**, a oedd yn rhoi ymlaen nifer o argymhellion i wella'r system etholiadol, gan gynnwys diwygiadau i'r systemau pleidleisio dryw'r post ac o dramor, a oedd wedi achosi problemau i rai pleidleiswyr. Cafodd hyn ei ddatblygu gan ddefnyddio sail dystiolaeth eang, gan gynnwys data gorsaf bleidleisio ac ymchwil a wnaed gyda'r cyhoedd, ymgeiswyr, gweinyddwyr etholiadau.

Ymatebodd Llywodraeth y DU i'r adroddiad ym mis Chwefror gan nodi ei bod yn ystyried nifer o'r argymhellion a gynigiwyd gennym er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau rhag pleidleisio, gwella profiad pleidleiswyr a gweinyddwyr, a delio gyda cham-drin a bygwth ymgeiswyr.

Roedd maniffesto newydd Llywodraeth y DU yn addo cyflwyno newidiadau i'r system etholiadol, gan gynnwys pleidleisio yn 16 oed a diwygiadau i gofrestru pleidleiswyr. Rydym yn darparu ein dealltwriaeth, ein tystiolaeth a'n harbenigedd ar bolisïau etholiadol i gefnogi Gweinidogion a seneddwyr a chynllunio sut fyddwn yn cefnogi rhoi unrhyw newidiadau yn y dyfodol ar waith.

Rydym yn parhau i feithrin sail tystiolaeth gref, gan gasglu dealltwriaethau a data gan randdeiliaid ar draws y system etholiadol. Roedd hyn yn cynnwys ein holreiniwr agweddau'r cyhoedd blynyddol, sy'n edrych ar agweddau tuag at etholiadau a democratiaeth yn y DU. Aethom ati yn ogystal i gyhoeddi ymchwil a oedd yn edrych ar beth roedd pobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed yn ei feddwl ynghylch gwleidyddiaeth a phleidleisio.

Ym mis Tachwedd, aethom ati i lunio cyflwyniad ar gyfer **adolygiad y Llywodraeth i'r cwricwlwm** yn Lloegr. Aethom ati i ddwyn ynghyd 40 o bartneriaid byd addysg ac academyddion er mwyn darparu sail tystiolaeth sylweddol a phrofiad ar lawr gwlad o sut mae addysg democratiaeth yn cael ei haddysgu mewn ystafelloedd dosbarth.

Rydym yn parhau i **gasglu a chyhoeddi data ar dwyll etholiadol yn flynyddol**, gan gynnwys adrodd ar nifer, mathau a chanlyniadau honiadau i luoedd yr heddlu ar draws y DU. Mae'r ffigyrau yn dangos bod 445 achos o dwyll etholiadol honedig wedi eu hymchwilio gan yr heddlu yn ystod 2024. Er bod hyn ychydig yn uwch na'r 347 yr adroddwyd arnynt yn y flwyddyn flaenorol, dangosodd y data nad oedd 94% o'r achosion yn arwain at unrhyw gamau pellach gan yr heddlu neu eu bod wedi'u datrys yn lleol drwy roi gair o gyngor i'r rhai a oedd yn gysylltiedig â'r mater. Mae'r ffigyrau yn adlewyrchu bod y DU yn parhau i gael lefelau isel o dwyll etholiadol wedi'i brofi.

Rydym yn gweithio i gefnogi lluoedd yr heddlu ar draws y DU wrth ddeall a gweithredu'r gyfraith.

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2024-25 |
|---|---|---|
| Cyhoeddi adroddiadau etholiad / refferendwm yn brydlon | **100%** | **100%** |
| Ymatebion prydlon i gynigion polisi ac ymgynghoriadau deddfwriaethol | **100%** | **100%** |
| Ymatebion i ohebiaeth rhanddeiliaid etholedig (AS, ASA, ACD ac AS) cyn pen 10 diwrnod gwaith | **100%** | **100%** |

# System etholiadol fodern a chynaliadwy

**Rydym yn gweithio tuag at system etholiadol fodern a chynaliadwy drwy:**

- ddefnyddio data a thechnoleg i fodloni anghenion pleidleiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadau
- deall, galw am weithredu a gweithredu ar risgiau newidiol y system etholiadol drwy gamddefnyddio data a thechnoleg
- parhau i feithrin perthnasoedd cryf a symleiddio arferion gweithio gyda'r holl gyrff sy'n rhan o'r system etholiadol
- cefnogi llywodraethau a'r gymuned etholiadol ehangach i fabwysiadu strategaeth a chynllun gweithredu sy'n bodloni safonau amgylcheddol sy'n ofynnol gan ein system etholiadol.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

Yn dilyn etholiadau mis Mai a'r etholiad cyffredinol, bu i'r **Comisiwn gyflwyno argymhellion ar sut i wella'r system etholiadol**, gan gynnwys hygyrchedd y gofyniad am ID ar bleidleiswyr a'r system pleidlais bost.

Rydym wedi bod yn trafod buddion y newidiadau hyn gyda seneddwyr a rhanddeiliaid, a gobeithiwn weld cynnydd mewn meysydd allweddol.




Mae ein **hymchwil diweddaraf yn dangos bod cymaint â 8 miliwn o bobl yn y DU heb gofrestru'n gywir i bleidleisio**. Rydym yn parhau i ymdrechu dros welliannau i'r system gofrestru pleidleiswyr ac rydym wedi bod yn rhannu tystiolaeth ac arbenigedd gyda Llywodraeth y DU wrth i newidiadau deddfwriaethol y dyfodol gael eu datblygu.

Aethom ati i fonitro'r defnydd a wneir o dechnolegau newydd megis deallusrwydd artiffisial, a chyhoeddi gwybodaeth a chyngor i bleidleiswyr ar sut i ymgysylltu'n hyderus gyda deunydd ymgyrchu a meddwl yn feirniadol ynghylch yr hyn wnaethant ei weld a'i glywed.

Galwom ar yr holl ymgyrchwyr i beidio â chamarwain pleidleiswyr ac i ystyried sut ymateb fyddai i'w deunydd ymgyrchu, yn arbennig wrth ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.

Aethom ati i ymgysylltu gyda phartneriaid rhyngwladol drwy gydol y flwyddyn er mwyn dysgu gan eu profiadau a rhannu arferion gorau. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda sefydliadau cyfatebol yn Awstralia, Canada, Seland Newydd ac Iwerddon.

Mewn partneriaeth gyda Swyddfa'r Cabinet, fe wnaethom hefyd rannu ein profiadau o'r etholiad cyffredinol gyda'r Comisiwn Etholiadol yn Ghana cyn eu hetholiad arlywyddol.

# Ffactorau sy’n galluogi

## Annibyniaeth ac uniondeb


Rydym yn gweithio’n galed i sicrhau ein bod yn cael ein parchu am ein harbenigedd a bod ein cyngor a’n proses o wneud penderfyniadau yn rhydd rhag unrhyw ragfarn.

Rydym yn arddangos ein hannibyniaeth a’n huniondeb drwy:

- wneud penderfyniadau ar sail y dystiolaeth a bod yn dryloyw ynghylch y rhesymau drostynt
- seilio ein safle o safbwynt polisi ac argymhellion ar ddadansoddiad o'r dystiolaeth
- cyfathrebu ein gwaith a’n safbwyntiau yn effeithiol
- darparu gwasanaethau ymatebol i’r rhai rydym yn eu cefnogi
- ceisio cynnal trefniadau llywodraethu effeithiol.

### Gwaith a wnaed i gyflawni’r nod hwn

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth bob mis ar ymchwiliadau rheoleiddiol a gwblhawyd, gan ddarparu tryloywder a hyder yr ymatebir i’r problemau diffyg cydymffurfio.




Derbyniwyd 180 cais am ryddid gwybodaeth gennym, gan ymateb i’r 85% ohonynt o fewn yr amserlen statudol o 20 diwrnod gwaith, sy’n is nag ein targed o 90%. Gofynnwyd i ni gynnal adolygiadau mewnol i chwech o’n hymatebion. Fe wnaethom dderbyn dwy gŵyn gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a oedd yn berthnasol i ymholiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn, ac roedd y ddwy wedi eu cau pan wnaethom ymateb i’r ceisiwr gwybodaeth.

Derbyniwyd 72 cais am fynediad at ddata gan y testun a phum cais i ddileu dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data. Ymatebwyd i 97% o fewn yr amserlen ymateb statudol o un mis calendr. Mae ffigyrau’r ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun a’r cais i ddileu yn parhau i fod yn uwch na chyn yr ymosodiad seiber ar y Comisiwn.

Fe wnaethom ymdrin â 10 cwyn mewn cymhariaeth â 13 yn 2023/24. O’r rhai a gwblhawyd, cafodd saith eu diystyru a thri ei diystyru’n rhannol.

Ymatebodd ein gwasanaeth ymroddedig gwybodaeth i'r cyhoedd i **12,116 o ymholiadau gan y cyhoedd** yn ystod y flwyddyn. Atebwyd cwestiynau gennym ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys ID pleidleiswyr, cofrestru pleidleiswyr a phleidleisio drwy'r post. Ni wnaethom ymateb i bob ymholiad o fewn ein targed o ddau ddiwrnod gwaith, oherwydd y gyfran uchel o ymholiadau yn ystod y cyfnod etholiad cyffredinol. Ymatebodd ein canolfan alwadau ymroddedig ar gyfer yr etholiad cyffredinol i 1,518 o alwadau ychwanegol.

Bu i ni hefyd ddelio gyda thros **65,506 o ymholiadau a dderbyniwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol**.

Ymatebwyd i **49 o gwestiynau seneddol** yn San Steffan yn ystod 2024/25 gennym, gan gynnwys cwestiynau ar reoleiddio a chanllawiau cyllid gwleidyddol, etholiad cyffredinol y DU a cham-wybodaeth. Cat Smith AS, Rachel Hopkins AS a'r Gwir Anrhydeddus Syr Jeremy Wright AS, aelodau o Bwyllgor y Llefarydd oedd yn siarad ar ein rhan yn Senedd y DU, ac rydym yn hynod ddiolchgar am eu gweithgarwch a'u harweiniad.

Bu i ni adrodd wrth Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol ar weithgaredd yr ymgymerwyd ag ef yn unol â Strategaeth a Datganiad Polisi'r Llywodraeth. Aethom ati i amlinellu sut y gwnaethom roi ystyriaeth briodol i'r datganiad, gan gynnal hefyd ein hannibyniaeth a'n huniondeb.

## Dangosyddion perfformiad

| **Dangosydd** | **Targed** | **2024-25** |
|---|---|---|
| Ymateb yn brydlon i ymholiadau ar y cyfryngau cymdeithasol | **100%** | **100%** |
| Ymateb yn brydlon i ymholiadau gan y cyhoedd drwy alwadau, llythyrau a negeseuon e-bost (targed o ddau ddiwrnod gwaith) | **100%** | **85%** |
| Ymatebion prydlon i geisiadau dilys am fynediad at ddata gan y testun (targed o un mis calendr) | **100%** | **97%** |
| Ymatebion prydlon i geisiadau rhyddid gwybodaeth dilys (targed o 20 diwrnod gwaith) | **90%** | **81%** |

*Bu i'r etholiad cyffredinol gynhyrchu niferoedd uchel o ymholiadau gwybodaeth i'r cyhoedd mewn cyfnod byr. Ymatebwyd i dros 1,200 o negeseuon e-bost ar draws diwrnod yr etholiad a'r dyddiau a ddilynodd, ond roedd y swm yn golygu nad oedd pob un o fewn yr amser targed.*

# Sgiliau ac amrywiaeth

**Rydym yn sefydliad medrus lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi**




Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn fewnol ac yn ein holl weithgareddau gyda phleidleiswyr a rhanddeiliaid eraill.

Fel unrhyw sefydliad arall, mae gennym ystod o rwymedigaethau statudol er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn unol â'n cyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cynnwys y Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, sy'n gwahardd gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal a pherthnasoedd da ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

Rydym yn falch o barhau i fod yn gyflogwr sy'n Hyderus o ran Anabledd, ac rydym yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i anghenion ein gweithlu amrywiol drwy fabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan ddata i sicrhau bod polisïau ac arferion yn cefnogi diwylliant cynhwysol. Rydym yn monitro ysgogiadau sefydliadol ac yn gosod targedau uchelgeisiol er mwyn mesur cynnydd.

Sicrhawyd cefnogaeth allanol arbenigol gennym gan gymryd camau i fabwysiadu arfer gorau megis cyflwyno rhwydweithiau staff gydag uwch arweinwyr yn noddwyr. Aethom ati i sefydlu llwyfan i staff rannu eu profiadau a chodi ymwybyddiaeth. Lansiwyd Calendr Cynhwysiant gennym—wedi'i ddatblygu gyda mewnbwn gan staff a dealltwriaeth wedi'i harwain gan ddata—a chan rannu profiad bywyd gydag adborth positif.

Aethom ati i wella cyfathrebu mewnol a hyfforddiant drwy gydweithredu gyda Dysgu a Datblygiad, Adnoddau Dynol a grwpiau staff. Cyflwynwyd amcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn adolygiadau perfformiad gennym, gan feithrin diwylliant o atebolrwydd a gwelliant.

O ganlyniad i'n gweithredoedd, fe wnaethom gyflawni gwelliannau sylweddol ar draws pob metrig Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys canfyddiadau staff o'n hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant.

| **Metrigau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (% sy'n cytuno)** | **% yn 2023*** | **Targed** | **% yn 2024*** (gwahaniaeth) |
|---|---|---|---|
| Rwy'n teimlo bod cyfathrebu ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant yn dda o fewn y Comisiwn | 56 | 70 | 83 (+27) |
| O fewn y Comisiwn, rwy'n teimlo bod hyfforddiant priodol yn ei le ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant | 47 | 60 | 78 (+31) |
| Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i greu gweithle amrywiol a chynhwysol | 65 | 75 | 82 (+17) |


## Dangosyddion perfformiad

| **Dangosydd** | **Targed** | **2024-25** |
|---|---|---|
| Cyfradd gwblhau ar gyfer data monitro cydraddoldeb | **85%** | **66%** |

*Roedd gan y Comisiwn gyfradd gwblhau uchel ym mlynyddoedd blaenorol, ond symudwyd i system AD newydd eleni, a oedd yn gofyn i staff fewnbynnu eu data eto yn erbyn cyfres wahanol o gategorïau. Arweiniodd hyn at lefelau cwblhau is, ac rydym yn mynd i'r afael â hyn.*

**Parhaom i wasanaethu democratiaeth amrywiol yn ein gweithgaredd allanol ar gyfer pleidleiswyr, gan gynnwys:**

Mae ein gwaith ymgysylltu pleidleiswyr ar gyfer y cyhoedd yn cynnwys cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer gwahanol gymunedau ar draws y DU, a hynny'n uniongyrchol a thrwy bartneriaid.




Ar y cyd ag awdurdodau lleol a sefydliadau partner cymdeithas sifil, fe wnaethom weithio er mwyn cyrraedd ystod amrywiol o bleidleiswyr er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth arbennig roeddent ei hangen er mwyn cymryd rhan yn etholiadau eleni, yn y fformatau a'r ieithoedd y gallant eu cyrchu.

Mae hyn wedi cynnwys gwaith cyfredol gyda phartneriaid sy'n cynrychioli grwpiau ag iddynt berchnogaeth ID isel, gan gynnwys rhai o gymunedau'r Sipsi, Roma a Theithwyr, a phobl draws ac anneuaidd, er mwyn cefnogi eu cynulleidfaoedd i ddeall a bodloni'r gofyn am ID pleidleiswyr a chodi ymwybyddiaeth o argaeledd y Dystysgrif Awdurdod y Pleidleisiwr.

Rydym hefyd wedi comisiynu partneriaid i ymchwilio i brofiadau eu cynulleidfaoedd o etholiadau a'r rhwystrau maent wedi'u hwynebu, ac i gyd-greu a phrofi ymyriadau arloesol er mwyn dileu'r rhwystrau yma. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys prosiectau er mwyn cefnogi:

- Pobl fyddar, wedi'u darparu gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID)
- Pobl ifanc AAAA, wedi'u darparu gan Smart School Councils
- pobl o gefndiroedd Du a chefndiroedd lleiafrifoedd ethnig eraill wedi'u darparu gan y Race Equality Foundation
- aelodau o gymuned y Sipsi, Roma a Theithwyr, wedi'u darparu gan Friends, Families and Travellers
- Pobl LHDT+ wedi'u darparu gan Gonsortiwm LHDT

Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwaith ymwybyddiaeth gyhoeddus yn adlewyrchu amrywiaeth ein cynulleidfaoedd a'i fod mor gynrychioladol a chynhwysol â phosib. Mae hyn yn cynnwys ein hymgyrch ac adnoddau cofrestru pleidleiswyr sy'n arddangos aelodau o'r grwpiau sy'n cynrychioli'r cyhoedd yr ydym yn gwybod eu bod yn nodweddiadol wedi tan-gofrestru a/neu sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol rhag cymryd rhan, gan gynnwys pobl sy'n ddigartref a phobl gydag anabledd dysgu.

# Dysgu ac adnoddau

**Rydym yn sefydliad sy'n dysgu lle mae gwelliant yn barhaus, a lle defnyddir adnoddau'n effeithiol**

Gydag anghenion parhaus er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i reoli ein costau a gwneud defnydd effeithiol o'n technoleg, ariannu, amser ac adnoddau.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

Yn dilyn ymchwil ac ymgysylltu mewnol, penderfynodd y Comisiwn i foderneiddio a symleiddio ei strwythur tâl a chyflwyno system rheoli perfformiad gydnerth. Y nod yw rhoi strwythur tâl a phecyn cydnabyddiaeth tâl ar waith sy'n deg i bawb ar bob lefel ac sy'n annog perfformiad cryf. Rydym yn anelu i gyhoeddi'r strwythur newydd ym mis Gorffennaf 2025.

Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'n darpariaeth TG, gan gynnwys diweddaru holl liniaduron y Comisiwn gan ddiweddaru i Windows 11 ac rydym yn paratoi i ddefnyddio Copilot. Mae'r gliniaduron yn hanfodol ar gyfer prosiectau AI yn y dyfodol.

Rydym wedi rhoi hyfforddiant diogelu data gorfodol ar waith er mwyn sicrhau bod ein staff yn deall goblygiadau gwe-rwydo, ymosodiadau maleiswedd a meddalwedd wystlo.

Rydym wedi diweddaru ein technoleg cynadledda fideo i'w defnyddio ar ein trwyddedau O365 ac wedi arbed £57,000 y flwyddyn drwy wneud hynny.

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol ar gyfer Lloegr bellach wedi'i ail-leoli gyda ni yn ein swyddfa yn Bunhill Row, Llundain, gan arbed £100,000 y flwyddyn i'r Comisiwn Etholiadol mewn costau rhent a biliau.

**Mae yna hefyd nifer o brosesau mewnol sydd wedi gofyn am fuddsoddiad a gwelliant**

Mae'n ddrwg gennym fod cyfrifon y llynedd wedi'u hamodi ond rydym wedi dysgu'r gwersi, ac wedi ymdrechu'n galed i sicrhau nad dyma'r achos gyda chyfrifon eleni (I'w gadarnhau).

Dros gyfnod o flwyddyn, rydym wedi cryfhau ein systemau cyllid a chaffael. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddi yn ein tîm cyllid a'n sgiliau a sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian yn ein gweithgareddau bob amser. Ymunodd Chris Pleass â'r Comisiwn fel Cyfarwyddwr Corfforaethol ac mae wedi helpu i yrru'r gwaith yma yn ei flaen.




Rydym wedi cynyddu galluoedd a chapasiti tîm caffael newydd, gyda phennaeth newydd ac arbenigwyr

masnachol profiadol. Rydym wedi rhoi prosesau newydd ar waith er mwyn gwella ein gweithrediadau a sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a deddfwriaeth yn ymwneud â chaffael, gan lynu wrth safonau Ffwythiant Masnachol y Llywodraeth. Mae'r tîm wedi paratoi'r Comisiwn ar gyfer Deddf Caffael 2023 a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025, gan ymgysylltu â'r sector cyhoeddus yn ehangach er mwyn rhannu arfer gorau a dysgu o ganlyniad i hynny.

Ym mis Gorffennaf, fe wnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gyhoeddi cerydd o'r Comisiwn yn dilyn yr ymosodiad seiber yn 2021. Bu iddynt nodi a chroesawu'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'n dulliau, systemau a phrosesau ers yr ymosodiad, er mwyn atgyfnerthu diogelwch a chydnerthedd ein systemau.

Ers yr ymosodiad seiber, mae arbenigwyr diogelwch a diogelu data – gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y Ganolfan Diogelwch Seiber Genedlaethol ac arbenigwyr trydydd parti – wedi archwilio'n ofalus y mesurau diogelwch rydym wedi'u rhoi yn eu lle ac mae'r mesurau hyn yn rhoi hyder iddynt.

Rydym wedi rhoi rheolaethau diogelwch pellach ar waith er mwyn monitro traffig negeseuon e-bost, darparu amddiffyniad pellach rhag gwe-rwydo ac amddiffyn ein gweinyddwyr a'n gliniaduron rhag ymosodiadau Maleiswedd. Rydym wedi symud ymlaen o'n datrysiad blaenorol i ddefnyddio ein trwyddedau O365, gan arbed £30,000 y flwyddyn.

O ganlyniad i'r gwaith yma, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn ein sgôr diogelwch Microsoft o 40% yn 2022 i 82% ar hyn o bryd. Mae hyn 30% yn uwch na sefydliadau o faint tebyg.

Bob tri mis, mae prawf hacio yn cael ei wneud, er mwyn sicrhau ein bod yn monitro'n barhaus ar gyfer gwendidau drwy ein systemau allanol a mewnol.

# Defnyddio ein hadnoddau i gyflawni ein nodau

## Ein pobl

### Cyfranogiad ac ymgysylltiad staff

Mae staff ymroddedig ac arbenigol y Comisiwn wedi'u lleoli ar draws y DU - 82% yn ein pedair swyddfa a 18% wedi'u lleoli gartref o amgylch y DU fel gweithwyr o bell. Mae cylchlythyrau wythnosol a diweddariadau'r prif weithredwr, digwyddiadau i'r staff cyfan, sesiynau 'cinio a dysgu' a'r fewnrwyd yn galluogi staff i barhau mewn cysylltiad ac i rannu gwybodaeth.

Mae grŵp ymgysylltu staff (SEG) yn cyfarfod bob chwe wythnos i drafod materion corfforaethol a diwylliant y Comisiwn, sy'n ceisio dal barn a dealltwriaeth gan bob tîm a lefel. Caiff hyn ei gefnogi gan gyfarfodydd prosiect ar draws timau rheolaidd, cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd bach gyda rheolwyr llinell.

Mae gan y Comisiwn undeb weithredol, ac mae eu Pwyllgor Cangen Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr er mwyn trafod materion sy'n berthnasol i staff.

Cafodd canlyniadau'r arolwg staff diweddaraf eu cyhoeddi ym mis Ionawr ac ymatebodd 85% o staff iddo. Roedd **sgôr ymgysylltu'r staff yn 68** (allan o 100), sy'n gynnydd o sgôr o 63 y llynedd

**Y meysydd lle roeddem yn cymharu'n ffafriol gyda'r cyfartaledd yn y Gwasanaeth Sifil:**

Roedd **83%** yn argymell y Comisiwn fel lle i weithio ynddo (cyfartaledd o 61%)

Roedd **78%** yn falch o ddweud wrth eraill eu bod yn gweithio i'r Comisiwn (cyfartaledd o 65%)

Dywedodd **90%** eu bod yn cael eu trin gyda pharch gan y bobl maent yn gweithio gyda nhw (cyfartaledd o 88%)

**Y meysydd lle roeddem yn cymharu'n llai ffafriol gyda'r cyfartaledd yn y Gwasanaeth Sifil:**

Dywedodd **22%** fod newid yn cael ei reoli'n dda (cyfartaledd o 34%)

Roedd **35%** o'r farn bod cyfleoedd i ddatblygu gyrfa yn y Comisiwn (cyfartaledd o 53%)

Dywedodd **52%** fod ymddygiadau'r Uwch Dîm Rheoli yn gyson gyda siarter diwylliant y Comisiwn (cyfartaledd o 65%)

## Dangosyddion perfformiad

| | **Targed** | **2024-25** |
|---|---|---|
| Cynnal sgôr lles staff mewn arolwg staff | **77%** | **74%** |
| Cynnal sgôr ymgysylltu staff mewn arolwg staff | **67%** | **68%** |

## Iechyd galwedigaethol a diogelwch

Rydym yn adolygu ein polisi iechyd a diogelwch yn flynyddol. Mae gennym hefyd weithdrefnau, canllawiau ac asesiadau risg yn eu lle i gwmpasu ein holl weithgareddau craidd. Mae grŵp iechyd a diogelwch yn goruchwylio ein trefniadau. Maent yn cwrdd yn rheolaidd ac yn adrodd i'n huwch grŵp rheoli. Fodd bynnag, mae'r prif gyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch yn gorwedd gyda rheolwyr pobl.

Rydym yn trefnu archwiliadau iechyd a diogelwch annibynnol o'n heiddo bob blwyddyn, sy'n golygu archwilio amgylcheddau gweithio ac adolygu systemau rheoli diogelwch.

Mae’r archwiliadau hyn yn dweud wrthym os yw ein trefniadau yn briodol ac yn tynnu sylw at unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud. Yn 2024/25 fe wnaethom:

- Symud i Asesiadau Risgiau Tân (FRA) annibynnol, gyda’r cyntaf yn cael ei gynnal yn Swyddfa Gogledd Iwerddon. Bydd Asesiadau Risgiau Tân annibynnol yn cael eu cynnal yn ein swyddfa yn Llundain a Chymru yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

- Dechrau ar y broses o ddiweddaru blychau llawr trydanol i Ddyfais Cerrynt Gweddilliol (RCD) er mwyn gwella diogelwch trydanol yn holl swyddfeydd y Comisiwn. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod y misoedd sydd i ddod.

- Hyfforddi wyth staff ychwanegol i ddod yn Swyddogion Tân a phedwar mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith. Bydd mwy o staff yn cael eu hyfforddi ar draws Swyddfeydd y Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

# Edrych ymlaen at ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2025/26 - 2029/30

Ers 1 Ebrill 2025, mae gan y Comisiwn Etholiadol gynllun Corfforaethol newydd, sy'n amlinellu'r gweithgareddau a'r allbynnau y mae'n bwriadu eu cyflawni yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio data, tystiolaeth a phryderon sydd wedi'u dwyn ynghyd ar draws y gymuned etholiadol, pleidiau ac ymgeiswyr, yn ogystal â'r gwersi o etholiadau diweddar a'r bygythiadau a'r cyfleoedd sydd wedi eu hadnabod.

Mae etholiadau yn y DU yn parhau i gael eu rhedeg yn dda, ond mae hyder yn y system yn dibynnu ar gyfranogiad cryf a phrosesau cydnerth. Mae'r cynllun drafft yn canolbwyntio ar bum thema: **cefnogi pleidleiswyr a chynyddu cyfranogiad, moderneiddio'r system etholiadol, diogelu ac amddiffyn y system, arwain dadl ynghylch dyfodol etholiadau, ac atgyfnerthu'r Comisiwn Etholiadol.**




## Ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

**Cefnogi pleidleiswyr a chynyddu cyfranogiad**
Mae'r ganran a bleidleisiodd mewn etholiadau yn parhau i ostwng ac mae'r nifer o bobl sydd wedi ymddieithrio neu sy'n teimlo apathi wedi cynyddu. Byddwn yn ceisio cynyddu cyfranogiad pobl drwy roi mwy o hyder a gwybodaeth iddynt i gymryd rhan, a thrwy ddarparu gwybodaeth wedi'i theilwra i bobl ifanc a grwpiau eraill sydd naill ai wedi'u tan-gofrestru neu nad ydynt wedi eu cyrraedd ddigon. Bydd cynyddu mynediad pleidleiswyr i wybodaeth yr ymddiriedir ynddi yn helpu i fod yn sail i'w penderfyniadau. Bydd ein gwaith yn cynyddu cofrestriad pleidleiswyr, ymwybyddiaeth o ID pleidleiswyr a'r Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr.

## Moderneiddio'r system etholiadol


Gyda chynifer â 8 miliwn o bobl ar goll o gofrestrau etholiadol yn y DU, byddwn yn parhau i eirioli dros fwy o systemau awtomatig/gyda chymorth ar gyfer cofrestru pleidleiswyr, gyda'r mesurau diogelu priodol i wella pa mor lawn a chywir yw'r gofrestr, yn ogystal â pha mor ddiogel a defnyddiol ydyw.
Byddwn yn eirioli dros gydgyfnerthiad cyfreithiol, symleiddio a moderneiddio. Bydd lleihau cymhlethdod yn symleiddio gwaith gweinyddu etholiadau, cynyddu cydnerthedd, helpu pleidleiswyr i ymwneud â'r system yn well, a gwella dealltwriaeth a chydymffurfiaeth ymgyrchwyr gyda rheoliadau.

## Diogelu ac amddiffyn y system

Wrth i fygythiadau i'n democratiaeth dyfu a newid, rydym angen atgyfnerthu ein hymatebion a gwneud yn fawr o'r adnoddau sydd gennym. Bydd ein gwaith yn helpu pleidleiswyr i adnabod cam-wybodaeth a thwyll-wybodaeth, a bydd yn lleihau gweithgarwch sy'n cael effaith negyddol ar eu hyder wrth gynnal ymgyrchoedd. Byddwn yn mynd i'r afael â cham-drin a bygwth ymgeiswyr drwy weithio gyda'r heddlu ar ganllawiau i ymgeiswyr. Byddwn yn cefnogi Cynhadledd y Llefarydd ar fygythiadau. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethau'r DU, rheoleiddwyr eraill, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr er mwyn adnabod yr achosion ac ymateb iddynt. Dylai'r gwaith hwn gefnogi ymgeiswyr, pwy bynnag ydyn nhw, a'u hymwneud gyda phleidleiswyr.

## Arwain trafodaeth wybodus ynghylch dyfodol etholiadau

Rydym angen sicrhau bod yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer etholiadau yn y DU yn cael eu cydnabod, eu deall ar draws y system, ac y gweithredir arnynt yn sydyn gan wneuthurwyr polisi a'r gymuned etholiadol ehangach. Byddwn yn eu darparu gyda thystiolaeth gadarn a gwell mynediad at gyngor annibynnol ynghylch yr heriau sy'n wynebu etholiadau yn y DU, gan dynnu hefyd ar brofiad a gwersi rhyngwladol.



## Atgyfnerthu'r Comisiwn Etholiadol

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn addasu i fodloni anghenion a disgwyliadau pleidleiswyr, llywodraethau'r DU, ymgyrchwyr a thimau gwasanaethau etholiadol sy'n newid, ac i gyflawni'r cynllun hwn. Byddwn yn buddsoddi yn ein galluoedd, systemau a gwasanaethau cefnogi cyfredol, gan roi i ni'r gwytnwch rydym ei angen er mwyn cyflawni ein ffwythiannau creiddiol, a'r rhaglen waith uchelgeisiol a hanfodol bwysig hon.

# Adroddiad cynaliadwyedd

Mae’r Comisiwn yn ymrwymedig i weithle cynaliadwy. Rydym yn cydnabod ein bod, drwy gyflawni ein gweithgareddau, yn cael effaith ar yr amgylchedd ac rydym yn parhau i weithio tuag at leihau’r effaith hon.


Rydym yn cymryd gofod swyddfa ar brydles mewn pedair dinas o gyfuniad o berchnogion eiddo o’r sector gyhoeddus a’r sector breifat. Nid oes gennym reolaeth uniongyrchol dros gyflenwyr cyfleustodau a gwaredu gwastraff yn ein heiddo. Yn ein holl swyddfeydd, mae perchennog yr eiddo yn rheoli defnydd o ynni a dŵr a gwaredu gwastraff ac mae’n adfer y gost drwy dâl gwasanaeth sydd wedi'i gydgrynhoi.

Bu i’r llywodraeth ganolog, wedi’i harwain gan Drysorlys EF, gyflwyno cynllun tair blynedd fesul cam o 2023-24 ar gyfer cyrff cyhoeddus sy’n disgyn o fewn cwmpas Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth (GGC) i sicrhau bod eu hadroddiadau am gynaliadwyedd yn cyd-fynd â meini prawf Datgeliadau Ariannol Sy’n Gysylltiedig gyda’r Hinsawdd (TCFD). Mae'r meini prawf hyn yn cwmpasu pedair thema: llywodraethu, strategaeth, rheoli risg, a metrigau a thargedau. Oherwydd maint y Comisiwn a’r defnydd a wneir o eiddo a rennir, nid yw TCFD yn gymwys, ond rydym wedi ymrwymo i weithredu mewn ffordd gynaliadwy, gan wneud dewisiadau sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd, a lleihau ein hôl troed carbon lle bynnag y bo’n bosib.

Mae perfformiad, lle mae ar gael, yn cael ei gyflwyno yn erbyn pob un o feysydd adrodd GGC.  Rydym wedi cynnwys y data ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol er mwyn cymharu yn erbyn y flwyddyn llinell sylfaen. Mae ragor o wybodaeth ar gael ar dudalen GGC ar [wefan y Llywodraeth](#).

Nid yw'r meysydd adrodd GGC canlynol yn berthnasol i’r Comisiwn:

- Cynlluniau gweithredu adfer byd natur a bioamrywiaeth – nid yw’r Comisiwn yn dal unrhyw dir na chyfalaf naturiol.
- Fflyd ceir teithio – nid yw’r Comisiwn yn berchen ar unrhyw geir fflyd; mae’r holl deithio’n cael ei wneud ar drafnidiaeth gyhoeddus neu yng ngherbydau’r gweithwyr.
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol – nid yw’r Comisiwn yn berchen ar unrhyw offer allyriadau uniongyrchol.



- Lleihau a rheoli gwastraff - nid yw’r Comisiwn yn defnyddio unrhyw blastigau untro (CSUP).

# Lliniaru newid hinsawdd

## Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth

| Metrig | Mesur | 2024/25 | 2023/24 | 2017/18 llinell sylfaen | % |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfwerth â thunelli o garbon deuocsid (CO2e)** | Allyriadau Cwmpas 2 (ynni anuniongyrchol) | 99 | 99 | 198 | 50% |
| | Allyriadau cwmpas 3 (teithio busnes swyddogol - domestig) | 30 | 30 | 37 | 19% |
| | Allyriadau cwmpas 4 (teithio busnes swyddogol - rhyngwladol) | 18.5 | 0 | Heb ei gofnodi | 0% |
| | **Cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr** | 147.5 | 129 | 235 | 37.2% |
| **Oriau cilowat (kWh)** | Defnydd o drydan grid safonol y Prif Gyflenwad (cwmpas 2 a 3) | 311,211 | 375,818 | 487,611 | 36.2% |
| | Systemau gwresogi (nwy) | 121,078 | 188,854 | 211,990 | 42.9% |
| | **Cyfanswm defnydd ynni perthnasol** | 432,289 | 564,672 | 699,601 | 38.2% |
| **£000** | Gwariant ar ddefnyddio ynni | 31 | 48 | Heb ei gofnodi | |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol domestig | 121 | 99 | 114 | 6% |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol rhyngwladol | 17 | 0 | 0 | |
| | **Cyfanswm gwariant perthnasol** | 169 | 124 | 114 | 148% |
| **Lleihau a rheoli gwastraff** | | | | | |
| **Tunelli** | Gwastraff cyfrinachol (wedi'i ailgylchu) | 1 | 0 | 2.81 | 64.4% |
| | Gwastraff Cyffredinol (gan gynnwys wedi'i ailgylchu) | 4.52 | 2.84 | 7.26 | 37.7% |
| | **Cyfanswm gwastraff** | 5.52 | 2.84 | 10.07 | 45.2% |
| **£000** | **Cyfanswm cost gwastraff** | 1 | 2 | 1 | 0% |
| **Defnydd o adnoddau prin** | | | | | |
| **Metrau ciwbig** | Defnydd o ddŵr | Ddim ar gael* | Ddim ar gael* | Ddim ar gael* | |
| **£000** | **Cyfanswm cost dŵr** | Ddim ar gael* | Ddim ar gael* | Ddim ar gael* | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnydd o bapur** | | | | | |
| **Rimau** | Papur a brynwyd (sydd gyfwerth ag A4) | 55 | 105 | 650 | 91.5% |

* Gan ein bod mewn eiddo a rennir wedi'i rentu gan landlord preifat, nid yw gwariant ar faint o ddŵr a ddefnyddir ar gael gan nad yw cael y data yn dechnegol ddichonadwy. Nid yw'r data ynni a ddyfynnir yn cynnwys y defnydd o ynni ar gyfer ardaloedd cyffredin sy'n cael ei dalu gan y landlord.

## Targed GCS

| | |
|---|---|
| **Lleihau allyriadau cyffredinol o 52% a lleihau allyriadau uniongyrchol o 20% o linell sylfaen 2017-18 erbyn 2024-25, gyda'r bwriad o gyrraedd sero net erbyn 2050** | Rydym yn parhau i weithio er mwyn lleihau'r defnydd a wneir gennym o danwydd ffosil. Mae perchnogion yr eiddo wedi cyflwyno mesurau i leihau'r defnydd o drydan drwy ostwng gweithrediad cyfarpar a pheiriannau 'oddi allan i oriau swyddfa' a chyflwyno goleuo sy'n effeithlon o ran ynni y llynedd. Mae hyn wedi dangos gostyngiad o 35% o 2023-24. |
| Is-darged: lleihau allyriadau o hediadau busnes domestig 30% fan leiaf o linell sylfaen 2017-18 erbyn 2024-25 | Mae defnyddio teithio mewn awyren ar gyfer ymweliadau domestig yn galluogi gweithwyr i ymweld â swyddfeydd Gogledd Iwerddon a swyddfeydd datganoledig. Y mwyafswm o allyriadau o'n hediadau domestig eleni oedd 30CO2e, gyda'r pellter a deithiwyd yn 115,000km |
| Is-darged: adrodd y pellter a deithiwyd gan hediadau busnes rhyngwladol, gyda'r bwriad o gael gwell dealltwriaeth a lleihau allyriadau cysylltiedig lle mae'n bosib | Er ein bod yn ceisio cadw'r pellter sy'n cael ei deithio drwy hediadau busnes rhyngwladol i'r isafswm posib, rydym wedi teithio dramor er mwyn ymgysylltu gyda'n partneriaid o fewn gwahanol wledydd er mwyn dysgu o'u profiadau a rhannu arfer gorau. Pryd bynnag y gallwn ni, byddwn yn ceisio lleihau nifer yr hediadau rhyngwladol drwy ddefnyddio dulliau eraill o gyfathrebu megis fideo telegynadledda.<br><br>Eleni roedd y pellter a deithiwyd yn 70,647km, ac roedd hynny'n bennaf er mwyn ymweld â Chomisiwn Etholiadol Awstralia. Roedd hyn yn cynnwys trafod eu rhaglen trawsnewid digidol 5 mlynedd a chychwyn ar y Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth. |
| **Lleihau'r swm cyffredinol o wastraff a gynhyrchwyd** | Mae ffigyrau gwastraff cyffredinol ac ailgylchu yn seiliedig ar gyfran o'r gwastraff adeiladau yn gyffredinol gan na allwn |

| | |
|---|---|
| **o 15% o'r llinell sylfaen 2017 i 2018** | eu rheoli'n uniongyrchol.<br>Mae gwaredu gwastraff cyfrinachol yn cael ei drin ar wahân i'r hyn a wneir ar gyfer preswylwyr eraill yr adeilad. Rydym yn darnio'r gwastraff cyfrinachol rydym yn ei gynhyrchu ar y safle cyn iddo gael ei ailgylchu'n bapur o safon isel.<br>Mae'r holl wastraff cyffredinol a gynhyrchir yn yr adeilad, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu gennym ni, yn cael ei anfon i waith gwastraff sy'n cynhyrchu ynni, yn hytrach na safleoedd tirlenwi.<br><br>Mae gweithio'n hybrid wedi cyfrannu at leihad sylweddol mewn defnyddio papur a gwastraff ers 2017/18. |

## Caffael cynnyrch a gwasanaethau cynaliadwy

Mae'r Comisiwn yn parhau i weithio gyda'r holl gyflenwyr yn unol â Safonau Prynu'r Llywodraeth ac yn cyd-fynd â GGC. Rydym yn ymrwymedig i gynaliadwyedd yn y ffordd y mae nwyddau a gwasanaethau'n cael eu caffael ac yn gweithio gyda chyflenwyr cyfredol a darpar-gyflenwyr er mwyn gwella perfformiad ynghyd â chyflawni gwerth am arian.

**Gwneir hyn drwy:**

- nodi unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd ar y cam achos busnes yn effeithiol
- sicrhau bod cwsmeriaid yn ymgorffori ffactorau cynaliadwyedd wrth ddatblygu gofynion masnachol
- defnyddio meini prawf gwerthuso sy'n cynnwys ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â ffactorau amgylcheddol.

## Lleihau effeithiau amgylcheddol o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a digidol

Mae offer TGCh y Comisiwn wedi'i wneud o blastigau a ailgylchwyd ac mae eitemau yn cael eu hailddefnyddio yn rheolaidd ymysg gweithwyr hyd nes iddynt ddod i ddiwedd eu hoes neu nad ydynt bellach yn cydweddu gydag anghenion y Comisiwn.

**Rydym wedi gwella ein heffaith ar yr amgylchedd ymhellach drwy:**

- leihau adnoddau sydd wedi'u hargraffu ac a ddarperir i weinyddwyr etholiadau a grwpiau eraill, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth electronig lle bynnag y bo'n bosib
- gweithio hybrid/o bell i leihau ôl-troed carbon
- annog defnyddio fideo a fideogynadledda a thelegynadledda er mwyn osgoi

teithio yn ddianghenraid sy’n creu allyriadau $CO_2$ o ganlyniad i hynny

- gweithredu cyfleuster ailgylchu ym mhob un o’n swyddfeydd.

# Defnyddio ein hadnoddau ariannol yn effeithlon

Ariennir ein hadnoddau gan dair senedd – y Senedd, Senedd y DU a Senedd yr Alban.

Roedd yr adnodd cyfunol a wnaed ar gael i'r Comisiwn ar gyfer 2024/25 yn £45.7m o weithgaredd y pleidleisiwyd drosto. Bu i ni hefyd dderbyn cyllid na phleidleisiwyd ar ei gyfer o £225k er mwyn talu ffioedd Comisiynwyr.

## Manylion ein cyllideb derfynol

| | **Wedi Pleidleisio £m** | **Heb Bleidleisio £m** | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | |
| Adnodd | | | |
| Cyfalaf | 45.7 | 0.3 | 46.0 |
| | 2.2 | 0.0 | 2.2 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Adnodd | 0.1 | 0.0 | 0.0 |
| Cyfalaf | 0.1 | 0.0 | 0.1 |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | | | |
| Adnodd | 45.8 | 0.3 | 46.1 |
| Cyfalaf | 2.3 | 0.0 | 2.3 |
| | | | |
| **Gofyniad arian parod net** | 46.5 | - | 46.5 |

Dangosir y £2.1m o gyllideb Senedd yr Alban a £1.6m o gyllideb y Senedd fel incwm drwy gydol y cyfrifon a'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SoPS). Mae gweddill y gyllideb sydd wedi'i thynnu o'r Senedd a Senedd yr Alban nad yw wedi'i gwario wedi'i chynnwys fel incwm wedi'i ohirio yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Rydym wedi cyflawni ein hamcanion gan ddefnyddio gwerth £40.1m o'n cyllideb y pleidleisiwyd drosti. Roedd hyn allan o'r £48.1m a gymeradwywyd gan Senedd y DU.

Mae'r llun isod yn crynhoi ein perfformiad ariannol ar yr elfen 'wedi pleidleisio drosto' o'n cyllideb.


## Perfformiad ariannol 2024/25

Perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn 2024/25:

- roedd ein costau staff yn cynrychioli 41% o'n gwariant adnoddau, sy'n ostyngiad o 5% ar 2023-24.
- lleihaodd ein gwariant cyfalaf o £0.9m oherwydd ein bod wedi dodrefnu dwy swyddfa newydd yn 2023-24.

## Gwariant cyffredinol

Mae gwariant y Senedd a Senedd yr Alban yn y tabl isod yn is-set o'r gost gyffredinol.




**Tanwariant**

Rydym wedi gwario cyfanswm o £7.3m yn is na'r gyllideb a gymeradwywyd.

Mae £2.5m o'r tanwariant hwn yn berthnasol i'n cronfeydd wrth gefn:

- Roedd £1.3m o'r arian wrth gefn yma ar gyfer costau yn gysylltiedig â gweithgareddau craidd cyffredinol ychwanegol a digwyddiadau ar draws y

Comisiwn. Doedd dim angen cynnal unrhyw ddigwyddiadau mawr ychwanegol, felly ni chafodd hwn ei ddefnyddio.

- Mae £1.2m yn gyfuniad o weithgareddau oedd wedi'u neilltuo na ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn, a arweiniodd at y Comisiwn yn peidio â defnyddio'r arian.

Oherwydd ein bod wedi gohirio rhoi ein hadolygiad Cyflog ar waith, fe wnaethom danwario £0.7m ar gyfer y prosiect hwn.

Roedd angen llai o arian nag a ragwelwyd ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol ac etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon a'r is-etholiadau na ddigwyddodd gan arbed £0.5m pellach.

Achosodd gohiriad wrth recriwtio ar draws y Comisiwn danwariant o £1.6m, yn arbennig oherwydd yr Etholiad Cyffredinol Seneddol a gynhaliwyd yn gynt na'r disgwyl. Mae hyn wedi achosi gohiriadau ymhellach yn y flwyddyn o ganlyniad, gan symud prosesau penodi ymhellach i'r flwyddyn ariannol.

Oherwydd gohirio'r recriwtio, fe wnaethom danwario ar ein gweithgareddau anariannol o £0.6m ar ein gweithgareddau cyfathrebu a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r etholiad.

Mae cyflawni'r prosiect Cyllid Gwleidyddol Ar-lein wedi cael ei ohirio ac wedi arwain at danwariant cyfalaf o £1.1m yn ogystal â thanwariant dibrisio o £1m.

Mae'r £0.2m sy'n weddill yn gyfuniad o wahanol danwariant llai.

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)**

Roedd alldro DEL Adnoddau a bleidleisiwyd drosto ar gyfer y flwyddyn yn £39.7m yn erbyn terfyn a bleidleisiwyd drosto o £45.8m, sef tanwariant o £6.0m. Roedd alldro DEL Cyfalaf a bleidleisiwyd drosto ar gyfer y flwyddyn yn £1.1m yn erbyn terfyn a bleidleisiwyd drosto o £2.2m, gyda thanwariant o £1m.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)**

Mae ein cyllideb AME adnoddau yn cael ei defnyddio yn erbyn unrhyw ddarpariaethau gyda'r gyllideb. Mae'n cynnwys
y rhwymedigaeth bensiwn ar gyfer Cyn-gomisiynwyr penodol Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr, a gellir gweld hyn yn Nodyn 11 yn y cyfrifon.

Mae ein cyllideb AME cyfalaf yn cael ei defnyddio ar gyfer prydlesi adeiladau newydd. Ni chafwyd unrhyw brydlesi newydd yn ystod 2024-25. Gellir canfod y manylion yn ein hadroddiad SOPS a nodyn 11 yn y cyfrifon.

Mae ein hincwm yn y cyfrifon yn berthnasol i daliadau ar gyfer cofrestru pleidiau gwleidyddol. Rydym hefyd yn adrodd ac yn atebol i Bwyllgor y Llywydd yn y Senedd ac i Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban. Mae'r incwm sy'n cael ei gydnabod yn y cyfrifon yn bennaf ar gyfer gwaith gydag etholiadau sydd wedi'u datganoli. Mae'r holl incwm yn cael ei adnabod yn nodyn 4 y cyfrifon.

Rydym yn casglu dirwyon a godwyd yn erbyn pleidiau gwleidyddol ac unigolion am fethu â chydymffurfio gyda'r rheolau ynghylch cyllid plaid ac etholiad ac yna'n ildio'r rhain i'r Gronfa Gyfunol fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Yn ogystal â monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, fe wnaethom hefyd reoli ein terfynau arian parod a osodwyd gan Senedd y DU. Roeddem angen arian parod a oedd yn cyfateb i £41.0m er mwyn ariannu ein gweithgareddau y pleidleisiwyd drostynt, a oedd £5.5m yn llai na'r swm o £46.5m a gymeradwywyd gan Senedd y DU yn ein Hamcangyfrif Atodol. Mae cydgrynhoi alldro'r adnoddau net i'r gofyniad arian parod net, o fewn yr adroddiad atebolrwydd, yn darparu cydgrynhoad o'n halldro i'r arian parod net yr oeddem ei angen yn ystod y flwyddyn. Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos bod y fantolen arian parod ar 31 Mawrth 2025 yn £28k.

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel mae ar 31 Mawrth 2025 yn dangos diffyg ar ecwiti trethdalwyr. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu bodloni drwy ddarpariaeth arian cyflenwi yn y dyfodol.

**Taliadau cyflenwyr**

Rydym yn bwriadu cydymffurfio gyda'r Cod Talu'n Brydlon sy'n gweithredu ar draws y sector gyhoeddus. Y targed yw talu anfonebau diamheuol cyn pen 30 diwrnod. Yn 2024-25, fe wnaethom dalu cyfanswm o 1687 o anfonebau. Cafodd 97% eu talu cyn pen 10 diwrnod, a 100% cyn pen 30 diwrnod.

## Amcangyfrif cyflenwad ar gyfer 2025/26

Mae ein Prif Amcangyfrif Cyflenwi ar gyfer 2025/26 (HC839) yn gofyn swm adnoddau net o £46.1m. Mae hyn yn gynnydd o 48% o 2024/25 oherwydd y cynnydd sy'n deillio o chwyddiant, digwyddiadau'r senedd a gweithgaredd y tynnwyd sylw ato yn y Cynllun Corfforaethol. Mae ein Prif Amcangyfrif wedi'i rannu fel a ganlyn:

| | **Wedi Pleidleisio £m** | **Heb Bleidleisio £m** | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | |
| Adnodd | 45.8 | 0.3 | 46.1 |
| Cyfalaf | 2.1 | 0.0 | 2.1 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Adnodd | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Cyfalaf | 0.1 | 0.0 | 0.1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cyllideb Net**<br>Adnodd<br>Cyfalaf | <br>45.8<br>2.2 | <br>0.3<br>0.0 | <br>46.1<br>2.2 |
| | | | |
| **Gofyniad arian parod net** | 46.6 | - | 46.6 |

Cymeradwywyd yr amcangyfrif hwn gan Bwyllgor y Llefarydd ar 19 Mawrth 2025, ac fe'i cyflwynwyd gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 3 Ebrill 2025. Sefydlwyd y Comisiwn gan ddeddfwriaeth ac yn dilyn egwyddorion yr FReM mae tybiaeth bod darpariaeth barhaus i'r gwasanaeth, nid oes unrhyw beth i awgrymu y bydd gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn yn dod i ben neu ni ddarperir cyllid yn y dyfodol.

# Adroddiad pwerau a sancsiynau

## Y defnydd o’n pwerau a sancsiynau rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025

Byddwn yn annog y rhai rydym yn eu rheoleiddio i gydymffurfio â’r gyfraith drwy ddarparu cefnogaeth ac arweiniad. Fodd bynnag, lle mae’n briodol, rydym yn cymryd camau gweithredu pan nad ydynt yn dilyn y gyfraith.

**Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (2000) (PPERA) yn ein darparu ni gyda phwerau ymchwilio**

### Defnyddio pwerau ymchwilio

Mae gofyn i ni adrodd ar ein defnydd o bwerau archwilio, yn arbennig felly mewn achosion lle:

- rydym wedi rhoi hysbysiad datgeliad neu ymchwiliad
- aed i mewn i eiddo gan ddefnyddio gwarant archwilio drwy ganiatâd Ynad Heddwch
- fe wnaethom gais i lys am orchymyn datgelu.

Nid yw’n ofynnol i ni gynnwys gwybodaeth lle byddai gwneud hynny, neu y gallai hynny, yn ein barn ni, fod yn anghyfreithlon, neu y gallai gael effaith niweidiol ar ymchwiliadau neu achosion presennol.

- Bu i ni roi un hysbysiad ymchwiliad.
- Ni wnaethom roi unrhyw hysbysiadau datgelu.
- Ni wnaethom ddefnyddio ein pwerau i wneud cais am warant ymchwiliad i gael mynediad i eiddo neu wneud cais am unrhyw orchmynion llys ar gyfer datgelu.

### Fe wnaethom gwblhau ymchwiliadau

Cwblhawyd 14 ymchwiliad gennym yn ystod y flwyddyn mewn cymhariaeth â 17 yn y flwyddyn flaenorol.

Rydym yn parhau i ddefnyddio dull rheoleiddiol sy’n gymesur ac yn cynnig cefnogaeth arbenigol i’n cymuned a reoleiddir. Rydym wedi cynyddu ein gwaith partneriaeth gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys yr heddlu a rheoleiddwyr eraill. Rydym hefyd wedi ehangu ein pecyn cymorth rheoleiddio ac wedi ymgymryd â nifer o ymholiadau


cychwynnol, sydd wedi ein galluogi i gael eglurder ynghylch materion ar y cam asesu heb fod angen agor ymchwiliadau.

## Defnyddiwyd sancsiynau sifil

Mae gofyn i ni adrodd ar ein defnydd o sancsiynau sifil, yn arbennig felly mewn achosion lle:

- bu'n rhaid gosod cosb ariannol sefydlog neu ofyniad diamod neu lle bu'n rhaid cyflwyno hysbysiad stop (ac eithrio achosion lle mae'r gosb, y gofyniad neu'r hysbysiad wedi'i wyrdroi yn dilyn apêl)
- cafodd atebolrwydd am gosb ariannol sefydlog ei dalu cyn cael hysbysiad yn ei chyflwyno
- derbyniwyd ymgymeriad gorfodi

Bu i naw ymchwiliad arwain at ystyriaethau o sancsiynau, ac fe wnaethom osod saith cosb ar draws saith achos. Gyda'i gilydd, cafodd £7,450[1] o sancsiynau eu gorfodi.




Mae manylion yr holl gosbau a osodwyd yn ystod 2024/25 ar gael ar ein gwefan.

Ni chafodd unrhyw ymrwymiadau gorfodaeth eu cynnig i ni yn ystod 2024/25. Ni wnaethom gyflwyno unrhyw hysbysiadau stop hyd at ac yn cynnwys 31 Mawrth 2025. Bu i ni, fodd bynnag, gyflwyno un hysbysiad cydymffurfio yn ystod y cyfnod. Ni wnaed unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau i osod sancsiynau sifil.

[1] Mae dwy ddirwy wedi cynyddu gan ddod yn gyfanswm o £850 ac roedd un fforffediad o £503. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys.

# Adroddiad blynyddol Gogledd Iwerddon

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon ganolbwyntio ar gyflawni'r etholiad cyffredinol. Daeth adferiad Senedd Gogledd yr Iwerddon ym mis Chwefror 2024 â sefydlogrwydd gwleidyddol, gan gefnogi i gyflawni'r etholiad yn llwyddiannus. Cyn yr etholiad, fe wnaethom alw am ymgyrch a oedd yn rhydd rhag unrhyw gamdriniaeth gan weithio i fynd i'r afael â phroblemau parhaus o ymgeiswyr yn cael eu bygwth.

Gweithiom yn agos â'r Prif Swyddog Etholiadol, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, pleidleiswyr a'r gymuned etholiadol ehangach er mwyn cefnogi eu paratoadau ar gyfer yr etholiad. Yn dilyn yr etholiad, cyhoeddwyd argymhellion allweddol gennym, gan gynnwys yr angen am fynd i'r afael â cham-drin a bygwth ymgeiswyr ac i adolygu'r system gyfethol a ddefnyddir i lenwi seddi gwag yn y Senedd ac ar gynghorau lleol, sy'n codi pryderon ynghylch tryloywder democrataidd a dewis.

## Gwaith a wnaed i gyflawni ein nodau




Fe wnaethom gefnogi gyda chyflawni etholiad cyffredinol Gorffennaf 2024 yng Ngogledd Iwerddon. Canfu ein hymchwil fod 85% o bleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon yn fodlon gyda'r broses bleidleisio.

Fe wnaethom gynnal ymgyrch cofrestru pleidleiswyr, gan dalu am hysbysebion, a thrwy weithgarwch yn y wasg a chyda phartneriaid.

Gweithiom â Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon (EONI) er mwyn darparu adnodd gwirio ar-lein a oedd yn galluogi i bleidleiswyr wirio eu statws cofrestru a chael eu Rhif Cofrestru Digidol (DRN). Mae'r gostyngiad nodedig mewn ceisiadau a wrthodwyd oherwydd DRNau absennol yn yr etholiad cyffredinol yn awgrymu bod yr adnodd wedi bod yn effeithiol.

Fe wnaethom gefnogi pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr eraill er mwyn deall y rheolau ar wariant ymgyrchu a'r rheolau argraffnod ar ddeunydd print a digidol. Dyma'r etholiad cyntaf yng Ngogledd Iwerddon yn dilyn cyflwyno gofynion argraffnod digidol gan y Ddeddf Etholiadau.

Cyn yr etholiad, fe wnaethom alw am ymgyrch oedd yn rhydd rhag unrhyw gamdriniaeth a bygythiadau. Gweithiom gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth yr Heddlu Gogledd Iwerddon er mwyn cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru i ymgeiswyr.

Mae Cod Ymgyrchwyr newydd, sydd wedi'i ddatblygu ar y cyd gan y Comisiwn ac EONI wedi darparu canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr ynghylch beth sydd, a beth sydd ddim, yn ymddygiad derbyniol mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y gymuned yn y cyfnod yn arwain at ddiwrnod yr etholiad.



Rydym wedi datblygu adnoddau cam-wybodaeth a thwyll-wybodaeth newydd ar gyfer ymgysylltu democrataidd gydag ysgolion a darparwyr dysgu eraill ac fe wnaethom barhau gyda'n gwaith estyn allan ym myd addysg.

Cynhaliwyd yr Wythnos Croeso i'ch Pleidlais ym mis Mawrth 2025, gyda thros 10 o ysgolion, grwpiau ieuenctid a rhanddeiliaid yn cymryd rhan.

Rhoesom dystiolaeth gerbron Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon yn San Steffan ochr yn ochr gyda'r EONI, gan drafod ein prif argymhellion o'n hadroddiad ar yr etholiad cyffredinol.

Ym mis Mawrth 2025, fe wnaethom gwrdd gyda Hilary Benn, Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, er mwyn trafod ein prif argymhellion o'r etholiad cyffredinol.

## Gwaith cyfredol ac yn y dyfodol

Mae Cynllun Corfforaethol newydd y Comisiwn yn amlinellu ein gwaith sy'n cael ei ariannu gan Senedd y DU, sy'n cwmpasu ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys paratoadau ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol y bwriedir eu cynnal ym mis Mai 2027.

Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i bleidleiswyr, pleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr a'r gymuned ehangach a reoleiddir, ac EONI. Yn ogystal â pharatoi ar gyfer y safonau sy'n berthnasol i Ddeddf Hunaniaeth ac Iaith (Gogledd Iwerddon) 2022, mae yna nifer o heriau sy'n benodol i Ogledd Iwerddon yr ydym hefyd yn anelu i fynd i'r afael â hwy.




O leiaf un waith bob 10 mlynedd, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Brif Swyddog Etholiadau Gogledd Iwerddon gynnal canfasiad sy'n gofyn i bawb sy'n gymwys wneud cais i gofrestru i bleidleisio, hyd yn oed os ydynt eisoes wedi cofrestru. Mae'r broses gyfredol yn wynebu heriau sylweddol, yn bennaf oherwydd yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn cysylltu gyda'r holl bleidleiswyr cymwys, hyd yn oed pan nad yw eu manylion wedi newid. Gan weithio gyda EONI, byddwn yn parhau i bwysleisio'r angen am brosesu diwygiadau ymhell cyn y canfasiad gofynnol yn 2030. Rydym yn anelu i wella cywirdeb a pha mor gyflawn yw'r gofrestr etholiadau, sy'n hanfodol i gynnal uniondeb etholiadau yng Ngogledd Iwerddon.

Byddwn yn parhau i weithio gydag EONI er mwyn sicrhau bod y broses DRN yn dderbyniol i bob pleidleisiwr a byddwn yn arwain ymgyrchoedd targedig ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn darparu gwybodaeth i grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru ac nad ydynt yn cael eu cyrraedd ddigon. Byddwn yn parhau i bledio achos dros adolygiad ehangach o'r broses pleidleisio absennol yng Ngogledd Iwerddon.

Yn y pen draw, rydym eisiau sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng prosesau etholiadol yng Ngogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, gyda gwahaniaethau ond yn eu lle am reswm da neu oherwydd amgylchiadau gwleidyddol unigryw Gogledd Iwerddon. Mae yna bethau y gallwn eu dysgu oddi wrth brosesau ar y ddwy ochr i Fôr Iwerddon, ond ein nod yw sicrhau bod pob pleidleisiwr cymwys yn gallu cymryd rhan mewn etholiadau waeth beth fo'r lleoliad.

# Adroddiad blynyddol Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'n gwaith ar faterion datganoledig yng Nghymru ac yn edrych ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cynnwys crynodeb o wybodaeth gyllidebol o fewn yr adroddiad perfformiad. Mae hwn yn adrodd ar y prif bwyntiau o'r datganiadau ariannol, lle mae rhagor o fanylion ar gael.

Mae PPERA yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn ddarparu adroddiad blynyddol ar ffwythiannau perfformiad sy'n gysylltiedig ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynnwys yn yr adran hon. Mae gweithgarwch a gedwir yng Nghymru, sy'n berthnasol i etholiadau cyffredinol ac etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, wedi'i gynnwys o fewn prif gorff yr adroddiad hwn.




Roedd y diwygiadau a wnaed i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan Ddeddf Cymru 2017, yn trosglwyddo cyfrifoldeb am etholiadau a refferenda datganoledig Cymru o Senedd y DU i'r Senedd. Mae Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn amlinellu'r trefniadau ariannu ac atebolrwydd ar gyfer gweithgareddau datganoledig y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru. Mae gennym gyfrifoldeb statudol i ddarparu adroddiad i'r Senedd ar faterion datganoledig.

## Gwaith a wnaed i gyflawni ein nodau

Fe wnaethom gefnogi Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn llwyddiannus wrth iddo drawsnewid i'r bwrdd newydd statudol sef Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2025.

Aethom ati i adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd eisoes gyda sefydliadau partner, pobl ifanc ac addysgwyr ar hyd a lled Cymru. Gweithiom yn agos gyda'n partner llais ieuenctid drwy gydol y flwyddyn ac yn arbennig felly mewn perthynas ag "Wythnos Croeso i dy Bleidlais" ym mis Mawrth 2025.

Lansiwyd prosiect partneriaeth newydd gyda TPAS (Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid) Cymru er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system ddemocrataidd ymysg preswylwyr cymdeithasau tai yng Nghymru.

Sefydlwyd partneriaeth strategol gennym gyda Chomisiwn y Senedd ar ein hymgyrchoedd a'n gwaith addysg ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026 er mwyn sicrhau cysondeb o ran ein hagwedd a'n negeseuon.

**Cynhaliwyd Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2025 gennym – "Bod yn wybodus a chymryd rhan"**

Gweithiom yn agos gyda'n partner llais ieuenctid, sef Plant yng Nghymru, drwy gydol flwyddyn er mwyn cyflawni ystod o fentrau cyn Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2025, ac yn ystod yr wythnos.

Fe wnaethom hwyluso gweithdy ar gam-wybodaeth a thwyll-wybodaeth ar gyfer cwrs preswyl blynyddol Plant yng Nghymru yn y Bala, Gwynedd, lle'r oedd y sgwrs yn canolbwyntio ar y cyfryngau cymdeithasol, deallusrwydd artiffisial, sut i ddod o hyd i ffynonellau o wybodaeth y gellir ymddiried ynddynt, a sut i atal cam-wybodaeth a thwyll-wybodaeth rhag lledaenu. Mynychwyd y digwyddiad gan 61 o bobl ifanc ac roedd yr adborth a dderbyniwyd yn eithriadol o gadarnhaol.




*"Roedd y menywod o'r Comisiwn Etholiadol yn wych! Roedd yn awr grêt, yn llawn gwybodaeth, yn gyfredol ac fe wnes i ddysgu rhywbeth newydd hyd yn oed. Byddaf yn rhagweithiol wrth wirio ffynhonnell fy ngwybodaeth o hyn ymlaen"* - Aelod Senedd Ieuenctid Conwy

Aeth ein rhwydwaith llais ieuenctid ati i ddylunio a chreu murluniau celf i ddathlu'r wythnos. Bydd y murluniau hyn, gyda'r slogan trawiadol 'Fy Llais / Fy Mhleidlais', a fydd yn cael ei ddefnyddio gydol y flwyddyn sydd i ddod i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth.

Fe wnaeth aelodau o'r rhwydwaith llais ieuenctid hefyd gynhyrchu podlediad dwyieithog am yr wythnos, (ar gael ar Spotify) a oedd wedi'i ysgrifennu, ei ffilmio a'i olygu gan y bobl




ifanc yn ymwneud â'r testun cam-wybodaeth/twyll-wybodaeth. Cynhaliwyd digwyddiad gennym a gafodd ei fynychu gan bartneriaid allweddol ac Aelodau o'r Senedd, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet Jayne Bryant AS, lle'r oedd mynychwyr yn siarad yn agored am eu canfyddiadau yn ein Lleisiau Ifanc ar Ddemocratiaeth.

**Gweithiom er mwyn cefnogi diwygio etholiadol yng Nghymru**

Parhaom i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r gymuned etholiadol ehangach yng Nghymru ar ddylunio a chyflawni diwygiadau cyn etholiadau Senedd 2026 ac etholiadau llywodraeth leol 2027.

Aethom ati i ddarparu adborth i swyddogion Llywodraeth Cymru ar gynnwys ac ymarferoldeb fersiwn ddrafft Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025, a fydd y prif ddarn o ddeddfwriaeth eilradd sy'n amlinellu sut fydd etholiad Senedd 2026 yn gweithio yn ymarferol.

*"Hoffwn ddiolch i chi am waith ymgysylltu'r Comisiwn Etholiadol drwy gydol ystyriaeth gychwynnol fersiwn ddrafft Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) rhwng Gorffennaf a Hydref 2024. Mae hyn wedi bod yn hanfodol wrth ein cefnogi ni i baratoi Gorchymyn drafft gwybodus ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol." - Dirprwy Gyfarwyddwr Etholiadau Llywodraeth Cymru*

Darparwyd cyngor a chefnogaeth gennym i Lywodraeth Cymru a rhoddwyd tystiolaeth i Bwyllgorau'r Senedd (Pwyllgor Biliau Diwygio a Phwyllgor Llywodraeth Leol a Thai), wrth i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 a Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 fynd drwy'r Senedd. Roedd hyn yn sicrhau y byddai unrhyw gynigion yn gweithio i bleidleiswyr ac y gellid eu darparu.

Fe wnaethom fwydo i mewn i ddatblygiad Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) cyn iddo gael ei dynnu'n ôl ym mis Medi 2024 a gwaith Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd ar atebolrwydd aelodau unigol.

**Gweithiom i gryfhau prosesau ac eiddo'r Comisiwn**

Cymerwyd camau sylweddol gennym er mwyn gwella ein prosesau ariannol mewnol gyda chyfrifyddu, cyllidebu a monitro, yn ogystal ag ehangu ein tîm caffael a gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol.

Ar draws y Comisiwn, fe wnaethom barhau i gryfhau ein mesurau seiberddiogelwch a buddsoddi mewn TG.

Fe wnaethom gwblhau ein proses o symud i adeilad swyddfa newydd yn Nhŷ James William, Plas yr Amgueddfa, Caerdydd wedi i'n prydles ddod i ben yn Nhŷ'r Cwmnïau. Mae'r adeilad newydd yn darparu potensial ar gyfer tyfu yn y dyfodol o safbwynt tîm Cymru ac ar gyfer staff eraill y Comisiwn Etholiadol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae hefyd yn ein galluogi ni i gynnal cyfarfodydd grwpiau megis Panel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd a gweithio gyda'n gilydd fel tîm llawn neu gydweithredu gyda chydweithwyr o fewn y Comisiwn. Mae'r swyddfa hon yn welliant sylweddol ar ein hadeilad, a chan roi ystyriaeth i hygyrchedd, mae'n cynnwys mynediad cadair olwyn, desgiau o sefyll i eistedd ac arwynebeddau cegin sy'n cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

## Gwaith parhaus a'r dyfodol

Yn ystod yr etholiad cyffredinol, fe welsom lefelau uwch na'r arfer o gam-drin a bygwth y rhai a oedd yn cymryd rhan yn yr etholiad. Mewn ymateb i hyn, fe wnaethom gwrdd gyda lluoedd yr heddlu yng Nghymru er mwyn trafod materion a oedd yn codi yn ystod yr ymgyrch etholiadol.

Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i gefnogi'r heddlu i ddatblygu cyfres o gyfathrebiadau y gall lluoedd yr heddlu ar hyd a lled Cymru eu defnyddio cyn unrhyw etholiadau yn y dyfodol, mewn ymgais i atal pobl rhag ymddwyn yn ddifrïol tuag at y rhai sy'n cymryd rhan mewn etholiadau. Mae'r gwaith hwn yn barhaus a bydd yn parhau cyn etholiadau'r Senedd yn 2026.

Edrychwn ymlaen at gynorthwyo a chefnogi'r Bwrdd Rheoli Etholaethol dros Gymru a byddwn yn defnyddio'r fforwm statudol newydd hwn i helpu Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddarparu gwasanaeth cyson sydd o safon uchel ar gyfer pleidleiswyr a rhai sy'n sefyll etholiad. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda gweinyddwyr etholiadau ar hyd a lled Cymru er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u hanghenion yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn ein gwaith.

Yn 2025, fel rhan o raglen Llywodraeth Cymru i foderneiddio etholiadau, bydd cyfres o gynlluniau cofrestru peilot yn digwydd mewn pedair ardal ar draws Cymru. Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a gymerodd ran er mwyn paratoi ar gyfer y cynlluniau peilot, ac ym mis Medi byddwn yn dechrau gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau peilot cyn cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Ionawr 2026.

Bydd newidiadau deddfwriaethol newydd i reolau'r etholiad ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026 yn dod i rym yr haf hwn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn canllawiau ar gyfer gweinyddwyr etholiadau a chymunedau a reoleiddir fel ei gilydd, y byddwn yn eu cyhoeddi a'u hyrwyddo yn ystod tymor yr hydref 2025.

## Ymrwymiad i Safonau'r Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i'n dyletswyddau statudol o drin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ein gwaith a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u nodir gan Gomisiynydd y Gymraeg.


Er mwyn ein galluogi i barhau i fodloni Safonau'r Gymraeg yng Nghymru, dros gyfnod o flwyddyn, rydym wedi cryfhau ein gwasanaeth cyfieithu. Rydym wedi cynyddu ein darpariaeth cyfieithu Cymraeg mewnol drwy recriwtio dau aelod newydd o staff; wedi cyflwyno system wedi'i hawtomateiddio ar gyfer gwneud cais am gyfieithu gan arwain at fod yn fwy cynhyrchiol; wedi penodi cwmni cyfieithu allanol newydd i gyfieithu gwaith pan fydd ein tîm mewnol wedi cyrraedd capasiti llawn; ac wedi darparu sesiynau hyfforddi i staff y Comisiwn er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

## Manylion

Yn ystod 2024-25 fe wnaethom wario 99.2% o'r gyllideb o £1.6m a oedd ar gael. Roedd hyn yn bennaf ar gyfer staffio (56%), ac mae'r symiau sy'n weddill yn cynrychioli cyfraniad y Senedd at weithgareddau cyffredin a gorbenion corfforaethol.

Mae ein hadroddiad ar dudalen 142 yn dangos y gwahaniaeth rhwng costau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Cronfeydd Adnoddau (£000au)




## Llywodraethu

Mae'r Comisiwn yn adrodd i Bwyllgor y Llywydd at ddibenion atebolrwydd.

Ym mis Medi 2024, fe wnaethom gyflwyno ein hamcangyfrif ar gyfer ariannu ein gwaith yn y flwyddyn 2024/25 i Bwyllgor y Llywydd. Ym mis Ionawr 2025, aethom ati i gwrdd gyda'r pwyllgor am drafodaeth ddefnyddiol iawn ynghylch Cynllun Corfforaethol y DU a'n rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

# Adroddiad blynyddol yr Alban

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'n gwaith ar faterion datganoledig yn yr Alban ac yn edrych ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cynnwys crynodeb o wybodaeth gyllidebol o fewn yr adroddiad perfformiad. Mae hwn yn adrodd ar y prif bwyntiau o'r datganiadau ariannol, lle mae rhagor o fanylion ar gael.

Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn uniongyrchol atebol i Senedd Cymru, Senedd y DU a Senedd yr Alban.




Mae Deddf Etholiadau'r Alban (Diwygio) 2020 yn amlinellu'r trefniadau ariannu ac atebolrwydd ar gyfer gweithgareddau datganoledig y Comisiwn Etholiadol yn yr Alban.

## Gwaith a wnaed i gyflawni ein nodau

### Gweithiom er mwyn cefnogi diwygio etholiadol yn yr Alban

Cynghori ac ymgysylltu gyda rhaglen Llywodraeth yr Alban o ddiwygio etholiadol a datblygu deddfwriaeth eilradd ddilynol, tynnu ar ein gwaith polisi, ein gwaith ymchwil eang gyda phleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadau ac ymgyrchwyr, gan ystyried y peryglon ehangach i gyflawni, tanlinellu materion ynghylch gwahaniaeth ac amlinellu amserlenni ar gyfer datblygu codau a chanllawiau sy'n deillio o'r diwygio.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar etholiad cyffredinol 2024, a oedd yn seiliedig ar gyfres lawn o ddata a thystiolaeth gan bleidleiswyr, ymgeiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadau yn yr Alban. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion ar gyfer gwelliannau ehangach i etholiadau, gan danlinellu effaith yr amseru yn ystod gwyliau'r haf yn yr Alban, a oedd yn ei gwneud hi'n fwy anodd i rai pobl bleidleisio, ac fe roddodd pwysau ychwanegol ar weinyddwyr etholiadau. Nid oedd systemau pleidlais bost yn gweithio'n ddigon da i rai pleidleiswyr.

Roeddem hefyd yn argymell gweithio gydag awdurdodau lleol, y cyfryngau a sefydliadau cymdeithas sifil er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r mesurau hygyrchedd newydd mewn gorsafoedd pleidleisio; gan sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu ymgyrchu mewn amgylchedd sy'n rhydd rhag difrïo a bygylu; a gweithio gyda llywodraethau'r DU a'r gymuned etholiadol ehangach er mwyn sicrhau bod gan weinyddwyr ddigon o amser,

capasiti ac adnoddau er mwyn parhau i ddarparu etholiadau sy'n cael eu rhedeg yn dda.

**Rydym yn parhau i fonitro a chefnogi gweinyddwyr etholiadau, ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau dan y gyfraith etholiadol**

Gweithiom gyda'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn yr Alban er mwyn darparu arweiniad a chyngor i weinyddwyr etholiadau i'w cefnogi wrth baratoi ar gyfer darparu etholiadau.

Darparwyd cefnogaeth wedi'i thargedu gennym i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn ystod yr etholiad cyffredinol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu deall y rheolau, a chydymffurfio â nhw. Roedd hyn yn cynnwys cyngor yn ystod y cyfnod ymgyrchu, ac ar ffurflenni gwariant. Fe wnaethom barhau i ymgysylltu gyda phleidiau llai yn yr Alban ac ymgeiswyr annibynnol er mwyn eu helpu i gydymffurfio â'r rheolau. Mae hyn yn cynnwys cyngor ac arweiniad wedi'u teilwra ar gyfer anghenion yr Alban, cyhoeddi manylion rhoddion, benthyciadau a chyfrifon y blaid yn flynyddol, a monitro gorfodi cydymffurfiaeth gyda'r gyfraith cyllid gwleidyddol.

Aethom ati i ddarparu sesiwn hyfforddiant ar gyfer heddweision Police Scotland er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer diwrnod yr etholiad a deall eu rôl o ran gorfodi rheolau a nodwyd dan yr RPA.





Fe wnaethom arsylwi, casglu a nodi adborth a phrofiadau yn dilyn yr etholiad cyffredinol, er mwyn iddo fod yn sail i wersi a ddysgwyd wrth symud ymlaen a chynllunio ar gyfer etholiadau mawr sydd ar ddod yn yr Alban.

**Rydym wedi parhau i ehangu ein rhaglen o waith ymgysylltu democrataidd yn yr Alban**

Rydym wedi adeiladu ar lwyddiant ein gwaith yn hyrwyddo addysg ddemocrataidd drwy ddarparu adnoddau dysgu i athrawon a gweithwyr ieuenctid.

Roedd ein hymgyrch Wythnos Croeso i Dy Bleidlais a gynhaliwyd gennym ym mis Mawrth 2025 yn galw am i bobl ifanc gael “Bod yn wybodus a chymryd rhan”.




Bu i’n hymgyrch gyrraedd dros 140 o ysgolion, mudiadau ieuenctid, sefydliadau cymdeithas sifil a gweinyddwyr etholiadau. Aethom ati i greu adnoddau a oedd yn canolbwyntio ar gam-wybodaeth a thwyll-wybodaeth er mwyn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu’r wybodaeth a’r hyder maent eu hangen ar gyfer bwrw eu pleidlais a chymryd rhan. Fe wnaethom gydweithio gyda’n partner rhwydwaith llais ieuenctid, Children in Scotland, er mwyn cynnal digwyddiadau a oedd yn dathlu thema’r wythnos.

Datblygom ein dull a’n cynlluniau er mwyn adnabod a phrofi strategaethau ar gyfer gwella dealltwriaeth y pleidleisiwr o’r system bleidleisio trosglwyddo pleidlais unigol, ar draws amrywiaeth o ganllawiau, adnoddau, cyfathrebiadau a ffrydiau ymgysylltu, ar y cyd â rhanddeiliaid, gyda'r nod o ostwng y lefel o bapurau pleidleisio a oedd yn cael eu gwrthod yn etholiadau cyngor yr Alban.

## Gwaith cyfredol ac yn y dyfodol

**Prif ffocws gwaith y Comisiwn yn yr Alban dros y flwyddyn sydd i ddod fydd etholiad Senedd yr Alban yn 2026**

Byddwn yn sicrhau bod newidiadau i Ddeddf Etholiadau’r Alban (Cynrychiolaeth a Diwygio) yn cael eu gweinyddu, eu rheoleiddio a’u cyflwyno’n effeithlon. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod pawb ynghlwm yn eu deall, gan gynnwys pleidleiswyr, pleidiau, ymgeiswyr, asiantau a gweinyddwyr.

Byddwn yn darparu cyngor arbenigol i Lywodraeth a Senedd yr Alban wrth i’r Llywodraeth symud ymlaen gyda’i hymrwymiad i ymgynghori ar ddiwygiadau etholiadol pellach. Byddwn hefyd yn darparu cefnogaeth a chyngor technegol i Senedd yr Alban wrth iddynt ystyried Bil (Adalw a Diddymu Aelodau) Senedd yr Alban.

Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban er mwyn cefnogi Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestriadau Etholiadol er mwyn eu helpu i fodloni’r heriau maent yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau etholiadol sy’n cael eu rhedeg yn dda ac sy’n parhau i fodloni anghenion pleidleiswyr. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i ystyried, gwella a rhoi hygyrchedd ar waith ar daith y pleidleisiwr, cyfathrebu newidiadau

drwy ddiwygiadau etholiadol ynghylch darpariaeth a phroses, a rheoli a lliniaru risgiau y tynnwyd sylw atynt mewn etholiadau blaenorol er mwyn sicrhau darparu etholiadau'n llwyddiannus yn y dyfodol.

**Rydym wedi parhau i ehangu ein rhaglen o waith ymgysylltu democrataidd yn yr Alban**




Byddwn yn cynllunio ar gyfer ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gyfer etholiad Senedd yr Alban gan gynnwys hysbysebu ar deledu a radio a hysbysebu digidol er mwyn cefnogi'r cyhoedd i gofrestru a phleidleisio.

Byddwn yn canolbwyntio ar arwain y gwaith o ddatblygu casgliad o ddeunyddiau ymwybyddiaeth y cyhoedd ar sut i gofrestru a phleidleisio.

Byddwn yn gweithio gyda'r gymdeithas sifil i gefnogi ein hymgyrchoedd a datblygu prosiectau partneriaeth newydd sy'n cynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth a chyfranogiad yn y system ddemocrataidd ymysg grwpiau sydd wedi tan-gofrestru yn yr Alban a rhai sy'n profi rhwystrau penodol rhag cyfranogiad democrataidd.

Gan weithio mewn partneriaeth ag Education Scotland ac eraill, byddwn yn parhau i ddatblygu ein hadnoddau addysg democrataidd ar gyfer athrawon a dysgwyr yn yr Alban cyn yr etholiad yn 2026, gan adlewyrchu'r newidiadau yn y system – bydd hyn yn cynnwys datblygu ein cynnig hyfforddiant ymhellach er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus athrawon.




*Enghraifft o sleid o'r adnoddau addysg*

Rydym yn adolygu deunyddiau i bleidleiswyr a chyngor a ddarperir i bleidleiswyr o'r Alban ynghylch y system bleidlais drosglwyddadwy sengl cyn yr etholiadau cyngor nesaf yn 2027 er mwyn sicrhau ei bod yn eglur ac yn hawdd i bleidleiswyr ei deall.

**Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu wrth sefyll etholiad**

Byddwn yn cefnogi pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, asiantau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn ymwneud â phleidiau er mwyn deall y rheolau sy'n gymwys cyn etholiad Senedd yr Alban yn 2026.

Byddwn yn cynnig cefnogaeth neu eglurder mewn perthynas â'r rheolau drwy ein llinell gyngor, a byddwn yn darparu cyfres o weminarau rhanddeiliaid ar gyfer pleidiau ac ymgeiswyr.


## Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn parhau i arwain, cynghori, herio a monitro cynlluniau ac agweddau Swyddogion Canlyniadau a Chofrestriadau Etholaethol ar gyfer hygyrchedd ac ymgysylltu drwy ein fframwaith safonau monitro a pherfformiad cyn yr etholiadau sydd i ddod. Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr o'r gymuned etholiadol drwy is-grŵp Gwella Hygyrchedd EMB er mwyn parhau i ddatblygu a rhoi gwelliannau hygyrchedd ar waith yn y broses etholiadol ar gyfer pobl sy'n profi rhwystrau rhag cymryd rhan mewn etholiadau.

### Manylion

Yn ystod 2024-25, fe wnaethom wario 99.7% o'r gyllideb o £2.17m a oedd ar gael. Roedd hyn yn bennaf ar gyfer staffio (52.7%), ac mae'r symiau sy'n weddill yn cynrychioli cyfraniad Senedd yr Alban at weithgareddau cyffredin a gorbenion corfforaethol.


Mae ein hadroddiad ar dudalen 158 yn dangos y gwahaniaeth rhwng costau uniongyrchol ac anuniongyrchol.




### Llywodraethu

Mae'r Comisiwn yn adrodd i Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban (SPCB) at ddibenion atebolrwydd. Byddwn yn parhau i adrodd ar bwyllgorau eraill ar gyfer ein gwaith mewn gwahanol feysydd polisi, yn fwyaf arbennig, y Pwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus.

Ym mis Medi 2024, fe wnaethom gyflwyno ein hamcangyfrif ar gyfer ariannu ein gwaith yn y flwyddyn 2024/25 i SPCB.  Ym mis Chwefror 2025, aethom ati i gwrdd â Chorff Corfforaethol Senedd yr Alban am drafodaeth ddefnyddiol iawn ynghylch Cynllun Corfforaethol y DU a'n rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.



**Vijay Rangarajan**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**17 Gorffennaf 2025**

# Adroddiad atebolrwydd



# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y cyfarwyddwyr

Mae Bwrdd y Comisiwn yn cynnwys 10 Comisiynydd a benodwyd drwy Warant Frenhinol i weithredu ein ffwythiannau fel y'u disgrifir yn PPERA. Mae'r Bwrdd yn penodi'r Prif Weithredwr er mwyn arwain a rheoli ein sefydliad ac mae'r Prif Weithredwr yn penodi tîm arwain yn cynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae manylion y Comisiynwyr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi'u hamlinellu yn y datganiad llywodraethu.

### Cofrestr buddiannau

Mae'n rhaid i gomisiynwyr a chyfarwyddwyr gwblhau datganiad buddiannau nad oeddent yn dal unrhyw swydd cyfarwyddwr o bwys mewn cwmni neu unrhyw fuddiannau eraill a allai fod wedi gwrthdaro gyda'u cyfrifoldebau. Nid oedd gan unrhyw Gomisiynydd neu gyfarwyddwr unrhyw fuddiannau cysylltiedig eraill. Rydym yn diweddaru'r gofrestr buddiannau yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac yn ei chyhoeddi ar ein gwefan.

### Busnes gweithredol

Cafodd ein Prif Amcangyfrif ei gymeradwyo ar gyfer yr adnoddau rydym eu hangen yn 2025/26. Fel corff a sefydlwyd drwy ddeddfwriaeth ac yn dilyn egwyddorion yr FReM mae lle i dybio bod darpariaeth y gwasanaeth yn parhau, nid oes unrhyw beth i awgrymu y bydd gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn yn dod i ben neu ni ddarperir cyllid yn y dyfodol.

### Archwilwyr

Caiff y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol eu penodi fel ein harchwiliwr allanol dan Atodlen 1 PPERA. Ein harchwilwyr mewnol cyfredol yw BDO LLP ers 1 Ebrill 2024. Mae manylion llawn y cyflogau ar gyfer gwaith archwilio a gwaith sydd heb fod yn archwilio i'w gweld yn y datganiadau ariannol.

### Datgeliadau eraill

Mae rhai datgeliadau sy'n ofynnol yn adroddiad y cyfarwyddwyr wedi cael eu cynnwys yn rhywle arall yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Rydym wedi adrodd ar ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol yn y datganiad llywodraethu. Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cyflogau.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau sylweddol sy'n effeithio arnom ni wedi digwydd ers y diwrnod adrodd, ac rydym wedi datgelu rhagor o ddatblygiadau yn y dyfodol syn effeithio arnom ni yn adran 'Defnyddio ein hadnoddau ariannol yn effeithlon' yn yr Adroddiad Perfformiad.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan PPERA, mae'n ofynnol i mi baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan fanylu ar yr adnoddau a gafwyd, a ddalwyd, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gennym ni yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail groniadol ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr materion y sefydliad a'i alldro adnoddau net, newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a baratowyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi, ac yn arbennig er mwyn:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu yn gyson
- sefydlu barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi a yw safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u hamlinellir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, wedi eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriad ymarferol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Yn unol â pharagraff 19(1) Atodlen 1 PPERA, mae Pwyllgor y Llefarydd wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn Etholiadol, gyda chyfrifoldeb am baratoi'r cyfrifon a'u trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu – gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdanynt, ar gyfer cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Comisiwn Etholiadaol – wedi'u hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau, cyn belled ag y mae'n ymwybodol:

- nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni
- maent wedi cymryd yr holl gamau y dylai eu cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno

Gan hynny, rwy’n cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon a’r barnau sydd eu hangen ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Datgelu gwybodaeth i’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Mae’r Swyddog Cyfrifyddu, a oedd yn dal y swydd hyd at ddyddiad cymeradwyo’r adroddiad hwn, yn cadarnhau, cyn belled ag y mae’r cyfarwyddwyr yn ymwybodol:

- nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw’r archwilwyr allanol yn ymwybodol ohoni
- bod pob cyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau gofynnol er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr allanol yn ymwybodol o’r wybodaeth honno




# Datganiad Llywodraethu

Cafodd y Comisiwn Etholiadol ei sefydlu dan PPERA. Yn unol ag Atodlen 1(19) PPERA, mae Pwyllgor y Llefarydd wedi fy mhenodi i fel Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn Etholiadol. Mae fy nghyfrifoldebau yn y rôl hon wedi'u hamlinellu ar wahân dan y cyfrifoldebau a nodir yn Natganiad y Swyddog Cyfrifyddu. Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cael sicrwydd bod y fframweithiau, yr amgylchedd rheoli, y prosesau a'r craffu a amlinellir yn y datganiad hwn wedi bod yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn ariannol ar sail adolygu dogfennau, trafodaethau gyda'r Comisiynwyr, ymgynghorydd annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a staff a chyfarfodydd gydag archwilwyr mewnol ac allanol a rhanddeiliaid allanol eraill.

Mae aelodau o'r Bwrdd yn anweithredol ac mae'n ofynnol iddynt adrodd ar bob gwrthdaro buddiannau posib. Cwblheir datganiad blynyddol ar blaid berthnasol gan bob aelod. Gallaf gadarnhau bod yr holl ffurflenni wedi cael eu hadolygu a does dim gwrthdaro buddiannau.

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi ac mae'n darparu crynodeb o'r gweithdrefnau, y prosesau a'r strwythurau cefnogi sy'n cael eu cynnal er mwyn rheoli ac ymdrin â'r adnoddau sydd ar gael i mi drwy Senedd y DU yn effeithiol.

Mae'r Comisiwn hefyd yn uniongyrchol atebol i'r Senedd a Senedd yr Alban mewn perthynas â rhoi ei swyddogaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban ar waith, yn dilyn diwygiadau i PPEPRA gan Ddeddf Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Etholiadau'r Alban (Diwygio) 2020. Mae Corff Corfforaethol Senedd yr Alban (SPCB) a Phwyllgor Llywydd y Senedd yn craffu ar y Comisiwn.




Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol i Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban (SPCB) a Phwyllgor Llywydd y Senedd yn yr un modd ag yr wyf yn atebol i Bwyllgor y Llefarydd.


Dan bwerau Deddf Etholiadau 2022, mae gan Bwyllgor y Llefarydd rôl yn archwilio perfformiad y Comisiwn o ran rhoi ystyriaeth briodol i'r Strategaeth a'r Datganiad Polisi.

# Atebolrwydd i seneddau'r DU a'n fframwaith llywodraethu mewnol

Mae etholiadau'r Deyrnas Unedig yn cael eu cyflawni drwy gymysgedd o bwerau datganoledig a phwerau a gedwir. Cedwir etholiadau ar gyfer Senedd y DU, llywodraeth leol Lloegr, a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (yng Nghymru a Lloegr), a Senedd Gogledd Iwerddon ac etholiadau lleol i Senedd y DU. Mae cyfrifoldeb dros etholiadau seneddol a lleol yng Nghymru a'r Alban yn faterion datganoledig ar gyfer y naill senedd a'r llall.

Ers 2022/23, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi bod yn atebol i bob senedd am ein gwaith ar etholiadau dan eu pwerau. Rydym yn cael ein hariannu gan bob senedd am y gwaith yr ymgymerir ag ef ar etholiadau perthnasol sydd â chostau cyffredin, gan gynnwys gwaith a rennir a chostau corfforaethol a rennir yn ôl y boblogaeth.

Mae'r diagram isod yn dangos sut wnaeth dirprwyo ac atebolrwydd weithio o fewn y sefydliad yn ystod 2024/25.




## Pwyllgor y Llywydd

Sefydlir Pwyllgor y Llywydd dan Adran 2(1) PPERA er mwyn gweithredu'r swyddogaethau y trosglwyddwyd iddo gan PPERA. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys:

- archwilio ein hamcangyfrifon blynyddol ar gyfer adnoddau a'u cyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin, gydag addasiadau neu hebddynt
- archwilio ein cynlluniau pum mlynedd a'u cyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin, gydag addasiadau neu hebddynt
- derbyn ein cyfrifon
- penodi ein Swyddog Cyfrifyddu
- adrodd i Dŷ'r Cyffredin, o leiaf un waith y flwyddyn, ar sut rydym wedi rhoi ein swyddogaethau ar waith

**Aelodau o Bwyllgor y Llefarydd**

| |
|---|
| Y Gwir Anrh. Syr Lindsay Hoyle AS, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin (Cadeirydd) |
| Rushanara Ali AS, Seneddol dan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| Florence Eshalomi AS (Llafur) |
| Stephen Gethins AS (SNP) |
| Simon Hoare AS (Ceidwadol) |
| Rachel Hopkins AS (Llafur) |
| Jim McMahon AS, Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Datganoli yn Lloegr |
| Y Gwir Anrh. Angela Rayner AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| Lisa Smart AS (Rhyddfrydwyr Democrataidd) |

| |
|---|
| Mr Clive Betts AS (Llafur) (hyd fis Mai 2024) |
| Kirsty Blackman AS (SNP) (hyd fis Mai 2024) |
| Felicity Buchan, Seneddol dan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (hyd fis Mai 2024) |
| Y Gwir Anrh. Michael Gove, Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (hyd fis Mai 2024) |
| Craig Mackinlay (Ceidwadwyr) (hyd fis Mai 2024) |
| Cat Smith AS (Llafur) (hyd fis Mai 2024) |

Mae'r pum aelod a benodwyd yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin nad ydynt yn Weinidogion. Llefarydd Tŷ'r Cyffredin sy'n wneud y penodiadau hyn. Clerc Pwyllgor y Llefarydd yw Kevin Candy. Cytunodd Pwyllgor y Llefarydd y cafodd ein Hamcangyfrif Cyflenwi (HC839) ei gyflwyno gerbron Senedd y DU ar 03 Ebrill 2025.

## Pwyllgor y Llywydd

Mae Pwyllgor y Llywydd yn rhyddhau swyddogaethau tebyg mewn perthynas â'n hatebolrwydd ariannol i'r Senedd fel ag y mae Pwyllgor y Llefarydd yn ei wneud i Senedd y DU. Cytunodd y pwyllgor i'n hamcangyfrif ar gyfer 2024/25 ym mis Tachwedd 2024.

**Aelodau o Bwyllgor y Llywydd**

- David Rees AS, Dirprwy Lywydd a Chadeirydd
- Janet Finch-Saunders AS, (Ceidwadwyr Cymreig)
- Llyr Gruffydd AS (Plaid Cymru)
- Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid)
- Joyce Watson AS (Llafur Cymru)

## Corff Corfforaethol Senedd yr Alban

Mae Corff Corfforaethol Senedd yr Alban yn goruchwylio gweithrediad Senedd yr Alban ac yn darparu cefnogaeth i ASAau i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau seneddol. Mae hefyd yn ariannu nifer fach o gomisiynwyr seneddol a chyrff cysylltiedig, gan gynnwys gweithgareddau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yr Alban. Cytunodd y Pwyllgor ar ein hamcangyfrif cyflenwi ar gyfer 2024-25 ar 1 Mawrth 2024.

**Aelodau o Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban**

- Y Gwir Anrh. Alison Johnstone, Llywydd (Cadeirydd)
- Claire Baker ASA (Llafur yr Alban)
- Jackson Carlaw ASA (Ceidwadwyr a Phlaid Undebol yr Alban)
- Maggie Chapman ASA (Plaid Werdd yr Alban)
- Christine Grahame ASA (Plaid Genedlaethol yr Alban)

# Bwrdd y Comisiwn a thîm arweinyddiaeth

## Bwrdd y Comisiwn

Mae Bwrdd y Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried ein cyfeiriad strategol a'n hamcanion ac i adolygu ein perfformiad. Mae holl aelodau ein Tîm Gweithredol a staff perthnasol eraill yn mynychu cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

Mae Ei Fawrhydi y Brenin yn penodi ein Cadeirydd a Chomisiynwyr ar argymhelliad Tŷ'r Cyffredin. Yn ôl traddodiad, mae Ei Fawrhydi fel arfer yn penodi Comisiynwyr dros gyfnod sydd heb fynd y tu hwnt i bedair blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o ailbenodi.

Ni phenodwyd unrhyw Gomisiynwyr newydd.

Ym mis Mawrth 2025, cafodd y Fonesig Elan Closs Stephens, yr oedd ei thymor i fod i ddod i ben ar 25 Mawrth 2025, ei hailbenodi gan Bwyllgor y Llefarydd am ddwy flynedd arall hyd at fis Mawrth 2027.

Mae John Pullinger CB wedi bod yn Gadeirydd y Bwrdd ers ei benodi ar 1 Mai 2021, gan weithio dau ddiwrnod yr wythnos i'r Comisiwn. Ym mis Ebrill 2025, cafodd ei ailbenodi gan Bwyllgor y Llefarydd am bedair blynedd arall hyd at fis Ebrill 2029.

Mae'r Comisiynwyr yn treulio tri diwrnod y mis ar gyfartaledd yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r tabl isod yn dangos y comisiynwyr wnaeth wasanaethu yn ystod y flwyddyn, gyda'u tymor yn y swydd yn cael ei ddynodi. Bydd Pwyllgor y Llefarydd yn ystyried ailbenodi neu recriwtio i rolau'r Comisiynydd cyn i unrhyw dymor mewn swydd ddod i ben neu pe digwydd i rywun ymddiswyddo.

Sefydlir Pwyllgorau er mwyn cefnogi gwaith y Bwrdd, gyda chylch gwaith yn cael eu nodi gan gylch gorchwyl. Mae'r Bwrdd yn penodi cadeiryddion ei bwyllgorau ac yn cymeradwyo penodi cynghorwyr annibynnol, gan gymryd cyngor gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol. Fel arfer mae aelodau'r pwyllgor yn gwasanaethu am dair blynedd, oni bai bod aelod yn peidio â bod yn gomisiynydd, neu'n gofyn am adael y rôl. Gall y Bwrdd eu hailbenodi am gyfnod pellach, fel arfer heb fynd y tu hwnt i dair blynedd.

Mae pwyllgorau yn sicrhau bod cofnodion a gymerir yn eu cyfarfodydd ar gael i'r Bwrdd, gan adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd a chyflwyno crynodeb blynyddol o gyflawniadau'r pwyllgor dros y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Bwrdd ddirprwyo gweithgareddau penodol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol.

Mae'r Bwrdd yn adolygu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd yn flynyddol, ac fe wnaeth hynny ym mis Tachwedd 2024. Ni chafodd unrhyw bryderon gormodol eu codi.

## Comisiynwyr sy'n gwasanaethu yn 2024/25

| Enw | Dyddiad dechrau tymor yn y swydd | Dyddiad gorffen tymor yn y swydd | Aelodau'r Pwyllgor 2024/25 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ARAC | EDI[2] | RemCo |
| **John Pullinger CB[3]**<br>(Cadeirydd Bwrdd y Comisiynwyr; Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hyd fis Mawrth 2025) | 1 Mai 2021 | 30 Ebrill 2029 | | • | |
| **Y Fonesig Susan Bruce DBE, CVO**<br>(Comisiynydd; Cadeirydd ARAC hyd fis Chwefror 2025) | 1 Ionawr 2017 | 31 Rhagfyr 2026<br>(cyfnod estynedig) | • | | |
| **Sarah Chambers**<br>(Comisiynydd, Cadeirydd RemCo hyd fis Chwefror 2025; aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hyd fis Mawrth 2025) | 31 Mawrth 2018 | 30 Mawrth 2026 | | • | • |
| **Roseanna Cunningham** (Comisiynydd) | 1 Hydref 2022 | 30 Medi 2026 | | | |
| **Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert [4]**<br>(Comisiynydd; aelod o ARAC; Cadeirydd ARAC o fis Chwefror 2025) | 1 Tachwedd 2022 | 31 Hydref 2026 | • | | |
| **Carole Mills[5]**<br>(Comisiynydd; Cadeirydd RemCo o fis Mawrth 2025; aelod o ARAC o fis Chwefror | 1 Ionawr 2024 | 31 Rhagfyr 2027 | • | | • |

[2] Yr holl benodiadau i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a ddechreuodd fis Medi 2023

**[3] Cafodd John Pullinger CB ei ailbenodi i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fis Medi 2023**
**[4] Barwn Gilbert o Banteg (Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert)**
**[5] Cafodd Carole Mills ei phenodi i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o fis Chwefror 2025**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2025) | | | | | |
| **Dr Katy Radford MBE**<br><br>(Comisiynydd; aelod o RemCo; aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hyd fis Mawrth 2025) | 1 Medi 2021 | 31 Awst 2025 | | ● | ● |
| **Sheila Ritchie MBE**[6]<br><br>(Comisiynydd; aelod o ARAC o fis Chwefror 2025) | 1 Chwefror 2024 | 31 Ionawr 2027 | ● | | |
| **Chris Ruane**[7]<br><br>(Comisiynydd; aelod o RemCo o fis Mawrth 2025) | 1 Tachwedd 2022 | 31 Hydref 2026 | | | ● |
| **Yr Athro Elan Closs Stephens DBE** (Comisiynydd, aelod o ARAC hyd fis Chwefror 2025) | 13 Mawrth 2017 | 12 Mawrth 2027<br><br>(cyfnod estynedig) | ● | | |

[6] **Cafodd Sheila Ritchie ei phenodi i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o fis Chwefror 2025**

[7] **Cafodd Chris Ruane ei benodi i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol o fis Mawrth 2025**

## Comisiynwyr sy'n gwasanaethu yn 2024/25



John Pullinger CB



Y Fonesig Susan Bruce DBE, CVO



Sarah Chambers



Roseanna Cunningham



Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert



Carole Mills



Sheila Ritchie



Chris Ruane



Yr Athro Elan Closs Stephens DBE



Dr Katy Radford MBE

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu wrth gyflawni eu cyfrifoldebau atebolrwydd ffurfiol ar gyfer sicrhau priodoldeb trefniadau rheoli risg, rheoli mewnol, y defnydd effeithlon ac effeithiol o arian y cyhoedd a threfniadau llywodraethu ariannol o fewn y Comisiwn.

Mae archwilwyr mewnol ac allanol y Comisiwn yn mynychu pob cyfarfod yn rheolaidd, ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a staff perthnasol.

**Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gyfrifol am**

Oruchwylio cydymffurfiaeth â pholisïau cyfrifyddu, adolygu'r adroddiad blynyddol, a gwerthuso llythyrau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Adolygu cynlluniau archwilio ac adroddiadau, a sicrhau bod ymatebion gan reolwyr i ganfyddiadau'r archwiliad yn addas ac yn amserol

Adolygu'r prosesau strategol ar gyfer rheoli risg, rheoli, sicrwydd a llywodraethu

Goruchwylio llywodraethu gwybodaeth

Hyrwyddo moeseg a gwerthoedd priodol

Sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu gan brosiectau mawr a bod y rhain yn cael eu hymgorffori i mewn i unrhyw gynllunio yn y dyfodol.

Adolygu ac argymell cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan y Swyddog Cyfrifyddu.

Cymeradwyo a goruchwylio gweithredu polisïau llywodraethu allweddol.

Cytuno ar gynlluniau archwilio strategol a mewnol blynyddol ac adolygu adroddiadau'r gwasanaeth archwilio mewnol ynghyd ag ymatebion gan reolwyr.

Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Comisiynwyr yn rhoi manylion am ei waith, ei ganfyddiadau a'r argymhellion, a thrwy hynny yn gwella atebolrwydd a gwelliant parhaus o fewn y Comisiwn Etholiadol.

Drwy'r ymatebion hyn, mae ARAC yn sicrhau llywodraethu cadarn, uniondeb ariannol, a rheoli risg o fewn y Comisiwn, ac yn hyrwyddo ei dryloywder, atebolrwydd a safonau moesegol.

Mae ARAC yn cynnwys tri Chomisiynydd ac mae gofyn iddo gwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo penodi cynghorydd annibynnol sydd wedi cymhwyso'n briodol, unigolyn sydd heb unrhyw gysylltiad gyda'r Comisiwn Etholiadol. Mae gan y cynghorydd annibynnol yr hawl i fynychu unrhyw un o gyfarfodydd y Comisiynydd.

Cadeirydd ARAC yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 oedd y Fonesig Sue Bruce. Fe'i dilynwyd fel Cadeirydd ARAC gan yr Arglwydd Stephen Gilbert, o fis Chwefror 2025. Y cynghorydd annibynnol oedd Paul Redfern.

Cynhaliodd ARAC bedwar cyfarfod yn 2024/25, gan gyflawni ei gyrch gorchwyl a chymeradwyo a monitro rhaglen archwilio ac adolygiadau o'r amgylchedd reoleiddio.

## Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

Cefnogodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu wrth hyrwyddo newid diwylliannol a chyflawni ymrwymiadau a rhwymedigaethau'r Comisiwn o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Cwblhaodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ei waith ym mis Mawrth 2025, gan alluogi i drosolwg o amcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y dyfodol gael eu monitro gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol.

**Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gyfrifol am**

- Oruchwylio strategol a herio cyngor ar gyflawni Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chynllun Cydraddoldebau Unigol Gogledd Iwerddon, gan fonitro cynnydd ar gyflawni gweithredoedd
- Gweithio gyda'r Tîm Gweithredol er mwyn mewnosod mentrau newydd a ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwella ffocws y Comisiwn ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan eu cefnogi i fewnosod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy eu holl bolisïau a gweithdrefnau
- Sicrhau bod risgiau yn cael eu hadnabod, eu rheoli a'u hadrodd arnynt wrth bwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd ei hun, ar gyfer sicrwydd a llif gwybodaeth

ar draws pwyllgorau ac i weithio'n gydlynol ar Strategaeth y Bobl. Yn ogystal â chydymffurfio â chyfrifoldebau statudol a rheoleiddio'r Comisiwn, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), cyhoeddi gwybodaeth ynghylch cydraddoldeb a chydymffurfio ag adrodd gorfodol a chynllunio camau gweithredu

Cefnogi'r Tîm Gweithredol ac adrodd i'r Bwrdd wrth gadw ffocws ar agwedd sy'n mewnosod ac sy'n cyfathrebu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yng ngwaith y Comisiwn gyda phleidleiswyr, ymgyrchwyr a'r rhai sy'n sefyll fel ymgeisydd.

# Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol (RemCo)

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn cynghori'r Bwrdd ar strategaeth gydnabyddiaeth ac adnoddau dynol. Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri Chomisiynydd ac yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.

**Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn gyfrifol am**

Gymeradwyo newidiadau sylweddol i strwythur sefydliadol a/neu delerau ac amodau cyflogaeth cyffredinol staff ac unrhyw effaith y newid, megis dod â chontractau i ben

Cymeradwyo newidiadau sylweddol i strwythur y Tîm Gweithredol, gan gefnogi'r Cadeirydd wrth recriwtio'r Prif Weithredwr ac argymell i'r Bwrdd y fframwaith ar gyfer cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr

Cytuno ar gylch gorchwyl negodi blynyddol ar gyfer cyflogau staff (gan gynnwys y Tîm Gweithredol)

Gwneud argymhellion i'r Bwrdd o ran penodi'r Ymgynghorydd Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Cynghori ar i ba raddau y mae materion datblygiad sefydliadol ac adnoddau dynol strategol yn cefnogi cyfeiriad strategol y Bwrdd dros y Comisiwn.

## Adolygiad o berfformiad y Bwrdd a'r Pwyllgor yn ystod 2024/25

Mae blaenraglen cyfarfodydd y Bwrdd wedi'i hanelu at ymgysylltu ar lefel strategol, gan roi cefnogaeth a herio. Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Bwrdd adolygu ei effeithiolrwydd a chanolbwyntio ar bynciau o fewn amcanion y cynllun corfforaethol, gan roi ystyriaeth i ymchwil, adroddiadau a gyhoeddwyd a dadansoddiad o effaith. Cafodd y Bwrdd sesiynau cynhwysfawr ar y materion canlynol:

- Paratoadau, goruchwylio ac adrodd ar yr etholiad cyffredinol, gan gynnwys cyflwyno ID pleidleiswyr
- Paratoadau, goruchwylio ac adrodd ar etholiadau lleol
- Ymgysylltu'n gydweithredol er mwyn cytuno ar y Cynllun Corfforaethol nesaf
- Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Paratoadau, goruchwylio ac adrodd ar is-etholiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn
- Gwelliannau i gofrestru a phleidleisio ar gyfer cynyddu cydnerthedd a chyfranogiad
- Parhau i fewnosod gwelliannau sylweddol i gydnerthedd seiberddiogelwch y sefydliad yn dilyn yr ymosodiad seiber gafodd ei adnabod ym mis Hydref 2022.
- Polisi newydd gan y Llywodraeth a goblygiadau polisi

Ym mis Mai 2024, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfod oddi ar y safle yng Nghaeredin ynghyd â'i ddigwyddiad blynyddol i bartneriaid allanol. Bu i hyn ddwyn ynghyd rhanddeiliaid amrywiol er mwyn archwilio'r rhwystrau rhag sefyll fel ymgeisydd. Rhoddodd gyfle i Gomisiynwyr ddysgu am waith sy'n mynd rhagddo yn yr Alban, gan fagu perthnasoedd rhanddeiliaid er mwyn creu cyfleoedd ar gyfer gwaith partner yn y dyfodol.



### Presenoldeb y Bwrdd a’r Pwyllgorau 2024/25

Mae’r tabl isod yn dangos presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a’r Pwyllgorau yn ystod 2024/25 (yr uchafswm presenoldeb posib mewn cromfachau).

| Enw | Bwrdd y Comisiwn | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol |
|---|---|---|---|---|
| **John Pullinger CB (Cadeirydd)** | 8/8) | - | 4/(4) | - |
| **Y Fonesig Susan Bruce** | 5/(8) | 4/(4) | - | - |
| **Sarah Chambers** | 8/(8) | - | 4/(4) | 3/(3) |
| **Roseanna Cunningham** | 7/(8) | - | - | - |
| **Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert** | 8/(8) | 4/(4) | - | - |
| **Carole Mills** | 7/(8) | - | - | 4/(4) |
| **Sheila Ritchie** | 8/(8) | - | - | - |
| **Dr Katy Radford MBE** | 8/(8) | - | 3/(4) | 3/(4) |
| **Chris Ruane** | 8/(8) | - | - | - |
| **Yr Athro Elan Closs Stephens DBE** | 8/(8) | 4/(4) | - | - |

### Matrics Sgiliau’r Bwrdd

Mae’r Bwrdd yn cynnal matrics sgiliau sy’n nodi sgiliau a phrofiad cyfunol aelodau er mwyn cyflawni pwrpas ac amcanion strategol y Comisiwn.

Mae ystod sgiliau’r Bwrdd yn cynnwys gweinyddu etholiadau; ymgyrchu gwleidyddol; cysylltiadau rhyngwladol; partneriaethau strategol; ymgysylltu gyda’r cyhoedd; addysg;

ymchwil a dadansoddi data; y gyfraith; cynllunio corfforaethol a strategaeth; archwilio; rheoli ariannol a rheoli risg.

Mae sgiliau’r Bwrdd yn cael eu hadolygu’n barhaus ac rydym yn cynnal adolygiad blynyddol o sgiliau’r Bwrdd, gan fapio hyn i’r gofynion hyfforddiant a datblygu. Mae hyn yn ein galluogi i lenwi unrhyw fylchau o ran sgiliau ac mae’n bwydo’n uniongyrchol i mewn i’r broses o recriwtio aelodau newydd i’r Bwrdd.

Mae’r Bwrdd yn adolygu ei effeithiolrwydd yn flynyddol a chynhaliodd weithdy penodol ar hyn ym mis Tachwedd 2024, wedi’i gefnogi gan ein partneriaid archwilio mewnol yn BDO.

## Prif Weithredwr

Mae’r Prif Weithredwr yn gyfrifol am ein sefydliad yn gyffredinol, gan gynnwys rheoli, staffio ac am faterion ariannol, ymddygiad a disgyblu. Penodwyd Vijay Rangarajan yn Brif Weithredwr ar 4 Mawrth 2024.

## Y Tîm Gweithredol

Mae ein Tîm Gweithredol, sy’n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a rhai aelodau o’r Uwch Dîm Rheoli, yn cwrdd yn ffurfiol unwaith y mis er mwyn rheoli’r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad yn unol â’r cyfeiriad strategol a amlinellwyd gan ein Bwrdd. Maent yn mynd i’r afael â phroblemau a risgiau cyfredol yn y broses.

Mae’r Tîm gweithredol, sy’n cynnwys y Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwyr, yn cwrdd yn wythnosol er mwyn trafod materion cyfredol a chydlynu’r gweithgareddau angenrheidiol.

Mae gan y Cyfarwyddwyr awdurdod dirprwyedig ar gyfer rheoli o ddydd i ddydd gyda’r Prif Weithredwr. Mae’r dirprwyon hyn wedi eu hamlinellu’n ffurfiol, eu cofnodi a’u hadolygu yn flynyddol.


Mae’r Tîm Gweithredol yn derbyn adroddiadau misol ar berfformiad, cyllid a rheoli risg ar draws y sefydliad ac ar gynnydd mewn perthynas â phrosiectau a mentrau allweddol. Yn ogystal â thrafodaethau anffurfiol niferus, mae’r Prif Weithredwr yn cwrdd â phob aelod o’r Tîm Gweithredol o leiaf unwaith y mis i adolygu a herio perfformiad gweithredol ac ariannol.

**Aelodau'r Tîm Gweithredol yn ystod 2024/25**

| | |
|---|---|
| Y Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu o 4 Mawrth 2024 | Vijay Rangarajan |
| Cyfarwyddwr Rheoliadau o 2 Ionawr 2019 hyd 12 Gorffennaf 2024 | Louise Edwards |

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwyr a'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer Datganoli, Llywodraethu a'r Gyfraith | Binnie Goh |
| Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadau a Rheoleiddio (Cyfarwyddwr Rheoleiddio o 12 Gorffennaf 2024) | Jackie Killeen |
| Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro o 24 Ebrill 2023 hyd 30 Medi 2024 | David Moran |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol o 11 Tachwedd 2024 | Chris Pleass |
| Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil o 15 Awst 2016 hyd 16 Awst 2024 | Craig Westwood |
| Cyfarwyddwr Cyfathrebu Dros Dro o 8 Gorffennaf 2024 | Niki Nixon |
| Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil Dros Dro o 8 Gorffennaf 2024 | Tom Hawthorn |

# Strwythur sefydliadol ar 31 Mawrth 2025



**Rydym yn adnabod a gwerthuso risgiau drwy**

# Rheoli risg, rheolaeth fewnol a sicrwydd

Rydym yn cynnal ac yn adolygu effeithiolrwydd ein fframwaith rheoli drwy'r trefniadau isod.

## Llywodraethu corfforaethol

Mae'r Bwrdd yn adolygu ein fframwaith llywodraethu corfforaethol yn flynyddol, gan sicrhau ein bod yn mabwysiadu arfer gorau. Mae'r tîm Llywodraethu yn gyfrifol am weithredu'r cynllun llywodraethu corfforaethol, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi sylw llawn i egwyddorion y fframwaith.

## Rheoli risg

**Rydym wedi cynllunio ein prosesau rheoli risg i**

- Gynnal fframwaith clir ar draws y sefydliad, ac y mae bygythiadau a chyfleoedd yn cael eu hadnabod, eu hasesu, eu rheoli a'u hadolygu'n rheolaidd oddi mewn iddo yn unol â chanllawiau'r sefydliad ar yr awydd ar gyfer risg
- Neilltuo cyfrifoldeb penodol ar gyfer rheoli risg yn eu meysydd cyfrifoldeb i aelodau unigol o'r Tîm Gweithredol (gan gynnwys rheoli risgiau i brosiectau arwyddocaol)
- Sicrhau bod y tebygolrwydd ac effaith risgiau yn cael eu hasesu yn gyson
- Sicrhau bod risgiau presennol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod risgiau newydd yn cael eu hadnabod a'u rheoli
- Darparu'r Prif Weithredwr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd gyda sicrwydd bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Gymryd yr holl benderfyniadau allweddol yn dilyn rhoi ystyriaeth i risgiau a mesurau lliniaru cysylltiedig, sy’n cael eu hadnabod ar wahân mewn papurau ar gyfer y Bwrdd a rhai sy’n cymryd penderfyniadau dirprwyedig

Y Tîm Gweithredol yn rhoi ystyriaeth i p’un a ddylid ychwanegu risg newydd at y gofrestr risg strategol, a ph’un a oes angen newid y proffiliau risg presennol, fel rhan o’u hadolygiad chwarterol o risg

Y Tîm Gweithredol yn cwblhau adolygiad llawn a chynhwysfawr o risg ar ddechrau bob blwyddyn, er mwyn sicrhau bod y gofrestr risg strategol yn nodi risgiau rhag cyflawni'r amcanion yn ein Cynllun Corfforaethol

Cyflwyno adroddiad risg llawn i bob cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a hefyd yn flynyddol i’r Bwrdd

Rheolwyr a staff i adnabod risgiau yn eu prosiectau neu feysydd gwaith

Adnabod risgiau drwy ein proses gynllunio archwilio, adolygu gweithrediadau a gweithgareddau hyfforddiant

Neilltuo perchnogion i risgiau sy’n adolygu yn ffurfiol eu tebygolrwydd, eu heffaith bosib a’r mesurau lliniaru sydd yn eu lle bob mis a’u hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

## Y Matrics Risgiau

Rydym yn defnyddio matrics 5x5 er mwyn mesur dwy agwedd ar risg; tebygolrwydd ac effaith. Mae hyn yn rhoi gwerth rhifiadol sy'n dweud wrthym faint o achos brys yw risg a faint o sylw y dylem ei roi iddi.

- Y tebygolrwydd - beth yw'r tebygolrwydd y bydd y digwyddiad risg yn digwydd.
- Yr effaith - pa mor ddifrifol fydd y risg yn effeithio ar weithgareddau neu amcanion y Comisiwn pe bai'n digwydd,

| | | **Effaith y risg** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| **Tebygolrwydd o risg** | | Dim | Bychan | Cymharol | Sylweddol | Difrifol |
| | Uchel | Canolig 5 | Uchel 10 | Uchel 10 | Uchel iawn 20 | Uchel iawn 25 |
| | Canolig i uchel | Isel 4 | Canolig 8 | Uchel 12 | Uchel 16 | Uchel iawn 20 |
| | Canolig | Isel 3 | Canolig 6 | Canolig 9 | Uchel 12 | Uchel 15 |
| | Canolig isel | Isel 2 | Isel 4 | Canolig 6 | Canolig 8 | Uchel 10 |
| | Isel | Isel 1 | Isel 2 | Isel 3 | Isel 4 | Canolig 5 |

## Ein risgiau strategol

Ar gyfer 2024/25, dechreuom gyda naw risg strategol ond roedd amgylchiadau allanol, gan gynnwys yr amgylchedd gwleidyddol a democrataidd, yn golygu ein bod wedi adnabod pedwar yn fwy yn ystod y flwyddyn ariannol, gan fynd â'n cyfanswm i dair ar ddeg o risgiau ar ddechrau chwarter tri. Mae ein risgiau strategol yn dod dan 3 phennawd:

Galluogwr 1 – Rydym yn arddangos annibyniaeth ac uniondeb

Galluogwr 2 – Rydym yn sefydliad medrus lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi

Galluogwr 3 – Rydym yn sefydliad sy'n dysgu lle mae gwelliant yn barhaus, a lle defnyddir adnoddau'n effeithiol

## Risgiau gweithredol 2024/25

Mae'r risgiau gweithredol yn adlewyrchu'r risgiau strategol sydd wedi eu hadnabod uchod ac mae eu rheoli'n cyfrannu at liniaru'r risgiau strategol hynny. Mae'r risgiau gweithredol yn cael eu rheoli o ddydd i ddydd drwy brosesau sefydledig, rheoli llinell ac adolygiadau misol a thrwy adrodd ar reoli. Mae'r prosesau rheoli, a'r adolygiadau a mesurau lliniaru risg sydd wedi eu rhoi mewn lle ar gyfer 2024/25 wedi sicrhau'r Swyddog Cyfrifyddu ein bod wedi cynnal trefn rheoli risg briodol, gan gynnwys lleihau'r nifer o risgiau ar y gofrestr risg weithredol o 154 i 56 yn ystod misoedd o waith gwella risg.

## Archwiliad allanol

Y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol yw pennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'n harchwiliwr allanol, fel yr amlinellir dan Atodlen 1 PPERA. Ni wnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddarparu unrhyw wasanaethau nad oeddent yn archwilio yn 2024/25. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn darparu llythyrau rheolwyr, cynllunio, diweddaru ac adroddiadau cwblhau fel rhan o'r broses archwilio statudol sydd hefyd yn rhoi gwybod i'r Swyddog Cyfrifyddu am arsylwadau a wnaed.

## Archwiliad mewnol

Ein harchwilwyr mewnol yn 2024/25 oedd BDO UK. Cwblhaodd BDO archwiliadau yn unol gyda'u methodoleg, sy'n cyd-fynd â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae eu hadroddiadau yn cynnig barn annibynnol ar addasrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau rheoli. Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cymeradwyo'r rhaglen archwilio yn seiliedig ar risg y cytunwyd arni. Mae BDO wedi dyfarnu lefel 'resymol' o sicrwydd ar gyfer y farn archwilio flynyddol. Cwblhaodd BDO yr adroddiadau archwiliadau mewnol canlynol:

### Dyraniad Cost Seneddol

Bu i BDO adnabod dau ganfyddiad pwysigrwydd uchel, un canolig ac un o bwysigrwydd isel. Mae'r canfyddiadau uchel a chanolig yn berthnasol i fodelu anghyflawn, risg allweddol sy'n dibynnu ar berson, a'r gallu i wybodaeth barhau i fod wedi'i diweddaru pan mae'r model wedi ei 'adnewyddu'

### Rheoli Risg

Roedd BDO yn gallu darparu sicrwydd cyfyngedig dros ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol y trefniadau roedd gan y Comisiwn mewn lle mewn perthynas â rheoli risg.

### Rheoliadau Ariannol Craidd – Cyfriflyfr Cyffredinol

Roedd BDO yn gallu darparu sicrwydd canolig am ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol y trefniadau yr oedd gan y Comisiwn ar waith mewn perthynas â rheolaethau craidd ar gyfer risgiau.

### Parhad Busnes

Nododd BDO fod rhai cyfleoedd i atgyfnerthu rheoliadau presennol ac felly maent wedi codi tri chanfyddiad o bwysigrwydd canolig. A thrwy hynny, rhoddant sicrwydd canolig am ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol y trefniadau Cynllunio Parhad Busnes yn y Comisiwn.

### Rheoli Prosiectau

Roedd BDO yn gallu darparu sicrwydd canolig dros y dyluniad a sicrwydd cyfyngedig dros effeithiolrwydd gweithredol y trefniadau yr oedd gan y Comisiwn ar waith mewn perthynas â Rheoli Prosiectau.

### Y broses adrodd wedi'r etholiad

Roedd BDO yn gallu darparu sicrwydd canolig dros ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol y trefniadau roedd gan y Comisiwn ar waith mewn perthynas ag adrodd wedi'r etholiad.

### Llif gwybodaeth llywodraethu

Bu i BDO adnabod un canfyddiad o bwysigrwydd canolig a dau o bwysigrwydd isel. A thrwy hynny, rhoddant sicrwydd canolig dros ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith yn y Comisiwn.

### Strategaeth Ddigidol

Er bod Strategaeth 2022-2025 eto i'w chwblhau ar amser yr adolygu, roedd BDO yn gallu darparu cyfradd sicrwydd yn seiliedig ar y gweithgareddau a gyflawnwyd pan gynhaliwyd eu hadolygiad. Rhoddwyd ystyriaeth i'r canfyddiadau hyn wrth gyrraedd y farn gyffredinol bod sicrwydd canolig ar gyfer dyluniad ac effeithiolrwydd rheoliadau fel ei gilydd.

**Gweithredoedd Dilynol 2024/25**

O'r 15 argymhelliad a brofwyd yn ystod yr adolygiad hwn, cafodd 13 argymhelliad eu gweithredu'n llawn, ac mae dau argymhelliad yn parhau i fod ar waith.

## Gwariant y Tu Allan i Gwmpas Pleidlais

Yn 2023–24, bu i'r Comisiwn Etholiadol achosi £422,000 o Wariant y Tu Allan i Gwmpas Pleidlais o fewn ei Gyfyngiad Gwariant Cyfalaf Adrannol (C-DEL). Cafodd hyn ei ddatgelu yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023–24 a sicrhawyd cymeradwyaeth seneddol drwy Datganiad Arian Dros Ben 2023-24, ac mae wedi'i gynnwys yn Neddf Cyflenwi a Phriodoli (Rhagdybio ac Addasiadau) 2025. Mae'r problemau wedi'u hymdrin â hwy, ac mae'r mater bellach wedi'i ddatrys[8].

## Grantiau datblygu polisi

Rydym yn darparu grantiau datblygu polisi i bleidiau gwleidyddol cymwys, fel yr amlinellir yn nodyn 3 y cyfrifon. Rydym yn cadw rheolaeth dros daliadau grant drwy broses hawlio ac adolygu gynhwysfawr. Cyflwynodd bob plaid ffurflenni gwariant a arweiniodd at daliadau gwerth £1.95m. Yn dilyn archwiliad, nid oeddem yn gallu cadarnhau bod holl grant GDP 2024/25 i un blaid wedi'i wario'n briodol ar ddatblygu polisi. Bydd y Comisiwn yn dilyn ei ganllawiau cyhoeddedig ac yn cymryd camau adfer cymesur.

## Gwybodaeth llywodraethu




Mae ein gwaith rheoli gwybodaeth risg yn broses barhaus. Rydym yn seilio ein dull gweithredu ar God Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor wrth reoli cofnodion ac yn mesur yn ei erbyn hefyd, sef Fframwaith Polisi Diogelwch Swyddfa'r Cabinet (SPF) Govs007: Safon Diogelwch a Cyber Essentials ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio ein dull gweithredu wrth reoli gwybodaeth risg. Mae'r cyfrifoldeb gweithredol ar y Cyfarwyddwr Datganoli, Llywodraethu a Chyfraith yn ei rôl fel Uwch Berchennog Gwybodaeth Risg (SIRO).

---

[8] Gwariant y Tu Allan i Gwmpas Pleidlais 2023-24

Gan gadw'n gyson gyda chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Prif Weithredwr yn derbyn adroddiad blynyddol o reoli risg gwybodaeth gan y SIRO.

Ar gyfer 2024/25, roedd y ffocws ar ddatblygu sylfeini newydd er mwyn gwella gwybodaeth llywodraethu a rheoli risg gwybodaeth a oedd yn cefnogi strategaeth ddigidol a gwelliannau seiberddiogelwch technegol y flwyddyn flaenorol.  Gwnaed cais am Achrediad Cyber Essentials yn 2025/26 wedi diweddariadau ar raddfa fawr i seilwaith a dyfeisiadau. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r fframwaith gwybodaeth llywodraethu newydd, risgiau diogelu data a chanlyniad yr adroddiad statws ac yn cwmpasu rheoli risg, tryloywder, rheoli digwyddiad a gweithdrefnau i sicrhau ymwybyddiaeth barhaus o risgiau a chyfrifoldebau.

Rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Prif Weithredwr ystyriaeth i asesiad y SIRO o effeithiolrwydd rheoli risg gwybodaeth yn gyffredinol gan gynnwys asesu yn erbyn canllawiau a fframweithiau perthnasol ac roeddent yn fodlon gyda hyn.

## Digwyddiadau yn ymwneud â data personol

Yn 2024/25 roedd tri digwyddiad data personol, gan gynnwys dwy ddyfais ffisegol a gafodd eu dwyn o'r sefydliad a dau achos arall fu bron â digwydd.

# Adolygiad o effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gen i gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli. Wrth gwblhau'r adolygiad hwn, rwy'n ystyried:

- gwaith rheolwyr sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli
- gwaith yr archwilwyr mewnol
- sylwadau a wnaed gan ein harchwilwyr allanol yn eu hadroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ein sefydliad.

Rwyf wedi ennill sicrwydd a gwybodaeth ddigonol gan ARAC, y Bwrdd, ac aelodau eraill o'r tîm gweithredol i adolygu'r effeithiolrwydd yn ystod 2024-25.

Argymhellodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn eu llythyr rheolwyr ar gyfer 2022-23 y dylai'r Comisiwn atgyfnerthu ei fecanwaith sicrwydd ar gyfer rheoli prosiectau a rhaglenni. Cyn ei roi ar waith, roedd cyfnod o newid sefydliadol sylweddol, ac roedd yn bwysig i mi fel Prif Weithredwr newydd fy mod yn hapus gyda'r newid sylweddol i lywodraethu mewnol y Comisiwn. Mae hyn wedi golygu:

- Sefydlu Bwrdd newydd wedi'i gadeirio'n bersonol gan y Prif Weithredwr, sef y Bwrdd Sicrwydd Portffolio, er mwyn darparu sicrwydd ar draws portffolios rhaglenni a phrosiectau'r Comisiwn; cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mai 2024.

- Adolygu ei Strategaeth Sicrwydd Portffolio, sydd wedi'i drafod yn PAB ym mis Ebrill 2025; mae hyn yn cynnwys adnabod prosiectau sylweddol fel Prosiectau Sicrwydd Estynedig a fydd yn derbyn trosolwg ychwanegol gan PAB
- Cyflwyno mecanweithiau adrodd newydd ar gyfer prosiectau a rhaglenni sy'n rhoi cipolwg misol ar gynnydd a galluogi i unrhyw bryderon gael eu codi'n gynnar.
- Atgyfnerthu adnoddau a chydnerthedd y Swyddfa Rheoli Portffolio.
- Comisiynu adroddiad gan ein harchwilwyr mewnol ar effeithiolrwydd rheoli prosiectau a throsolwg y Comisiwn. Cafodd hwn ei gyflawni yn ystod tymor yr hydref 2024; cafodd yr holl argymhellion eu derbyn, ac mae llawer o waith wedi'i wneud yn cyflawni yn eu herbyn.
- Mae sicrwydd portffolio yn eitem sefydlog ar agenda ARAC.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â swyddogaethau ariannol a chaffael y Comisiwn. Yn eu Hadroddiad Trosolwg Ariannol diweddar i'r SCEC, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cadarnhau ei bod yn ystyried bod ei hargymhellion mewn perthynas â chapasiti ariannol a chaffael wedi cael eu rhoi ar waith. Mae Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cyfeirio ymhellach at ddyblu lefelau adnoddau, lefelau priodol o gymwysterau proffesiynol a strwythuro mwy eglur.

Ar gyfer y flwyddyn adrodd 2024/25, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi fy narparu gyda sicrwydd bod rheolaethau priodol wedi eu rhoi ar waith.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn fy nghynghori ar effeithiolrwydd fy systemau rheoli. Rwyf wedi fy modloni na wnaeth yr asesiad blynyddol o risg gwybodaeth fel y'i derbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg dynnu sylw at unrhyw feysydd o bryder gormodol. Cadarnhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei bod yn fodlon gyda'r asesiad o effeithiolrwydd rheoli risg gwybodaeth yn gyffredinol, gan gynnwys asesu yn erbyn canllawiau a fframweithiau perthnasol.

Bu i'r Bwrdd a'i bwyllgorau adolygu eu perfformiad a'u heffeithiolrwydd yn ystod 2024/25. Ni chodwyd unrhyw bryderon di-alw-amdanynt gan yr adolygiad hwn.

Oherwydd ein cymhwyster cyfrifyddu yn 2023-24, mae newidiadau wedi cael eu gwneud drwy gydol y flwyddyn i atgyfnerthu ein rheolaethau, cafodd gwendidau eu hadnabod a chafodd ein risgiau a'n prosesau eu diweddaru i adlewyrchu hyn.

Rwyf wedi fy modloni bod y gwendidau a gafodd eu hadnabod wedi eu hymdrin â hwy, neu wrthi'n cael eu delio â hwy drwy gamau gweithredu priodol a'u bod yn cael eu rheoli ac nad ydynt yn cyflwyno risgiau sylweddol i'n polisïau, nodau ac amcanion, na chamgymeriadau sylweddol yn ein datganiadau ariannol.

Mae’r adolygiad effeithiolrwydd yn cynnwys ystyriaeth i’n polisi chwythu’r chwiban. Mae hyn yn darparu llwybrau amgen i gyflogeion a gweithwyr ddatgelu camymarfer, gweithredoedd anghyfreithlon neu bryderon ynghylch camymddwyn. Ni chafwyd unrhyw achosion o chwythu’r chwiban yn ystod 2023/24 ac rwyf wedi fy modloni bod rheolaethau digonol ar waith.

- mae arweinyddiaeth yn cael ei mynegi drwy weledigaeth glir gan y Cadeirydd, y Bwrdd a’r Tîm Gweithredol; mae cyfarfodydd misol yn cyfrannu at gyflawni ein nodau, gan gynnwys ein hawydd am risg
- mae effeithiolrwydd yn cael ei gyflawni drwy’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg; cynhelir cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn gyda chynghorydd annibynnol yn bresennol
- o safbwynt atebolrwydd, mae'r Comisiwn yn ymfalchïo mewn hyrwyddo tryloywder ym mhob agwedd o’i waith a’i waith adrodd

# Cydnabyddiaeth ac adroddiad staff

## Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Comisiynwyr

Penodir Comisiynwyr drwy Warant Frenhinol i gyflawni eu swyddogaethau fel y'u disgrifir yn PPERA. Penodwyd John Pullinger yn Gadeirydd y Comisiynwyr ar 1 Mai 2021.

Mae Tŷ'r Cyffredin wedi penderfynu y bydd ffioedd ar gyfer y Comisiynwyr yn cynyddu ar 1 Ebrill bob blwyddyn, yn ôl y canran cynnydd a dalwyd am farnwyr yr Uchel Lys yn ystod y flwyddyn honno. Yn unol â'r trefniant hwn, cynyddodd ffioedd o 5.9%.

Mae cyflog y Cadeirydd a ffioedd y Comisiynwyr yn cael eu talu allan o'r Gronfa Gyfunol, fel y manylir mewn penderfyniad a wnaed gan Dŷ'r Cyffredin. Mae'r ffi ar gyfer pob diwrnod sy'n cael ei weithio ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 wedi cynyddu i £464 (2023/24: £438).

Mae Comisiynwyr yn cael eu hôl-dalu yn seiliedig ar y dyddiau gwirioneddol a weithiwyd wedi i'r Comisiynwyr gyflwyno ffurflen hawlio. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r taliadau ffi mae pob Comisiynydd yn ei dderbyn yn ariannol er mwyn cyfateb i'r arian parod gan y Gronfa Gyfunol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Mae cyflog Cadeirydd y Comisiynwyr hefyd wedi'i gynnwys. Mae Tŷ'r Cyffredin yn darparu pensiynau i'r Comisiynwyr drwy benderfyniad.

### Cyflog a thaliadau ffi i Gomisiynwyr yn 2024/25 (Yn ddibynnol ar archwiliad)

| Enw | 2024/25<br>£ | 2023/24<br>£ |
|---|---|---|
| John Pullinger CB | 93,756 | 90,560 |
| Alex Attwood (O 1 Chwefror 2021 i 31 Ionawr 2024) | 485 | 10,185 |
| Y Fonesig Susan Bruce DBE, CVO | 9,099 | 13,729 |
| Sarah Chambers | 17,927 | 10,949 |

| | | |
|---|---|---|
| Roseanna Cunningham | 12,414 | 963 |
| Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert | 14,636 | 8,920 |
| Carole Mills (O 1 Ionawr 2024) | 15,483 | 1,391 |
| Alasdair Morgan (O 12 Mai 2014 hyd 30 Medi 2022) | 0 | 138 |
| Dr Katy Radford MBE | 17,518 | 13,592 |
| Sheila Ritchie (O 1 Chwefror 2024) | 18,132 | 0 |
| Chris Ruane | 15,606 | 13,124 |
| Yr Athro Elan Closs Stephens DBE | 14,109 | 5,100 |
| Rob Vincent CBE (O 1 Ionawr 2016 hyd at 31 Rhagfyr 2023) | 546 | 10,747 |
| Joan Walley (O 1 Tachwedd 2018 hyd at 31 Hydref 2022) | 0 | 216 |

Mae'r holl ffigyrau a ddangosir uchod yn cynnwys Yswiriant Gwladol y Cyflogwr i gyfateb i arian o'r Gronfa Gyfunol.

Mae'r ffigyrau a ddangosir yn adlewyrchu'r hyn a gafodd ei dalu ac nid yr hyn a oedd yn ddyledus am eu hamser yn y rôl yn ystod 2024/25.

Mae'r gydnabyddiaeth ar gyfer archwiliwr annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, fel y'i hamlinellir gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol, yr un fath â'r gyfradd ddyddiol i Gomisiynwyr.

Derbyniodd ein cynghorwyr annibynnol, Paul Redfern a Sal Naseem, £2,608 a £0 yn y drefn honno, am eu rolau yn 2024/25 (2023/24: Paul Redfern £6,616, Sal Naseem £3,485). Telir costau teithio a chynhaliaeth rhesymol a achoswyd mewn gwirionedd yn unol â'n polisi teithio a chynhaliaeth. Nid oes unrhyw drefniadau pensiwn mewn grym ar gyfer y rolau hyn.

### Costau busnes: teithio a llety (yn ddibynnol ar archwiliad)

| Enw | 2024/25<br>£ | 2023/24<br>£ |
|---|---|---|
| John Pullinger CB (Cadeirydd) | 219 | 749 |
| Alex Attwood (O 1 Chwefror 2021 i 31 Ionawr 2024) | 0 | 5,122 |

| | | |
|---|---|---|
| Y Fonesig Susan Bruce DBE, CVO | 1,715 | 4,164 |
| Sarah Chambers | 158 | 213 |
| Roseanna Cunningham | 0 | 1,843 |
| Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert | 370 | 268 |
| Carole Mills (O 1 Ionawr 2024) | 723 | 683 |
| Dr Katy Radford MBE | 0 | 7,141 |
| Sheila Ritchie (O 1 Chwefror 2024) | 1,701 | 447 |
| Chris Ruane | 1,703 | 2,445 |
| Yr Athro Elan Closs Stephens DBE | 0 | 135 |
| Rob Vincent CBE (O 1 Ionawr 2016 hyd at 31 Rhagfyr 2023) | 0 | 1,368 |

Mae costau busnes a ddigolledir yn ddi-dreth i'r unigolion. Mae'r Comisiwn yn talu unrhyw dreth sy'n ddyledus fel rhan o'u ffurflenni blynyddol i CThEF.

# Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol

Yn ystod 2024/25, bu i'n Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Thrawsnewid Digidol, Louise Edwards, ein Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil, Craig Westwood, a'n Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, David Moran, adael y Comisiwn. Gadawodd Louise ym mis Gorffennaf 2024, gadawodd Craig ym mis Awst 2024 a gadawodd David ym mis Medi 2024.

Penodwyd Chris Pleass yn rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol ym mis Tachwedd 2024, penodwyd Niki Nixon yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu Dros Dro ym mis Gorffennaf 2024 a phenodwyd Tom Hawthorn yn Gyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil Dros Dro ym mis Gorffennaf 2024.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ar gydnabyddiaeth y prif weithredwr a chytuno ar y cylch gorchwyl negodi blynyddol ar gyfer cyflogau staff (gan gynnwys y Tîm Gweithredol). Mae manylion cyfrifoldebau ac aelodaeth y Pwyllgor yn yr adroddiad llywodraethu.

Nid ydym yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, ac felly nid ydym wedi ein rhwymo i ganllawiau tâl y Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, mae Atodlen 1 PPERA yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni roi ystyriaeth i ddymunoldeb cadw telerau ac amodau cyflogaeth staff yn unol, yn fras, â rhai'r Gwasanaeth Sifil. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol hefyd yn cymryd i

ystyriaeth ystyriaethau economaidd ehangach a pha mor fforddiadwy yw eu hargymhellion.

Caiff cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr ei ariannu drwy Amcangyfrif Cyflenwi a'i gyfrif amdano yn y cyfrifon blynyddol.

Mae'r bobl sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn meddu ar benodiadau pen-agored, er bod gan staff y dewis i ymddeol a thynnu pensiwn o oedran 60 neu 65 yn ddibynnol ar reolau eu cynllun pensiwn. Byddai dod â chytundeb gwaith i ben yn gynnar gyda gwasanaeth cymwys, ac eithrio ar gyfer camymddwyn, fel arfer yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel yr amlinellir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

## Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog, buddion mewn nwyddau a phensiynau)

**Ffigwr cyfansymiol sengl neu gydnabyddiaeth (Yn ddibynnol ar archwiliad)**

| | **Cyflog £000** | | **Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** | | **Buddion pensiwn[9] (i'r £1000 agosaf)** | | **Cyfanswm £000** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr** | **2024/25** | **2023/24** | **2024/25** | **2023/24** | **2024/25** | **2023/24[10]** | **2024/25** | **2023/24** |
| **Vijay Rangarajan**<br>Prif Weithredwr | 205-210 | 10-15<br>(195-200 FYE) | 200 | 200 | 472 | 136 | 675-680 | 145-150 |

**[9] Cyfrifir gwerth buddion pensiynau a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi gyda 20) wedi'i ychwanegu at (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) a thynnu (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.**

[10] Mae unrhyw fuddion pensiwn sydd wedi cronni wedi eu cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn sydd wedi ei effeithio gan Ddatrysiad Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus wedi eu cyfrifo yn seiliedig ar gael eu cynnwys yn y cynllun etifeddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae Datrysiad Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu yn gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 a'u bod yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol wnaeth effeithio aelodau wedi cael eu symud yn ôl i'r cynllun etifeddiaeth perthnasol ar gyfer y cyfnod datrys a bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn ymarfer eu hawl pan fyddant yn ymddeol i benderfynu, yn lle hynny, derbyn buddion wedi'u cyfrifo dan amodau cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rob Vincent CBE**<br>Prif Weithredwr Dros Dro<br>(rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 3 Mawrth 2024) | 0 | 40-45<br>(130-135 FYE) | 0 | 200 | 0 | 0 | 0 | 40-45 |
| | | | | | | | | |
| **Shaun McNally**<br>Prif Weithredwr<br>(rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Tachwedd 2023) | 0 | 215-220<br>(170-175 FYE) | 0 | 200 | 0 | 0 | 0 | 215-220 |
| | | | | | | | | |
| **Louise Edwards**<br>Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Thrawsnewid Digidol<br>(hyd at 12 Gorffennaf 2024) | 35-40<br>(110-115 FYE) | 105-110 | 100 | 200 | 18 | 46 | 45-50 | 150-155 |
| | | | | | | | | |
| **Binnie Goh**<br>Cyfarwyddwr Datganoli, Llywodraethu a Chyfraith | 115-120 | 25-30<br>(110-115 FYE) | 200 | 200 | 133 | 30 | 250-255 | 55-60 |
| **Ailsa Irvine**<br>Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth a Chanllawiau Etholiadol | 0 | 85-90<br>(110-115 FYE) | 0 | 200 | 0 | 67 | 0 | 155-160 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (Rhwng 1 Rhagfyr 2003 a 31 Rhagfyr 2023) | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **Jackie Killeen**<br>Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol a Rheoleiddio | 115-120 | 20-25<br>(110-115 FYE) | 200 | 200 | 185 | 42 | 300-305 | 60-65 |
| | | | | | | | | |
| **David Moran**[11]<br>Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (hyd at 30 Medi 2024) | 70-75<br>(140-145 FYE) | 55-60<br>(135-140 FYE) | 100 | 200 | 26 | 26 | 95-100 | 80-85 |
| | | | | | | | | |
| **Kieran Rix**<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>(rhwng 1 Mawrth 2018 a 30 Ebrill 2023) | 0 | 90-95<br>(100-105 FYE) | 0 | 200 | 0 | 60 | 0 | 150-155 |
| | | | | | | | | |
| **Chris Pleass**<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (o 11 Tachwedd 2024 ymlaen) | (115-120 FYE) | 0 | 100 | 0 | 57 | 0 | 100-105 | 0 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Craig Westwood**<br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil (hyd 16 Awst 2024) | 40-45<br>(115-120 FYE) | 105-110 | 100 | 200 | 54 | 58 | 95-100 | 165-170 |
| | | | | | | | | |
| **Niki Nixon**<br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu (o 8 Gorffennaf 2024) | 65-70<br>(90-95 FYE) | 0 | 200 | 0 | 9 | 0 | 75-80 | 0 |
| | | | | | | | | |
| **Tom Hawthorn**<br>Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil (o 08 Gorffennaf 2024) | 70-75<br>(90-95 FYE) | 0 | 200 | 0 | 81 | 0 | 150-155 | 0 |

### Cyflog

Mae'r cyflog yn cynnwys cyflog gros, goramser, hawliau a gedwir i bwysoli Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, cyflog diswyddo ac unrhyw lwfans arall os yw'n ddarostyngedig i drethu yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau crynodedig a wnaeth y Comisiwn Etholiadol ac o'r herwydd maent wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

### Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarparwyd gan y Comisiwn ac sydd yn cael eu trin fel cyflog trethadwy. Mae buddion mewn nwyddau aelodau'r Tîm Gweithredol yn cynnwys aelodaeth o Benenden Healthcare, ac yr ydym hefyd yn gwneud taliad ar ei gyfer i CThEF. Roedd gwerth y buddion hyn ar gyfer pob aelod o'r TG ar gyfer 2024-25 yn £153.60 (roedd 2023/24 yn £153.60). Mae'r holl staff yn derbyn y buddion hyn.

## Gwobrwyon diolch yn syth

Ni wnaeth y Comisiwn Etholiadol roi unrhyw dâl bonws yn seiliedig ar broses gwerthuso perfformiad yn ystod 2024-25. Yn hytrach, ers 2020-21 mae gweithwyr sydd yn is na lefel y Tîm Gweithredol yn gymwys i gael eu henwebu ar gyfer wobr ‘diolch yn syth’ gwerth rhwng £25 a £500.

## Pensiynau’r Gwasanaeth Sifil

Mae buddion pensiwn yn cael eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cafodd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil ei gyflwyno - y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy’n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yn cyfateb i Oedran Pensiwn Gwladol yr aelod (neu 65 os yw’n uwch). O’r dyddiad hwnnw mae’r holl weision sifil newydd a benodwyd a’r rhan fwyaf o’r rheiny sydd eisoes o fewn y gwasanaeth wedi ymuno gydag Alpha. Cyn y dyddiad yna, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan PCSPS bedair adran: tair sy’n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw’r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, ond mae cost y buddion yn cael eu talu gan arian wrth gefn gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy’n daladwy dan classic, premium, classic plus, nuvos, ac alpha yn cael eu cynyddu’n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Fe wnaeth aelodau presennol o’r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i’w oedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 barhau yn PCSPS wedi 1 Ebrill 2015. Cafodd y rhai rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a phum mis i’w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 eu trosglwyddo i alpha rhyw bryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. O 1 Ebrill 2022, symudwyd pob aelod i’r cynllun alpha waeth pa mor agos oeddent i’w hoedran pensiwn arferol. Mae pob aelod sy’n symud i alpha wedi cael eu buddion PCSPS wedi eu ‘bancio’, gyda rhai sydd â buddion cynt yn un o’r adrannau cyflog terfynol o’r PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan maent yn gadael alpha. (Mae’r ffigyrau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y mae’n briodol. Lle mae’r swyddog wedi cael buddion yn PCSPS ac alpha, y ffigwr a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy’n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai’r trefniadau buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad ‘pryniant arian’ gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau’r gweithiwr yn gysylltiedig â thâl ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion yn classic yn crynhoi ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae swm cyfansymiol sy’n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer premium, mae buddion yn crynhoi ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, does dim swm cyfansymiol awtomatig. Mae Classic plus i bob pwrpas yn hybrid gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo’n fras yn yr un modd â

classic ac mae'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 wedi eu cyfrifo yn yr un modd â premium. Yn nuvos, mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o fod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd y flwyddyn gynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn derbyn 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno ac mae'r pensiwn crynodedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion yn alpha yn adeiladu mewn ffordd debyg i nuvos, heblaw bod y gyfradd grynodedig yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis i ildio (symud) pensiwn am swm cyfansymiol hyd at y cyfyngiadau a amlinellir yn Neddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliad. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr gan y darparwr penodedig - Legal and General. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan maent yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu swm cyfatebol o hyd at gyfyngiad o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn bodloni cost trefniant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth yn ystod gwasanaeth ac ymddeoliad salwch £21,486).

Y pensiwn crynodedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w dderbyn pan maent yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth wedi iddo roi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu wedi mynd y tu hwnt iddo. Mae oedran pensiwn yn 60 ar gyfer aelodau o classic, premiun a classic plus, 65 ar gyfer aelodau o nuvos, a hŷn na 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau o alpha. (Mae'r ffigyrau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y mae'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigwr a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

### Gwerthoedd Trosglwyddo Arian Cyfatebol (CETV)

Gwerth Trosglwyddo Arian Cyfatebol (CETV) yw gwerth ariannol buddion y cynllun pensiwn, wedi'i asesu'n actiwaraidd a'i gyfalafu, sydd wedi'i grynhoi gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion crynodedig yr aelod a phensiwn partner dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu drefniant pan mae'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi crynhoi i'w cynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn rôl uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigyrau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant lle mae'r aelod wedi trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol sydd wedi'u cronni i'r aelod o ganlyniad iddo fod wedi prynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Mae CETVau yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol

(Gwerthoedd Trosglwyddadwy) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib i fuddion o ganlyniad i'r Lwfans Treth Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan mae buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

**Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn crynodedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau cyffredin i werthuso'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Ar gyfer 2024/25, roedd cyfraniadau cyflogwr o £3,066,081 yn daladwy i'r Cynlluniau (2023/24; £2,545,415) ar gyfradd o 28.97% (2023/24; un o bedair cyfradd yn amrywio rhwng 26.6% a 30.3%) o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad cynllun llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt grynhoi, nid y costau wrth iddynt ddigwydd go iawn, ac yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £36,995 (2023/24; £45,147) eu talu i ddarparwr pensiwn rhanddeiliad a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi tâl cyfatebol i gyfraniadau'r gweithiwr hyd at 3% o'r tâl pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £1,259 sef 0.5% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i fodloni costau darpariaeth o fuddion cyfansymiol yn y dyfodol yn dilyn marwolaeth wrth wasanaethu ac ymddeoliad ar sail iechyd y gweithwyr hyn.

Roedd y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partner ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn sero. Ni thalwyd unrhyw gyfraniadau ymlaen llaw erbyn y dyddiad hwnnw.

Ni wnaethom dalu unrhyw gyfraniadau pensiwn i'r Comisiynwyr yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ni dalu pensiynau i rai Cyn-gomisiynwyr penodol Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr. Mae cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer y costau hyn wedi gostwng i £103k ers 31 Mawrth 2025 (£117k ar 31 Mawrth 2024).

Cyfrifir ffigyrau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau gostyngedig ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; defnyddir y canllawiau hyn wrth gyfrifo ffigyrau CETV 2024-25.

## Gwybodaeth pensiwn ar gyfer cyfarwyddwyr (£000) (Yn ddibynnol ar archwiliad)

| Cyfarwyddwyr | Pensiwn cronedig erbyn oedran pensiwn fel y mae ar 31/3/25 a'r swm cyfansymiol perthnasol | Cynnydd real yn y pensiwn a'r swm cyfansymiol perthnasol erbyn oedran pensiwn | CETV ar 31/3/25 | CETV wedi'i ailddatgan ar 31/3/24[12] | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| **Vijay Rangarajan**<br>Prif Weithredwr | 70 - 75 ynghyd â swm cyfansymiol o 185-190 | 20 - 22.5 ynghyd â swm cyfansymiol o 50-52.5 | 1649 | 1125 | 467 |
| **Louise Edwards**<br>Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Thrawsnewid Digidol | 25 - 30 | 0 - 2.5 | 362 | 336 | 11 |
| **Chris Pleass**<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol | 35 - 40 | 2.5 - 5 | 824 | 747 | 56 |

**[12] Mae unrhyw fuddion pensiwn sydd wedi cronni wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn sydd wedi ei effeithio gan Ddatrysiad Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar gael eu cynnwys yn y cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae Datrysiad Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu yn gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol y mae aelodau yr effeithir arnynt wedi cael eu symud yn ôl i'r cynllun gwaddol perthnasol ar gyfer y cyfnod datrys a bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn ymarfer ei hawl pan fydd yn ymddeol i benderfynu, yn lle hynny, i dderbyn buddion wedi'u cyfrifo dan amodau cynllun Alpha o'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Binnie Goh** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Diwygio | 30 - 40 ynghyd â swm cyfansymiol o 85 - 90 | 5 - 7.5 ynghyd â swm cyfansymiol o 10 - 12.5 | 784 | 636 | 115 |
| **Jackie Killeen** Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadol a Rheoleiddio | 50 - 55 ynghyd â swm cyfansymiol o 95 - 100 | 7.5 - 10 ynghyd â swm cyfansymiol o 15 – 17.5 | 1080 | 860 | 170 |
| **David Moran** Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro | 0 - 5 | 0 - 2.5 | 50 | 24 | 19 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Craig Westwood** Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil | 35 - 40 | 2.5 - 5 | 671 | 617 | 44 |
| **Niki Nixon** Cyfarwyddwr Cyfathrebu | 10 - 15 | 0 – 2.5 | 163 | 154 | 3 |
| **Tom Hawthorn** Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil | 40 - 45 | 2.5 - 5 | 741 | 662 | 67 |

**Nodiadau**

- CTVE yw'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod
- Y pensiwn sydd wedi cronni a ddyfynnwyd yn y tabl uchod yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w dderbyn pan mae ef neu hi yn cyrraedd 60 oed ar gyfer cynlluniau pensiwn 'Classic', 'Classic Plus' a 'Premium', 65 oed ar gyfer y cynllun pensiwn 'Nuvos', ac oedran pensiwn y wladwriaeth (neu 65 oed os yn hwyrach) ar gyfer y cynllun pensiwn 'Alpha'.

**Taliadau ar gyfer ymddeoliad cynnar neu golli swydd (Yn ddibynnol ar archwiliad)**

Nid oedd unrhyw daliadau ar gyfer ymddeoliad cynnar neu golli swydd.

**Datgeliad cyflog teg (i'r £1000 agosaf) (Yn ddibynnol ar archwiliad)**

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf yn eu sefydliad a'r chwartel isaf, canolig ac uwch ar gyfer cydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad. Nid oes unrhyw daliadau bonws yn daladwy i unrhyw gyfarwyddwr neu unrhyw staff arall yn y Comisiwn.

| | 2024/25 | 2023/24 | Newidiadau % |
|---|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy’n cael ei dalu fwyaf | 205-210 | 195-200 | 4.8% |
| Cydnabyddiaeth y chwartel uchaf (yr holl staff eraill) | 59 | 60 | -1.7% |
| Cydnabyddiaeth ganolrifol (yr holl staff eraill) | 48 | 47 | 2.6% |
| Cydnabyddiaeth y chwartel isaf (yr holl staff eraill) | 39 | 39 | 0% |
| Cymhareb (chwartel uchaf) | 3.5 | 3.3 | |
| Cymhareb (canolrifol) | 4.3 | 4.2 | |
| Cymhareb (chwartel isaf) | 5.4 | 5.0 | |

**Lluosrifau Cyflog**

Cydnabyddiaeth band y cyfarwyddwr sy’n cael ei dalu fwyaf yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 oedd £205-210K (2023/24, £195K- £200k). Roedd hyn 4.3 gwaith (2023/24 4.2 gwaith) cydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, a oedd yn £48k (2023/24, £47k).

Yn 2024/25 a 2023/24, ni chafodd unrhyw gyflogai gydnabyddiaeth a oedd y tu hwnt i’r cyfarwyddwr sy’n cael ei dalu fwyaf. Roedd cyfraddau cydnabyddiaeth ar gyfer staff ac eithrio’r cyfarwyddwr a delir fwyaf (yn seiliedig ar gyfraddau sy’n cyfateb i rai amser llawn) yn amrywio o £30-35k i £165-170k (2023/24: £25-30k i £175-180k).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau. Nid yw’n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a’r gwerth trosglwyddo arian cyfatebol pensiynau.

Cynyddwyd cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr a delir uchaf 4.8% yn ystod 2024/25 a oedd yn gyson gyda’r holl staff eraill. Roedd codiadau cyflog yn uwch i’r rhai ar raddau is. Mae’r holl staff bellach yn cael eu talu £15.00 yr awr fel isafswm, a rhoddwyd hyn ar waith ar gyfer y staff sydd ar y cyflog isaf. Mae’r adroddiad cydnabyddiaeth yn dangos gwybodaeth ynghylch y cyfarwyddwr sy’n cael ei dalu fwyaf.

# Adroddiad staff

## Cyfansoddiad y staff

Nifer y cyfarwyddwyr a gyflogwyd yn ystod y cyfnod oedd wyth, gydag un ohonynt yn benodiad tymor penodol (pedwar ohonynt yn ddynion a phedair yn fenywod). Roedd nifer y Comisiynwyr a staff a oedd mewn swyddi ac wedi'u penodi yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **Benyw** | **Gwryw** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd a'r Bwrdd* | 7 | 3 | 10 |
| Cyfarwyddwyr/Penaethiaid (staff parhaol) | 19 | 12 | 31 |
| Cyfarwyddwyr/Penaethiaid (staff dros dro/tymor penodol) | 1 | 1 | 2 |
| Staff arall (parhaol) | 114 | 82 | 196 |
| Staff arall (dros dro/tymor penodol) | 10 | 14 | 24 |
| Contract/Asiantaeth | 8 | 12 | 20 |
| **Cyfanswm** | **159** | **124** | **283** |

*gan gynnwys cynghorydd annibynnol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## Costau staff (i'r £000 agosaf) (Yn ddibynnol ar archwiliad)

| | **Staff cyflogaeth barhaol** | **Eraill** | **2024/25 Cyfanswm** | **2023/24 Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau a chyflogau | 11,136 | 885 | 12,021 | 11,056 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,320 | - | 1,320 | 1,443 |
| Costau pensiwn eraill | 3,066 | - | 3,066 | 2,545 |
| **Cyfanswm costau net*** | **15,522** | **885** | **16,407** | **15,044** |

*Yn 2024/25, ni chafodd unrhyw gostau staff eu cyfalafu (Yn 2023/24 £DIM costau staff wedi'u cyfalafu).

## Cyfartaledd nifer y bobl a gyflogwyd (Yn ddibynnol ar archwiliad)

Yn ystod 2024/25, y nifer cyfartalog o unigolion yn cyfateb i gyflogaeth amser llawn (FTE) oedd 208 (2023/24: 190). Yn ogystal, roedd cyfartaledd o 29 o staff dros dro cyfwerth ag amser llawn (2023/24: 7) mewn swyddi a sefydlwyd neu staff yn gweithio ar brosiectau oddi allan i'r sefydliad.

| | **2024/25** | **2023/24** |
|---|---|---|
| Cyfateb i lawn amser - Staff cyflogaeth barhaol | 208 | 190 |
| Staff dros dro | 10 | 7 |
| **Cyfanswm** | **218** | **197** |

## Cyfraddau trosiant staff

Roedd cyfraddau trosiant staff ar gyfer 2024/25 yn 13.6% (2023/24, 13.8%). Mae hyn yn seiliedig ar gyfartaledd ein cyfrif o staff presennol a'r rhai a adawodd yn y cyfnod hwnnw.

## Absenoldeb salwch


Yn 2024/25, roedd y nifer cyfartalog o ddyddiau absenoldeb salwch yn 4.8 fesul unigolyn o'i gymharu â 4.51 y gweithiwr yn y flwyddyn flaenorol.

Bydd yr adran adnoddau dynol yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi rheolwyr i reoli absenoldebau tymor byr a thymor hir yn 2025/26, gan gynnwys sicrhau bod yr holl staff yn cael trafodaeth dychwelyd i'r gwaith effeithiol gyda'u rheolwr llinell pan fyddant yn dychwelyd, a monitro a chefnogaeth effeithiol yn ystod eu habsenoldeb tymor hir. Yn ogystal, mae rheolwyr yn cael adroddiadau rheolaidd ar lefelau absenoldebau o fewn eu timau er mwyn eu galluogi i ymyrryd ar y cyfle cyntaf posib i gefnogi iechyd a lles gweithwyr. Rydym wedi ymrwymo i iechyd a lles yr holl staff ac yn hyrwyddo ffordd o fyw gytbwys, gan gynnwys aelodaeth gorfforaethol gyda Benenden Healthcare. Mae yna bolisi a chanllawiau absenoldeb salwch cynhwysfawr ar gyfer rheolwyr er mwyn delio gydag absenoldebau staff.

## Cyfradd absenoldebau salwch cyfartalog fesul cyflogai

Bu i'n habsenoldeb salwch cyfartalog gyrraedd penllanw yn 2023 gyda chyfartaledd o 8.43 diwrnod gwaith wedi'i golli am bob unigolyn oherwydd salwch.  Mae 2024-25 yn 4.8 diwrnod (2023-24 – 4.51 diwrnod).

Mae'r siart isod yn dangos ein tuedd ar gyfer y 5 mlynedd ddiwethaf.




## Polisïau staff

Cymhwyswyd polisïau staff yn gyson yn ystod y flwyddyn pan roeddem yn ystyried ceisiadau ar gyfer cyflogaeth a recriwtio staff. Rydym yn gofyn i bob ymgeisydd ddarparu data monitro cydraddoldeb, nad yw'n cael ei gyflwyno i'r panel, ac rydym felly yn creu rhestr fer o ymgeiswyr yn seiliedig ar eu sgiliau a'r profiad sy'n berthnasol i'r rôl.

Mae staff sy'n datgan anabledd neu sy'n dod yn anabl yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, yn cael cyfle i wneud cais am addasiadau rhesymol pe byddent eu hangen. Mae'n bosib yr ymgynghorir gydag Iechyd Galwedigaethol er mwyn gwneud argymhellion a sicrhau bod asesiadau risg a gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu rhoi ar waith. Bydd gweithio hyblyg hefyd yn cael ei ystyried yn rhan o addasiadau rhesymol. Darperir hyfforddiant, yn ôl y galw i'r holl staff yn y fformat angenrheidiol.

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

Roedd gwariant ar ymgynghoriaeth yn £547k ar gyfer 2024/25 (2023/24: £495k).

## Ymrwymiadau oddi allan i'r gyflogres

Bu dau ymrwymiad oddi allan i'r gyflogres yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25 (2023/24: 5). Roedd y rhain ar gyfer rolau arbenigol tymor byr o fewn y Comisiwn. Talwyd dros £245 y diwrnod i bob un o'r rolau hyn.

| Ymgysylltiadau gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2025 | Rhif |
|---|---|
| Ymgysylltiadau presennol o 31 Mawrth 2025 | 2 |
| O'r rhain... | 0 |
| Wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd. | 2 |
| Wedi bodoli am rhwng un a dwy flynedd ar adeg adrodd. | 0 |
| Wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd. | 0 |
| Wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd. | 0 |
| Wedi bodoli am bedair neu fwy o flynyddoedd ar adeg adrodd. | 0 |

| Yr holl weithwyr dros dro oddi allan i'r gyflogres yr ymgysylltwyd â hwy ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. | Rhif |
|---|---|
| Gweithwyr oddi allan i'r gyflogres yr ymgysylltwyd â hwy yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 | 5 |
| O'r rhain... | 0 |
| Pennwyd eu bod oddi mewn i gwmpas IR35 | 0 |
| Pennwyd eu bod oddi allan i gwmpas IR35 | 5 |
| Ymgysylltiadau a ailaseswyd at bwrpas cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| O'r rhain: nifer yr ymgysylltiadau a welodd newid i'w statws IR35 yn dilyn adolygiad | 0 |
| Ymgysylltiadau lle cafodd y statws ei wadu dan ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth gweithwyr oddi allan i'r gyflogres | 0 |
| O'r rhain: nifer yr ymgysylltiadau a welodd newid i'w statws IR35 yn dilyn adolygiad. | 0 |

Yn unol â'r polisi Datgan Buddiannau cyfredol ar gyfer cynghorwyr arbenigol, mae'r holl gynghorwyr arbenigol wedi datgan unrhyw fuddiannau perthnasol neu wedi cadarnhau nad ydynt yn ystyried bod ganddynt unrhyw ddiddordebau perthnasol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi ystyried y ffurflenni hyn ac nid oes unrhyw ddatganiadau buddiant perthnasol i'w cyhoeddi.

Caiff yr holl weithwyr oddi allan i'r gyflogres eu hasesu gan ddefnyddio "Gwirio Statws Cyflogaeth ar gyfer Treth" CThEF cyn i unrhyw gontract gael ei awdurdodi.

## Pecynnau Ymadael (Yn ddibynnol ar archwiliad)

Yn ystod 2024/25 ni wnaeth unrhyw weithiwr adael dan delerau diswyddo. Mae'r tabl isod yn dangos y taliadau a wnaed.

| **Band cost y pecyn ymadael** | **Nifer y diswyddiadau gorfodol** | | **Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd iddynt** | | **Cyfanswm nifer o becynnau ymadael yn ôl band cost** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024/25 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24 |
| <£10,000 | - | - | - | - | - | - |
| £10,000 - £25,000 | - | - | - | - | - | - |
| £25,000 - £50,000 | - | - | - | 1 | - | 1 |
| £50,000 - £100,000 | - | - | - | 2 | - | 2 |
| £100,000 - £150,000 | - | - | - | - | - | - |
| £150,000 - £200,000 | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | - | - | - | 3 | - | 3 |
| **Cyfanswm cost /£** | - | - | - | 203,508 | - | 203,508 |

Telir taliadau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaeth Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Sifil, sef cynllun statudol a wnaed dan Ddeddf Pensiynau 1972, neu drwy drafod cytundebau setlo.

Nid oedd unrhyw ymddeoliadau ar sail iechyd yn 2024/25.

# Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwiliad

## Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SOPS)

Yn ogystal â'r datganiadau cyntaf a baratowyd dan IFRS, mae Cyfarwyddiadau Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol baratoi Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SOPS) a nodiadau atodol.

Mae'r SOPS a'r nodiadau cysylltiedig yn ddibynnol ar archwiliad, fel y manylir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin. Mae'r SOPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, mewn manylder, sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcan Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at bwrpas adnoddau a gawariant) ac arian parod (a dynnwyd yn bennaf o'r gronfa Cyfunol), y mae'r Senedd yn eu rhoi i awdurdodau statudol er mwyn i endidau eu defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn rhoi manylion ynghylch y cyflenwad ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Pe bai endid yn mynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau a osodwyd gan eu Hamcangyfrif Cyflenwi, a elwir yn gyfyngiadau rheoli, bydd eu cyfrifon yn derbyn barn gymwys.

Mae fformat y SOPS yn cyfateb i'r Amcangyfrifon Cyflenwi, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn galluogi cymhariaeth rhwng yr hyn mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SOPS yn cynnwys tabl crynodeb, yn rhoi manylion ar berfformiad yn erbyn y cyfyngiadau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, yr arian a wariwyd (caiff cyllidebau eu creu ar sail grynodedig ac felly ni fydd yr alldro yn cyfateb yn union i'r arian a wariwyd) a gweinyddu.

Mae'r nodiadau atodol yn manylu ar y canlynol: Alldro drwy linell Amcangyfrif, gan ddarparu dadansoddiad fwy manwl (nodyn 1); cysoni alldro i wariant gweithredol net yn y SOCNE, i gysylltu'r SOPS gyda'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni alldro i'r gofyn arian parod net (nodyn 3); a dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Cafodd y SOPS a'r Amcangyfrifon eu creu yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond eto'n wahanol, i IFRS. Darperir dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac ymestyniad o'r prif delerau ar dudalen 50 yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad perfformiad. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae

rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS ym mhennod 1 y Canllawiau Cyllidebu Wedi'u Cydgrynhoi, ar gov.uk.

Mae'r SOPS yn darparu golwg fanwl ar berfformiad ariannol, mewn ffurf y pleidleisir arni ac a gydnabyddir gan y Senedd. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad Perfformiad, yn darparu trafodaeth wedi'i chrynhoi o'r alldro yn erbyn amcangyfrif a swyddogaethau fel cyflwyniad i ddatgeliadau SOPS.

Bu i'r Comisiwn Etholiadol roi Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS 16) ar waith yn natganiadau ariannol 2022/23, o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, ni wnaeth y Comisiwn ymgymryd ag unrhyw brydlesi newydd.

Yn 2023-24, roedd 2 brydles heb eu cynnwys yn gywir yn y gofynion cyllidebol ar gyfer cydnabod Hawl Defnyddio'r asedau hyn ym Mhrif Amcangyfrifon ac Amcangyfrifon Atodol 2023-24. Arweiniodd yr All-droeon yn erbyn yr Amcangyfrif at orwariant o fewn y Cyfwng Gwariant Cyfalaf Adrannol (C-DEL) a gwariant y tu allan i gwmpas pleidlais o £422,000, sy'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Wariant Seneddol (SOPS).

Mae'r Rheolwyr yn cydnabod y gwall cyllidebu hwn ac wedi rhoi mesurau yn eu lle rhag i hyn ddigwydd unwaith eto. Gwnaed y penderfyniad i ddod â dwy brydles i ben a dechrau dwy brydles newydd er mwyn sicrhau gwerth am arian a sicrhau cyfleusterau addas i wneud ei waith.

Gofynnodd y Comisiwn Etholiadol am ganiatâd seneddol drwy gyfrwng Gwariant y Tu Allan i Gwmpas Pleidlais yn y Ddeddf Cyflenwi a Phriodoli nesaf.

# Tabl crynodeb 2024/25

Yr holl ffigyrau a gyflwynwyd mewn £000au

| Math o Wariant | Nodyn SoPS | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro o'i gymharu gydag Amcangyfrif, arbedion/ (dros ben) | | Cyfanswm alldro'r flwyddyn flaenorol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Wedi Pleidleisio Drosto | Heb Bleidleisio Drosto | Cyfan swm | Wedi Pleidleisio Drosto | Heb Bleidleisio Drosto | Cyfan swm | Wedi Pleidleisio Drosto | Cyfanswm | |
| Terfyn Gwariant Adrannol | | | | | | | | | | |
| - Adnodd | 1.1 | 39,695 | 230 | 39,925 | 45,706 | 251 | 45,957 | 6,011 | 6,032 | 29,328 |
| - Cyfalaf | 1.2 | 1,085 | - | 1,085 | 2,211 | - | 2,211 | 1,126 | 1,126 | 1,877 |
| Cyfan swm | | 40,780 | 230 | 41,010 | 47,917 | 251 | 48,168 | 7,137 | 7,158 | 31,205 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | | | | | | | | | |
| - Adnodd | 1.1 | 13 | - | 13 | 50 | - | 50 | 37 | 37 | (82) |
| - Cyfalaf | 1.2 | 25 | - | 25 | 100 | - | 100 | 75 | 75 | 91 |
| Cyfan swm | | 38 | - | 38 | 150 | - | 150 | 112 | 112 | 9 |
| Cyfan swm Cyllideb | | | | | | | | | | |
| - Adnodd | 1.1 | 39,708 | 230 | 39,938 | 45,756 | 251 | 46,007 | 6,048 | 6,069 | 29,246 |
| - Cyfalaf | 1.2 | 1,110 | - | 1,110 | 2,311 | - | 2,311 | 1,201 | 1,201 | 1,968 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfan swm Gwariant y Gyllideb | 40,818 | 230 | 41,048 | 48,067 | 251 | 48,318 | 7,249 | 7,270 | 31,214 |

Cyfrifir yr holl incwm a gwariant gweithredol mewn cyllidebau fel rhaglen

Mae'r ffigyrau yn y meysydd sydd wedi'u hamlinellu mewn llinell drwchus yn cwmpasu'r cyfyngiadau rheoli y pleidleisiwyd arnynt gan y Senedd. Cyfeiriwch at y Canllawiau Amcangyfrifon Cyflenwi sydd ar gael ar gov.uk am y manylion ar y cyfyngiadau rheoli y pleidleisiwyd arnynt gan y Senedd.

Mae ein gwerthoedd a amcangyfrifir yn cael eu gyrru gan weithgarwch etholiad drwy gydol y flwyddyn ac felly maent yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae Nodyn 2 o'r cyfrifon yn dangos dadansoddiad costau ar gyfer ein prif gyflawniadau.

## Gofyniad Arian Parod Net 2024/25

Yr holl ffigyrau a gyflwynwyd mewn £000au

| Eitem | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu gydag Amcangyfrif, arbedion/ (dros ben) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Arian Parod Net** | *3* | **41,044** | **46,467** | **5,423** | **28,798** |

Mae eglurhad o'r amrywiadau rhwng amcangyfrif ac alldro yn yr adroddiad perfformiad.

# Nodiadau i'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol 2024/25 (£000au)

## SoPS 1. Manylion alldro, fesul Llinell Amcangyfrif

### SoPS1.1 Dadansoddiad o alldro adnodd fesul Llinell amcangyfrif

| Math o Wariant [Adnodd] | Alldro Adnoddau Rhaglen | | | Amcangyfrifon | | | Alldro o'i gymharu gydag Amcangyfrif, arbedion/(dros ben) | Cyfanswm Alldro'r flwyddyn flaenorol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm | Trosglwyddiadau Arian | Cyfanswm yn cynnwys Trosglwyddiadau Arian | | |
| **Gwariant o fewn Terfyn Gwariant Adrannol [DEL]** | | | | | | | | |
| Gwariant y pleidleisiwyd drosto: | | | | | | | | |
| A. Gwariant craidd | 36,517 | (3,814) | 32,703 | 43,706 | (5,045) | 38,661 | 5,958 | 20,219 |
| B. Y Bil Etholiadau | 5,045 | - | 5,045 | - | 5,045 | 5,045 | - | 6,944 |
| C. Grantiau Datblygu Polisi | 1,947 | - | 1,947 | 2,000 | | 2,000 | 53 | 1,985 |
| Gwariant Heb ei Bleidleisio Drosto | | | | | | | | |
| Ch. Ffioedd y Comisiynwyr | 230 | - | 230 | 251 | | 251 | 21 | 180 |
| **Cyfanswm gwariant yn DEL** | **43,739** | **(3,814)** | **39,925** | **45,957** | | **45,957** | **6,032** | **29,328** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant y pleidleisiwyd drosto: D. Darpariaeth a grëwyd neu a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | 13 | - | 13 | 50 | | 50 | 37 | (82) |
| **Cyfanswm gwariant mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **13** | **-** | **13** | **50** | | **50** | **37** | **(82)** |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm adnoddau** | **43,752** | **(3,814)** | **39,938** | **46,007** | | **46,007** | **6,069** | **29,246** |

# SoPS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf net fesul Llinell Amcangyfrif

| Math o Wariant [Cyfalaf] | Alldro | | | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu gydag Amcangyfrif, arbedion/(dros ben) | Cyfanswm Alldro'r flwyddyn flaenorol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | | |
| **Gwariant o fewn Terfyn Gwariant Adrannol [DEL]** | | | | | | |
| Wedi Pleidleisio Drosto: | | | | | | |
| A. Y Comisiwn Etholiadol | 1,085 | - | 1,085 | 2,211 | 1,126 | 1,877 |
| **Cyfanswm gwariant yn DEL** | **1,085** | **-** | **1,085** | **2,211** | **1,126** | **1,877** |
| **Gwariant yn y Gwariant a Reolir yn Flynyddol [AME]** | | | | | | |
| Gwariant y pleidleisiwyd drosto: | | | | | | |
| C. Darpariaethau a grëwyd neu a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | 25 | - | 25 | 100 | 75 | 91 |
| **Cyfanswm gwariant mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **25** | **-** | **25** | **100** | **75** | **91** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm cyfalaf** | **1,110** | **-** | **1,110** | **2,311** | **1,201** | **1,968** |

# SoPS 2. Cysoni alldro yn erbyn gwariant gweithredu net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm alldro | Cyfanswm Alldro'r flwyddyn flaenorol 2023/24 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cyfanswm alldro Adnoddau** | **SOPS 1.1.** | 39,937 | 29,246 |
| Tynnu:<br>Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | SOPS 4 | - | |
| **Gwariant Net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | **SOCNE** | **39,937** | **29,246** |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu creu yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond eto'n wahanol, i IFRS. Gan hynny, mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro adnodd gyda'r gwariant gweithredu net, ac yn cysylltu'r SOPS â'r datganiadau ariannol.

# SoPS 3. Cysoni adnoddau alldro net yn erbyn gofynion arian parod net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm alldro | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu gydag Amcangyfrif, arbedion/ (dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm alldro Adnoddau** | **SOPS 1.1.** | **39,937** | **46,007** | **6,070** |
| **Cyfanswm Alldro Cyfalaf** | **SOPS 1.2** | **1,110** | **2,311** | **1,201** |
| *Addasiadau i ddiddymu eitemau anariannol:* | | | | |
| Dibrisio/Amorteiddiad | 3 | (1,150) | (2,036) | (886) |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr | 3 | (113) | (1,244) | (11) |
| Darpariaethau ac addasiadau newydd i'r cyfnodau blaenorol | 11 | (58) | (150) | (92) |
| Amhariad ar asedau | 3 | (25) | - | (25) |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithredol:* | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn derbyniadau | 8 | 202 | - | (202) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn eitemau taladwy | 10 | 759 | 710 | (49) |
| Defnydd o ddarpariaeth | 11 | 15 | - | (15) |
| Ad-dalu cyfalaf ar Brydlesi | 7 | 597 | 0 | (597) |
| Cyfanswm | | 41,274 | 46,718 | 5,444 |
| **Diddymu eitemau cyllideb na phleidleisiwyd arnynt:** | | | | |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol | SOPS 1.1 | (230) | (251) | (21) |
| Cyfanswm | | (230) | (251) | (21) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **41,044** | **46,467** | **5,42** |

Fel y nodwyd yng nghyflwyniad y SOPS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu cyfrif yn erbyn y fframwaith gyllidebu, nid ar sail ariannol. Gan hynny, mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf gyda'r gofyniad arian net.

## SoPS 4. Symiau yr incwm i'r Gronfa Gyfunol

Y symiau a ddangosir yn y tabl isod yw'r symiau a gasglwyd gan y Comisiwn lle'r oedd yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn hytrach nag fel pennaeth. Mae'r symiau a gesglir yn ymwneud â dirwyon a chosbau gan ymgyrchwyr gwleidyddol.  Gellir gweld y manylion llawn yn yr adroddiad Pwerau a Sancsiynau ar dudalen 53 o'r Adroddiad Perfformiad.

| Eitem | Cyfanswm alldro | Cyfanswm Alldro'r flwyddyn flaenorol 2023/24 |
|---|---|---|
| Dirwyon a chosbau | 9 | 27 |
| Swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 9 | 27 |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | 10 | 5 |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | (10) | (22) |
| **Balans a ddelir mewn ymddiriedaeth ar ddiwedd y flwyddyn** | **9** | **10** |

## Nodiadau

Cafodd yr holl ddirwyon a chosbau a dderbyniwyd erbyn 31 Mawrth 2024 eu hildio i'r Gronfa Gyfunol, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

## Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

**Colledion a thaliadau arbennig (yn ddibynnol ar archwiliad)**


Nid oedd unrhyw daliadau arbennig yr oedd angen eu datgelu i'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024/25 (2023/24 £0).

Nid oedd unrhyw golledion unigol a oedd dros £300,000 yn ystod 2024/25. (2023/24 £Dim).

**Rhwymedigaethau Wrth Gefn Annhebygol (yn ddibynnol ar archwiliad)**

Yn ogystal â'r rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol, mae'r Comisiwn hefyd yn adrodd ar rwymedigaethau y mae'r tebygolrwydd i'r trosglwyddiad o fudd economaidd yn y setliad yn annhebygol ond o fewn cwmpas IAS37.

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau wrth gefn annhebygol i'w hadrodd at bwrpas adrodd Seneddol ac atebolrwydd yn 2024-25 (2023-24 £0).



**Vijay Rangarajan**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**17 Gorffennaf 2025**

# Tystysgrif y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Senedd Cymru, dau Dŷ'r Senedd, a Senedd yr Alban

## Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan y Comisiwn Etholiadol:

- Datganiad o Sefyllfa Ariannol y Comisiwn Etholiadol ar 31 Mawrth 2025;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llifoedd Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiwn Etholiadol ar 31 Mawrth 2025 ac o'i wariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan hynny.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys:

- Mae'r Datganiad o Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, ac mae'n dangos nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a

gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Fe gynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU) (ISAs UK), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10, *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024).* Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn adran *cyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Moesegol Diwygiedig 2024* y Cyngor Adrodd Ariannol*.* Rwyf yn annibynnol ar y Comisiwn Etholiadol, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill, yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi'i chasglu o'r archwiliad yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Comisiwn Etholiadol o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Comisiwn Etholiadol i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer y Comisiwn Etholiadol yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF, sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw’n cynnwys y datganiadau ariannol a’m tystysgrif i fel archwiliwr arnynt. Mae’r Swyddog Cyfrifyddu’n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a’r datganiadau ariannol, neu’r wybodaeth rwyf wedi’i chael yn yr archwiliad, neu sy’n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall.

Os byddaf yn canfod anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys ymddangosiadol o’r fath, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith rwyf wedi’i wneud, rwy’n dod i’r casgliad bod camddatganiad o bwys o’r wybodaeth arall hon, mae’n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i’w adrodd i’r perwyl hwn.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae’r rhan o’r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i’w harchwilio wedi’i pharatoi’n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;
- mae’r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Comisiwn Etholiadol a’i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i mi roi gwybod i chi os wyf yn credu:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw gan y Comisiwn Etholiadol, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad yw rhai o'r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF wedi'u gwneud, neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni ac sy'n berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol, e.e. cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi'r wybodaeth a'r esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at y rhai hynny o fewn y Comisiwn Etholiadol y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath reolaethau mewnol ar waith fel yr ystyrir sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;
- paratoi yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaethpwyd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000; ac

- asesu gallu'r Comisiwn Etholiadol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai fod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn Etholiadol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a rhoi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu dod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

## Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiadau o bwys ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, fe wnes i'r canlynol:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn Etholiadol;

- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Comisiwn Etholiadol a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Comisiwn Etholiadol ar:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll;
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau'r Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud â chydymffurfiad y Comisiwn Etholiadol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Comisiwn Etholiadol a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, a oeddent:
  - yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn y Comisiwn Etholiadol ar gyfer twyll, a nodais fod y posibilrwydd mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio dyddlyfrau anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan ISA (y DU), mae'n ofynnol i mi ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Comisiwn Etholiadol, a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Comisiwn Etholiadol yn gweithredu yn unol â hwy. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Comisiwn Etholiadol. Rhai o'r cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn oedd Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cyflenwi ac Adfeddiannu (Prif Amcangyfrifon) 2024, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau a threth.

## Ymateb yr archwiliad i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais ddatgeliadau'r datganiad ariannol a'r profion i ddogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a rhai posibl;

- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd, ac adroddiadau archwilio mewnol;
- Rhoddais sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, trwy brofi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; gan asesu a yw'r penderfyniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg busnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol; ac
- Fe wnes i gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth briodol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad o Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n gywir yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd, ac nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Anghyllidebol (Adnoddau) a Gofynion Arian Net.

Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth archwilio briodol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys o ran rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

**Cyfieithiad Cymraeg**

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae y Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

**Gareth Davies** **Dyddiad 18/07/2025**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

Llundain

SW1W 9SP

# Y datganiadau ariannol



# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Nodyn | 2024/25 | Ailddosbarthu 2023/24 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Incwm gweithredu – Llywodraeth yr Alban | 4 | (2,158) | (1,997) |
| Incwm gweithredu - Senedd | 4 | (1,552) | (1,449) |
| Incwm gweithredu arall | 4 | (104) | (24) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | (3,814) | (3,470) |
| Costau staff | 3 | 16,407 | 15,044 |
| Prydlesi | 3 | 130 | 142 |
| Prynu Nwyddau a Gwasanaethau | 3 | 23,650 | 14,215 |
| Cost dibrisiant ac amorteiddiad | 3 | 1,150 | 1,064 |
| Amhariad ar asedau | 3 | 25 | - |
| Eitemau eraill di-arian | 3 | 144 | 127 |
| Costau Darparu | 3 | 2 | (95) |
| Gwariant gweithredu arall | 3.1 | 1,947 | 1,985 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | 43,455 | 32,482 |
| **Gwariant gweithredu net** | | 39,641 | 29,012 |
| Ffioedd y comisiynwyr | | 230 | 180 |
| Costau Ariannol ar gyfer prydlesi | 3 | 66 | 54 |
| **Gwariant net ar gyfer y flwyddyn** | | 39,937 | 29,246 |

**Gwariant net cynhwysfawr arall**

Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i weithredu net gwariant:


| | | | |
|---|---|---|---|
| Enillion/colledion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn | *11* | (5) | - |
| **Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | 39,932 | 29,246 |

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' ar dudalennau 162 i 164 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol

| **Ar 31 Mawrth 2025** | **Nodyn** | **31 Mawrth 2025 £000** | **31 Mawrth 2024 £000** |
|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | *5* | 1,933 | 1,426 |
| Asedau anniriaethol | *6* | 546 | 499 |
| Asedau Hawl i'w Defnyddio | *7* | 3,902 | 4,522 |
| ***Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol*** | | 6,381 | 6,447 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Masnach a derbyniadau eraill | *8* | 1,136 | 934 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | *9* | 28 | 84 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | 1,164 | 1,018 |
| **Cyfanswm asedau** | | 7,545 | 7,465 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | *10* | (3,307) | (4,123) |
| Darpariaethau | *11* | - | - |
| Rhwymedigaethau Prydlesu | *7* | (618) | (606) |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | (3,925) | (4,729) |
| **Cyfanswm asedau ar ôl tynnu rhwymedigaethau cyfredol** | | 3,620 | 2,736 |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau Prydlesu | *7* | (3,133) | (3,742) |
| Darpariaethau | *11* | (802) | (764) |
| Symiau taladwy eraill | *10* | - | - |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol*** | | (3,935) | (4,506) |
| **Cyfanswm Asedau ar ôl tynnu rhwymedigaethau** | | (315) | (1,770) |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (315) | (1,770) |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm ecwiti'r trethdalwyr** | (313) | (1,770) |



**Vijay Rangarajan**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**25 Gorffennaf 2025**

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' ar dudalennau 165 i 171 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad Llif Arian

| Ar 31 Mawrth 2025 | | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | | (39,641) | (29,012) |
| Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn arian parod | *3* | 1,321 | 1,096 |
| Ffioedd y Comisiynwyr | | (230) | (180) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a derbyniadau eraill | *8* | (202) | (131) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau taladwy masnach | *10* | (792) | 1142 |
| Llai o eitemau yn cael eu hailddosbarthu fel gweithgareddau ariannu | | (3,715) | (3,474) |
| *Llai o symudiadau mewn derbyniadau a symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn symud drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr* | | 58 | (82) |
| Defnydd o ddarpariaethau | *11* | (15) | (14) |
| ***Llif arian allan net o weithgareddau gweithredu*** | | (43,216) | (30,655) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | *5* | (810) | (1,124) |
| Prynu asedau anniriaethol | *6* | (275) | (88) |
| Symudiad mewn Croniadau Cyfalaf | | 24 | 27 |
| ***Llif arian allan net o weithgareddau buddsoddi*** | | (1,109) | (1,185) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwi) - blwyddyn gyfredol | | 40,988 | 28,873 |
| Ad-dalu prifswm ar brydlesi | | (597) | (563) |
| Llog sy'n daladwy ar brydlesi cyllid | | (66) | (54) |
| O'r Gronfa Gyfunol (Ddim yn Cyflenwi) | | 230 | 180 |
| O Weinyddiaethau Datganoledig | | 3,715 | 3,474 |
| ***Mewnlif arian net o weithgareddau cyllid*** | | 44,270 | 31,910 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a chyfatebol i arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | (55) | 70 |
| Dirwyon a chosbau a dderbyniwyd ar ran y Gronfa Gyfunol | | 9 | 27 |
| Taliadau symiau i'r Gronfa Gyfunol | | (10) | (22) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a chyfatebol i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasu i dderbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | (56) | 75 |
| **Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | *9* | 84 | 9 |
| **Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | | 28 | 84 |

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' ar dudalennau 162 i 171 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr

| Y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Nodyn | Cyffredinol Cronfa £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | | (1,602) |
| Cyllid Seneddol Net – tynnwyd i lawr | | 28,873 |
| Cyllid Seneddol Net – pennwyd | | 9 |
| Blwyddyn Gyfredol Gwasanaethau Sefydlog Cronfa Gyfunol (ddim yn cyflenwi) | | 180 |
| Addasiad Cyflenwad sydd i'w Dalu | *10* | (84) |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn | *SoCNE** | (29,246) |
| **Addasiadau nad ydynt yn Arian Parod:** | | |
| Costau nad ydynt yn arian parod – tâl yr archwilydd | *3* | 100 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | (1,770) |
| Cyllid Seneddol Net – tynnwyd i lawr | | 40,988 |
| Cyllid Seneddol Net – pennwyd | *10* | 84 |
| Blwyddyn Gyfredol Gwasanaethau Sefydlog Cronfa Gyfunol (ddim yn cyflenwi) | *SoCNE** | 230 |
| Addasiad Cyflenwad sydd i'w Dalu | *10* | (28) |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn | *SoCNE* | (39,932) |
| **Addasiadau nad ydynt yn Arian Parod:** | | |
| Costau nad ydynt yn arian parod – tâl yr archwilydd | *3* | 113 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | (315) |

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' ar dudalennau 162 i 169 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

** Ffioedd y Comisiynwyr*

# Nodiadau i’r Cyfrifon Adnoddau

## 1. Polisïau cyfrifyddu, dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu allweddol

### 1.1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Caiff y datganiadau eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2024-25 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Mae’r polisïau cyfrifyddu yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol fel yr addaswyd neu y’u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan mae’r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu a ddyfarnir yr un mwyaf priodol i sefyllfaoedd penodol y Comisiwn Etholiadol at y diben o roi darlun gwir a theg wedi ei ddewis.

Mae’r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Etholiadol wedi’u disgrifio isod. Maent wedi eu cymhwyso’n gyson wrth ddelio ag eitemau y’u hystyrir yn berthnasol i’r cyfrifon.

### 1.2 Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, oni nodir yn wahanol yn y polisïau cyfrifyddu. Cyflwynwyd ffigurau mewn punnoedd ac maent wedi eu talgrynnu i’r £1,000 agosaf.

Cânt eu paratoi yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a roddir gan Drysorlys EF yn unol â Pharagraff 17(2) Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

### 1.3. Datganiadau cyfrifyddu wedi’u cyhoeddi ond heb fod yn effeithiol eto

Mae un safon gyfrifyddu wedi ei chyhoeddi ond heb fod yn effeithiol eto:

- Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 17 (IFRS17) (Contractau Yswiriant)

Mae IFRS17 (effeithiol yn yr FReM 2025-26) yn nodi contractau yswiriant, y contractau y mae’r endid yn derbyn risg yswiriant sylweddol gan barti arall. Nid yw’r Comisiwn yn meddu ar y math hwn o gontract ar hyn o bryd ac nid oes disgwyl i hyn gael ei newid o ganlyniad i weithredu’r safon hon.

- Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 18 (IFRS 18) (Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol)

  Bydd IFRS 18 Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol yn disodli IAS 1

Cyflwyno Datganiadau Ariannol ac mae mewn grym ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy’n dechrau ar 1 Ionawr 2027, neu ar ôl y dyddiad hwn, yn y sector preifat. Nid yw dyddiad gweithredu'r Sector Cyhoeddus wedi ei gadarnhau eto. Mae effaith IFRS 18 ar y Sector Cyhoeddus yn parhau i gael ei hasesu.

- Bydd newidiadau i FReM 2025-26 yn cael eu gwneud mewn perthynas â gwerthuso prisio asedau nid er buddsoddiad.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Trysorlys EF dogfen ddrafft i ddangos newidiadau posibl i brisio a chyfrifyddu ar gyfer asedau nid er buddsoddiad (e.e. PPE, asedau anniriaethol). Mae’r newidiadau canlynol i brisio a chyfrifyddu asedau nid er buddsoddiad i'w cynnwys yn yr FReM 2025-26 ar gyfer gweithredu gorfodol:

Mae cyfeirio at asedau yn cael eu cadw ar gyfer eu ‘potensial gwasanaeth’ a’r termau asedau ‘arbenigol/nad ydynt yn arbenigol’ yn cael eu tynnu o’r FReM. Mae asedau nid er buddsoddiad yn hytrach yn cael eu disgrifio fel asedau y’u cedwir ar gyfer eu ‘capasiti gweithredol’. Nid yw’r newid hwn yn cael unrhyw effaith ar y sail brisio ar gyfer asedau nid er buddsoddiad, sy’n parhau yn Werth Defnydd sy’n Bodoli.

Bydd addasiad i IAS 16 yn cael ei gyflwyno er mwyn tynnu’r gofyn i ailbrisio ased lle mae ei werth teg yn gwahaniaethu’n sylweddol i'w werth cario. Caiff asedau bellach eu prisio gan ddefnyddio un o’r prosesau canlynol:

- Ailbrisio bob pum mlynedd yn cael ei ategu gan fynegeio blynyddol.
- Rhaglen dreigl o brisio dros gylchred 5 mlynedd, gyda mynegeio blynyddol yn cael ei gymhwyso i asedau yn ystod y 4 mlynedd gyfamserol.
- Mynegeion priodol, dim ond ar gyfer asedau nad ydynt yn eiddo.
- Dan amgylchiadau prin lle nad yw mynegai ar gael, ailbrisio bob pum mlynedd wedi ei ategu gan ailbrisio bwrdd gwaith ym mlwyddyn 3.
- Mae’r opsiwn i fesur asedau anniriaethol gan ddefnyddio’r model ailbrisio wedi ei dynnu’n ôl. Bydd gwerth cario asedau anniriaethol ar 31 Mawrth 2025 yn cael ei ystyried fel y gost hanesyddol ar 1 Ebrill 2025.

- Budd-daliadau cymdeithasol

Bydd FReM 2025-26 yn cynnwys arweiniad newydd ar gyfrifyddu budd-daliadau cymdeithasol. Bydd FReM 2025-26 yn diffinio budd-daliadau cymdeithasol fel ‘trosglwyddiadau cyfredol a dderbyniwyd gan gartrefi (gan gynnwys unigolion) gyda’r bwriad i ddarparu ar gyfer anghenion sy’n deillio o ddigwyddiadau neu amgylchiadau penodol, er enghraifft, salwch, diweithdra, ymddeoliad, tai, addysg, neu amgylchiadau teuluol.'

Mae FReM 2025-26 yn egluro y dylai gwariant o ran taliadau budd-daliadau cymdeithasol gael ei gydnabod yn ystod y pwynt y mae hawliwr y budd cymdeithasol yn bodloni’r gofynion cymhwysedd i dderbyn y budd-dal. Dim ond y gwariant ar gyfer y cyfnod hawlio sy’n disgyn o fewn y flwyddyn gyfrifyddu y dylid ei gydnabod. Mae'r rheolwyr wedi asesu effaith debygol y safon newydd ac wedi dod i'r casgliad nad yw'r Comisiwn yn ysgwyddo

unrhyw wariant a ddosbarthir fel taliadau budd-daliadau cymdeithasol, ac felly ni fydd gan y safon hon fawr ddim effaith ar y datganiadau ariannol.

## Polisïau cyfrifyddu ar gyfer gwariant

### 1.4 Gwariant rhaglen

Rydym wedi cynhyrchu'r Cyfrifon hyn gyda manylion digonol i ddarparu darlun gwir a theg o'n gweithredoedd.

At ddibenion cyllidebu, rydym yn gwahaniaethu rhwng ein costau gweithredu craidd a gweithgareddau perthnasol i ddigwyddiadau. Yn y cyfrifon hyn, rydym wedi nodi'r costau cynnal craidd fel gwariant (nodyn 3) ac rydym wedi nodi gweithgareddau perthnasol i ddigwyddiadau fel costau gweithredu eraill (nodyn 3.1.).

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys costau y'u hysgwyddwyd ac unrhyw incwm gweithredu cysylltiedig.

### 1.5 Costau staff

Mae costau staff yn cynnwys tâl a chyflog, costau nawdd cymdeithasol a chostau pensiwn. Bydd holl gostau staff tymor byr sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a gaiff eu talu o fewn blwyddyn o'r dyddiad adrodd, yn cael eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw hawliau gwyliau cronnus.

### 1.6 Pensiynau

Mae darpariaeth Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gymwys i weithwyr presennol a'r gorffennol. Mae PCSPS yn gynllun aml-gyflogwyr â buddion wedi'u diffinio ac nid yw'n bosibl adnabod cyfran asedau a rhwymedigaethau'r Comisiwn, mae felly yn cael ei gyfrif fel cynllun cyfraniadau diffiniedig gyda thaliadau yn cael eu nodi yn y cyfnod y maent yn dod yn ddyledus.

Cyfeiriwch at nodyn 11.1. ar gyfer triniaeth cyfrifyddu'r pensiwn ar gyfer cyn-weithwyr Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr oherwydd trosglwyddiad ei swyddogaethau i'r Comisiwn Etholiadol ar 1 Ebrill 2002 ac ymgorfforiad ei asedau a'i rwymedigaethau o'r dyddiad hwnnw.

### 1.8 Ymchwil a datblygu

Mae gwariant ar ymchwil yn cael ei roi i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y'i hysgwyddwyd. Mae gwariant datblygu hefyd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan ysgwyddir ef, oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer cyfalafu yn ôl safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

### 1.9 Grantiau sy'n daladwy

Mae grantiau sy'n daladwy yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r gweithgarwch neu ddigwyddiad dan sylw sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd. Yr unig grant yr ydym yn ei dalu ar hyn o bryd yw'r Grant Datblygu Polisi a nodir yn nodyn 3.1.

### 1.10 Treth Ar Werth (TAW)

Mae'r gwaith a wneir gan y Comisiwn Etholiadol yn cael ei wneud dan statud a thu allan i gwmpas TAW wrth werthu. Caiff TAW wrth brynu ei chodi ar y categori gwario perthnasol, neu os yn briodol ei chyfalafu gydag ategion i asedau nad ydynt yn gyfredol. Mae incwm a gwariant yn cael eu hadrodd yn gynhwysol o TAW.

## Polisïau cyfrifyddu ar gyfer incwm

### 1.11 Incwm

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn rhoi arian i'r Comisiwn ar gyfer costau y'u hysgwyddwyd mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoli yng Nghymru a'r Alban. Ystyrir yr arian hwn yn gydwedd â grant llywodraeth dan IAS 20 gan fod gan y Comisiwn hawl i incwm lle mae wedi ysgwyddo costau wrth gyflawni'r amcanion hynny. Caiff arian ei dynnu i lawr yn erbyn cyllideb sy'n cynrychioli rhagolwg gwario drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod yr arian a dderbyniwyd fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau y mae wedi ariannu gwariant uniongyrchol y Comisiwn a dosrannu gwariant uniongyrchol fel y cytunwyd yn y Datganiad o Egwyddorion Ariannu. Pan mae swm yr arian sydd wedi ei dynnu i lawr yn mynd yn fwy na'r gwariant, caiff y gwahaniaeth hwn ei gydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol fel incwm wedi'i ohirio.

Nid yw incwm gweithredu yn cynnwys incwm a gasglwyd ar gyfer dirwyon a chosbau gan bleidiau gwleidyddol, gan fod y rhain i'w talu'n llawn i'r Gronfa Gyfunol wrth eu derbyn.

## Polisïau cyfrifyddu ar gyfer asedau a rhwymedigaethau

### 1.12 Eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol

Mae gwariant o £1,000 neu ragor ar eiddo, offer a chyfarpar neu asedau anniriaethol yn cael ei gyfalafu lle mae disgwyl iddo ddod â budd dros flynyddoedd y dyfodol. O ran cydnabyddiaeth gychwynnol, caiff asedau eu mesur yn ôl cost ac maent yn cynnwys pob cost sy'n priodoli'n uniongyrchol i ddod â nhw i gyflwr gweithio.

Mae pob ased nad yw'n gyfredol yn cael ei adolygu'n flynyddol am amhariad ac yn cael ei gario ar gost hanesyddol dibrisiant. Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu dibrisio, ac asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio, ar sail llinell syth am gyfnod eu hoes ddefnyddiol.

Caiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu cyfalafu pan ddônt ar gael i'w defnyddio a byddant yn cynhyrchu buddion economaidd yn y dyfodol.

### 1.13 Dibrisio ac amorteiddio

Nodir adeiladau, offer a pheiriannau yn ôl eu gwerth cost. Caiff asedau gweithredol nad ydynt yn eiddo eu prisio ar sail cost hanesyddol dibrisiant fel procsi ar gyfer gwerth teg. Mae hyn oherwydd bod y rhain yn asedau gydag oes eithaf byr neu o werth isel ac nad yw eu gwerthoedd yn amrywio'n sylweddol yn ystod y cyfnod y'u defnyddir.

Mae ased anniriaethol yn ased nad yw'n ffisegol. Yn y Comisiwn Etholiadol, mae asedau anniriaethol yn cynnwys trwyddedau ar gyfer hawliau i ddefnyddio meddalwedd neu gostau datblygu ein meddalwedd ein hunain. Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes economaidd ddefnyddiol. Caiff costau dibrisio ac amorteiddio eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr dan gostau gweithredu.

Oes asedau yw:

| | |
|---|---|
| Eiddo Llesddaliadol/Gwelliant | yn ôl tymor y brydles |
| Cyfarpar Swyddfa | 5 |
| Caledwedd TG | 3 |
| Gosodiadau a ffitiadau* | 10 |
| Asedau anniriaethol (technoleg gwybodaeth, trwyddedau meddalwedd a gwefannau) | 3 |
| Asedau anniriaethol mewnol | 10 |

#### Trwyddedau meddalwedd

Pan brynwn drwyddedau meddalwedd parhaus yr ydym yn eu llwyr berchnogi, mae'r trwyddedau yn cael eu cydnabod fel asedau anniriaethol ar yr adeg y caiff y trwyddedau eu rhoi ac fe allwn elwa arnyn nhw.

#### Meddalwedd a ddatblygir yn fewnol

Pan ddatblygwn ein meddalwedd ein hunain, caiff ased anniriaethol ei gydnabod yn unol ag IAS 38 (Asedau Anniriaethol) lle allwn arddangos:

- ei fod yn dechnegol ddichonol i gwblhau'r feddalwedd ac mae ar gael i'w ddefnyddio
- y bydd ar gael i'w ddefnyddio a bydd yn cynhyrchu buddion economaidd yn y dyfodol; a

- y gellir mesur y costau datblygu mewn ffordd ddibynadwy

Caiff costau ymchwil sy'n gysylltiedig â phrosiectau datblygu eu talu fel y'u hysgwyddir; mae hyn yn cynnwys unrhyw weithgareddau dadansoddi ac ymgysylltu â'r farchnad ac unrhyw gostau caffael neu reoli prosiectau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r cam ymchwil.

### Gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl

Pan wnawn daliadau mewn perthynas â defnyddio gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl a brynwyd gan wasanaeth trydydd parti, nid yw'r rhain wedi eu cyfalafu gan nad oes gennym deitl cyfreithiol i'r asedau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn, na'r hawl i'w rheoli. Mae hyn yn cynnwys costau gweithredu cysylltiedig, megis teilwra, cyflunio neu wasanaethau hyfforddiant, sy'n ein galluogi i elwa ar y gwasanaeth cyfrifiadura cwmwl.

## 1.14 Prydlesi

Mae IFRS 16 yn ei gwneud hi'n ofynnol i endid gydnabod ased yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol sy'n berthnasol i gontractau sy'n brydles ased a nodir, fel eiddo, cerbydau neu gyfarpar, neu'n eu cynnwys. Caiff rhwymedigaeth brydles gyfatebol ei chydnabod ar yr un pryd, gan ei mesur drwy ddefnyddio gwerth presennol y taliadau prydles nad ydynt wedi eu talu eto.

**Asedau hawl i'w ddefnyddio / rhwymedigaeth brydles:**

**Cydnabyddiaeth gychwynnol:**

Lle mae prydles wedi ei nodi, mae'r Comisiwn Etholiadol yn cydnabod ased hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaeth brydles gyfatebol, yn seiliedig ar werth presennol llif arian y dyfodol ar gyfer pob prydles dros dymor y brydles berthnasol. Mae addasiad yn cael ei wneud i'r ased hawl ei ddefnyddio ar gyfer rhagdaliadau.  Nid yw dadfeiliadau yn rhan o'r asedau hawl i'w defnyddio a adnabuwyd ar y dyddiad gweithredu ar 1 Ebrill 2022, fodd bynnag dan IFRS16, dylai dadfeiliadau ar brydlesi newydd gael eu cyfalafu i'r ased hawl i'w ddefnyddio.

Mae taliadau ar gyfer prydlesi tymor byr, y prydlesi hynny sy'n llai na blwyddyn, a phrydlesi y mae'r ased sylfaenol o werth isel yn cael eu costio. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cymhwyso trothwy o £5,000 ar gyfer asedau gwerth isel.

Lle na ellir pennu cyfradd llog mewn prydles yn hawdd, mae'r Comisiwn Etholiadol yn cyfrifo'r rhwymedigaeth gan ddefnyddio cyfraddau disgownt Trysorlys EF a gyhoeddwyd yn y papurau PES fel y gyfradd fenthyg gynyddol. Ar gyfer prydlesi sy'n dechrau yn 2024-25, neu'n cael eu hail-fesur, y gyfradd yw 4.72%. Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn cymhwyso IFRS 16 i brydlesi asedau Anniriaethol ac mae'n cydnabod y rhain yn unol ag IAS 38 lle bo'n briodol.

**Mesuriad dilynol:**

Fel y caniateir gan yr FReM, caiff asedau hawl-i-ddefnyddio eu mesur yn ddilynol gan ddefnyddio'r model costau fel procsi ar gyfer mesur y gwerth mewn defnydd. Mae hyn oherwydd bod telerau prydlesu yn gofyn i daliadau prydlesu gael eu diweddaru ar gyfer amodau'r farchnad, er enghraifft, adolygiadau rhent ar gyfer eiddo ar brydles.

Ar hyn o bryd, mae gennym ein pedwar eiddo ar brydles, sydd wedi eu prisio yn ôl cost, 3 Bunhill Row Llundain, Tŷ James William Caerdydd, City Chambers Caeredin a 49 Queen's Square Belfast. Mae ein prydlesi eiddo am gyfnod o 10 mlynedd gyda chytundebau terfynu hanner ffordd. Rydym yn cymryd y bydd ein prydlesi yn parhau am gyfnod llawn y brydles. Mae'r rhwymedigaethau prydlesi yn datod dros y tymor prydlesu wrth i daliadau gael eu gwneud a chostau ariannu gael eu rhyddhau. Gweler nodyn 7.

Ni ail-fesurwyd unrhyw brydlesi parhaus yn ystod 2024-25.

## 1.15 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys balans presennol a gedwir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

## 1.16 Offer ariannol

### Asedau ariannol

Mae symiau masnach a derbyniadau eraill yn cael eu hadnabod dan IFRS 9. Fel arfer, telerau 30 diwrnod ydynt a chânt eu cydnabod a'u cario ar werth gwreiddiol yr anfoneb ar ôl tynnu lwfans ar gyfer unrhyw symiau na ellir eu casglu yn seiliedig ar asesiad colled credyd disgwyliedig dros oes y ddyled. Ar 31 Mawrth 2025, nid oes angen unrhyw ddarpariaeth ar gyfer colled credyd.

### Rhwymedigaethau ariannol

I ddechrau, rydym yn cydnabod symiau masnach a symiau taladwy eraill yn ôl cost, lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, wedyn rydym yn mesur pethau taladwy ar gost wedi'i hamorteiddio.

Gan fod ein gofynion arian parod yn cael eu bodloni drwy'r broses amcangyfrifo, mae offer ariannol yn llai pwysig ac yn llai o risg na mewn corff sector cyhoeddus o'r un maint.

Nid oes gennym bwerau i fenthyca nac i fuddsoddi cronfeydd gwarged. Mae'r mwyafrif o offer ariannol yn berthnasol i gontractau ar gyfer eitemau nad ydynt yn ariannol yn unol â'n gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig; felly, mae ein risg marchnad, hylifedd neu gredyd yn isel.

Nid ydym yn meddu ar unrhyw offer ariannol cymhleth. Yr unig offer ariannol ar wahân i arian sydd wedi ei gynnwys yn y cyfrifon hyn yw derbyniadau a phethau taladwy (gweler nodiadau 8 a 10)

# Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu

### 1.17 Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu

Rydym wedi trafod a chytuno ar ddatblygu, dethol a datgelu dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a chymhwyso'r dyfarniadau hyn gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Datgelir nodyn 1.14 y dyfarniadau allweddol ar gyfer cydnabod a mesur asedau hawl i'w defnyddio a rhwymedigaethau prydlesu.

Fel yr amlinellir yn Nodyn 11.2, rydym yn cydnabod rhwymedigaeth i wneud taliadau dadfeilio i berchnogion eiddo ein lleoliadau swyddfa pan ddaw prydlesi unigol i ben. Mae taliadau o'r fath yn adlewyrchu cost ddisgwyliedig adfer yn llawn addasiadau ac addurniadau ar gyfer tenant ar yr adeg gadael. Mae'r tîm rheoli wedi asesu'r lefel ddarpariaeth yn seiliedig ar asesiad proffesiynol o gostau'r dyfodol gan syrfëwr siartredig.

### 1.18 Rhwymedigaethau ac asedau digwyddiadol

Datgelir rhwymedigaethau ac asedau digwyddiadol yn unol â Safon 37 Cyfrifyddu Rhyngwladol (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol).

Lle mae gwerth amser arian yn arwyddocaol, caiff rhwymedigaethau digwyddiadol, y mae gofyn iddynt gael eu datgelu dan IAS 37, eu nodi ar symiau gostyngedig.

Datgelir ased digwyddiadol pan mae ased posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau'r gorffennol a bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau yn unig gan ddigwyddiad neu ddiffyg digwyddiad un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt dan reolaeth lwyr yr endid.

### 1.19 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau

Rydym yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd o amseru neu nifer ansicr ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gwario gorau sy'n angenrheidiol i setlo'r rhwymedigaeth. Mae darpariaethau o'r fath yn cael eu gostwng i werth cyfredol pan mae gwerth amser arian yn arwyddocaol.

Yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr i'r Comisiwn Etholiadol ar 1 Ebrill 2002 ac ymgorffori ei asedau a'i rwymedigaethau o'r dyddiad hwnnw gan ddefnyddio IAS19, mae darpariaeth wedi ei sefydlu i fodloni ei rwymedigaethau o ran taliadau pensiwn i Gyn-gomisiynwyr penodol yr endid hwnnw, dangosir datgeliadau perthnasol yn nodyn 11.1

### 1.20 Busnes Gweithredol

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r Datganiad Sefyllfa Ariannol fel y mae ar 31 Mawrth 2025 yn dangos bod sefyllfa rwymedigaeth net. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu bodloni drwy ddarparu cyllid cyflenwi yn y dyfodol.

Cafodd ein Prif Amcangyfrif ei roi gerbron y Senedd ar 3 Ebrill 2025 ar gyfer yr adnoddau yr ydym eu hangen yn 2025/26 a'n Cynllun Corfforaethol tan 2029/30. Fel corff a

sefydlwyd drwy ddeddfwriaeth ac yn dilyn egwyddorion yr FReM, mae lle i dybio bod darpariaeth y gwasanaeth yn parhau, nid oes unrhyw beth i awgrymu y bydd gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn yn dod i ben neu ni ddarperir cyllid yn y dyfodol.

# 2. Datganiad o Gostau Gweithredu gan Adrannau Gweithredu

Rydym yn adrodd gwariant rhwng ein nodau craidd. Yn ogystal, mae’r dadansoddiad yn nodi costau ymylol y cyflawniadau allweddol canlynol a reolwn drwy rannau ffurfiol a threfniadau rheoli prosiect. Caiff y rhain eu nodi isod.

Mae’r adran refferenda ac etholiadau lleol yn llywodraethu ein gwaith i sicrhau refferenda ac etholiadau sy’n cael eu rhedeg yn dda, yn darparu arweiniad a chymorth i weithredwyr, ymgeiswyr a gweinyddwyr etholiadol, gan ddatblygu a monitro safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a chynhyrchu adroddiadau ar weinyddiaeth etholiadau a refferenda. Mae’r gweithgarwch cofrestru etholiadol yn cefnogi ein gwaith dylunio ac ymchwil ar ffurflenni i bleidleiswyr.

Nid ydym yn priodoli costau staff a gorbenion corfforaethol i weithgarwch prosiect neu raglen, ond at ddibenion y nodyn hwn, rydym naill ai wedi neilltuo’n uniongyrchol neu ddosrannu’r costau hyn fel sy’n briodol, rhwng cyllid etholiad plaid a gweithgarwch gweinyddiaeth etholiadol. Rydym yn adrodd am gostau cyflawni ymylol yn unig gan raglen a phrosiect i Fwrdd a Thîm Gweithredol y Comisiwn.

| | | | | | | | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £000 | Refferenda ac Etholiadau Lleol | Cofrestr Etholiadol | Etholiad Cyffredinol Senedd y DU Etholiad | Deddf Etholiadau | Gweinyddu Etholiadol | Rheoleiddiad | Cyfanswm |
| Gwariant Gros | 3,224 | 3,549 | 8,421 | 5,089 | 10,305 | 13,163 | 43,751 |
| Incwm | (60) | - | - | (44) | (1,733) | (1,977) | (3,814) |
| Gwariant Net | 3,164 | 3,549 | 8,421 | 5,045 | 8,572 | 11,186 | 39,937 |

| £000 | Refferenda ac Etholiadau Lleol | Cofrestr Etholiadol | Deddf Etholiadau | Gweinyddu Etholiadol | Rheoleiddiad | 2023/24 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | 4,602 | 230 | 6,944 | 9,005 | 11,935 | **32,716** |
| **Incwm** | (388) | (53) | - | (1,395) | (1,634) | **(3,470)** |
| **Gwariant Net** | 4,214 | 177 | 6,944 | 7,610 | 10,301 | **29,246** |

Fel dadansoddiad pellach, mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad gwariant ac incwm rhwng y Senedd, Senedd y DU a Senedd yr Alban.

| £000 | Senedd y DU | Senedd yr Alban | Y Senedd | 2024/25 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Uniongyrchol** | 31,101 | 1,206 | 946 | **33,253** |
| **Gwariant Anuniongyrchol** | 8,940 | 952 | 606 | **10,498** |
| **Incwm** | (3,814) | - | - | **(3,814)** |
| **Gwariant Net** | 36,227 | 2,158 | 1,552 | **39,937** |

| £000 | Senedd y DU | Senedd yr Alban | Y Senedd | 2023/24 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Uniongyrchol** | 21,365 | 1,181 | 964 | **23,510** |
| **Gwariant Anuniongyrchol** | 7,905 | 816 | 485 | **9,206** |
| **Incwm** | (3,470) | - | - | **(3,470)** |
| **Gwariant Net** | 25,800 | 1,997 | 1,449 | **29,246** |

Gwariant anuniongyrchol yw costau staffio anuniongyrchol a dibrisiant. Derbynia Lywodraeth y DU incwm gan y Senedd a Senedd yr Alban.

# 3. Gwariant

| | 2024/25<br>£000 | Ailddosbarthu<br>2023/24<br>£000 |
|---|---|---|
| **Costau staff**** | | |
| Taliadau a chyflogau | 12,021 | 11,056 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,320 | 1,443 |
| Costau pensiwn eraill | 3,066 | 2,545 |
| | 16,407 | 15,044 |
| **Gwariant ar brydlesi** | | |
| Rhent eiddo | 123 | 135 |
| Cyfarpar | 7 | 7 |
| Llog ar brydlesi | 66 | 54 |
| | 196 | 196 |
| **Pryniant nwyddau a gwasanaethau** | | |
| Gwariant Adran 13 | 16,661 | 8,811 |
| Gwariant Adran 10 | 60 | 370 |
| Ymchwil | 347 | 434 |
| Ymgynghoriaeth | 547 | 495 |
| Recriwtio | 291 | 289 |
| Datblygu a hyfforddi staff | 348 | 253 |
| Lletygarwch a threuliau teithio | 245 | 150 |
| Teithio a chynhaliaeth – Comisiynwyr | 18 | 26 |
| Llety, cynnal a chadw | 868 | 797 |
| Cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau | 1,748 | 400 |
| Cynadleddau/cyfarfodydd cyhoeddus | 79 | 47 |
| Cyflenwadau swyddfa, llyfrau a chyfnodolion | 120 | 122 |
| Warws ac Archifo | 109 | 113 |
| TG/Ffôn | 2,005 | 1,793 |
| Costau Banc a Chyflogres | 89 | 71 |
| Ffioedd archwiliad allanol | 115 | 45 |
| | 23,650 | 14,216 |
| **Eitemau di-arian** | | |
| Dibrisiant | 974 | 874 |
| Costau amorteiddio | 176 | 190 |
| Effaith ddisgowntio | 31 | 27 |
| Ffioedd Archwilwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol* | 113 | 100 |
| Darpariaethau a wnaed yn y flwyddyn | 16 | (95) |
| Amhariad Asedau | 25 | - |

| | | |
|---|---|---|
| | 1,321 | 1,096 |
| | 41,574 | 30,552 |

* Dim gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio wedi'u darparu gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
**Yn 2024/25, ni chafodd unrhyw gostau staff eu cyfalafu (2023/24 £DIM)

Ni wnaed unrhyw daliadau yn ystod 2024/25 ar gyfer ymddeoliad cynnar neu golli swyddfa. (2023/24 £27k ar gyfer ymddeoliad cynnar neu £110k am golli swyddfa).

Am ddatgeliad mwy manwl ynghylch costau staff, cyfeiriwch at yr adroddiad atebolrwydd.

### 3.1 Gwariant Gweithredu Arall

| | 2024/25<br>£000 | 2023/24<br>£000 |
|---|---|---|
| Grantiau datblygu polisïau | 1,947 | 1,985 |
| | 1,947 | 1,985 |

Mae adran 12 PPERA yn gofyn i'r Comisiwn Etholiadol weinyddu cynllun i wneud taliadau grantiau datblygu polisi i bleidiau gwleidyddol cofrestredig. Mae'r cynllun presennol wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn Etholiadau (Cynllun Grantiau Datblygu Polisïau) 2006 fel y'i diwygiwyd.

Mae'r cynllun yn gofyn inni neilltuo £2,000,000 yn flynyddol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig er mwyn cynorthwyo gyda chostau datblygu polisïau i'w cynnwys mewn maniffestos ar gyfer llywodraethau lleol, Cynulliad Gogledd Iwerddon, neu etholiadau Senedd Cymru, yr Alban, San Steffan neu Ewrop. Er mwyn bod yn gymwys i'w chynnwys yn y cynllun, mae'n rhaid i blaid wleidyddol gofrestredig gael o leiaf dau AS sydd â sedd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mawrth cyn y flwyddyn dan sylw, sydd wedi tyngu'r llw teyrngarwch a ddarparwyd gan Ddeddf Llwon Seneddol 1866.

Mae'r dyraniad blynyddol yn cael ei rannu rhwng y pleidiau cymwys yn unol â'r fformiwla dyrannu a nodir yn y Cynllun.

Cyflwynodd pleidiau ffurflenni gwariant a arweiniodd at daliadau o £1,946,924. Yn dilyn archwiliad, nid oeddem yn gallu cadarnhau bod holl grant GDP 2024/25 i un blaid wedi'i wario'n briodol ar ddatblygu polisi. Bydd y Comisiwn yn dilyn ei ganllawiau cyhoeddedig ac yn cymryd camau adfer cymesur.

### 3.2 Gwariant ymwybyddiaeth gyhoeddus

Mae adran 13 PPERA yn gofyn inni hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus am systemau etholiadol presennol ac yn yr arfaeth yn y DU. Mae'n ein galluogi ni i greu a chyflwyno

cynnwys a rhaglenni addysgu neu wybodaeth i'r cyhoedd a rhoi grantiau i gyrff neu unigolion eraill i'w galluogi nhw i wneud.

Mae gwariant adran 13 ar gyfer systemau etholiadol wedi'u neilltuo ond nad ydynt wedi eu datganoli wedi ei gyfyngu gan Orchymyn y Comisiwn Etholiadol (Cyfyngiad ar Wariant Ymwybyddiaeth Gyhoeddus) 2023 SI 2023/807 i £17,000,000 fesul blwyddyn ariannol ar gyfer 2023/2024 a 2024/2025 ac i £12,000,000 ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n dilyn.

Mae terfyn gwariant adran 13 yn gymwys i'n gwaith hysbysu ac addysgu pobl ac i'n hymgyrchoedd cyhoeddus ynghylch systemau etholiadol presennol ac yn yr arfaeth sydd wedi'u neilltuo. Nid yw'n gymwys i gostau y gellir eu priodoli'n gywir i swyddogaethau statudol eraill y Comisiwn fel cynllunio, ymchwilio a staffio, gan gynnwys y rheiny y'u hysgwyddir gan randdeiliaid neu gyflenwyr ar ran y Comisiwn.

Mae systemau etholiadol wedi'u neilltuo yn cynnwys etholiadau Seneddol y DU, etholiadau lleol Lloegr (gan gynnwys etholiadau Awdurdodau a Maerol) ac etholiadau CHTh boed yng Nghymru neu Loegr.

Mae costau ymwybyddiaeth gyhoeddus ar gyfer systemau etholiadol presennol neu yn yr arfaeth yng Nghymru a'r Alban wedi'u cynnwys yn y tabl isod (adran 10) ond nid ydynt yn ddarostyngedig i'r terfyn gwario s13.

| | **2024/25 £000** | **2023/24 £000** |
|---|---|---|
| Gwariant craidd ymwybyddiaeth gyhoeddus | - | 4 |
| Adran 13 | 16,661 | 8,807 |
| Gwariant ymwybyddiaeth gyhoeddus yn ddarostyngedig i derfyn Adran 13 | 16,661 | 8,811 |
| Llywodraeth Leol yr Alban (Adran 10) | 30 | 28 |
| Senedd (Adran 10) | 30 | 342 |
| | 60 | 370 |
| **Cyfanswm Ymwybyddiaeth gyhoeddus** | **16,721** | **9,181** |

# 4. Incwm

| | **2024/25 £000** | **2023/24 £000** |
|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Incwm Gweithredu: | | |
| Llywodraeth yr Alban | 2,158 | 1,997 |
| Y Senedd | 1,552 | 1,449 |
| Cofrestru pleidiau gwleidyddol o'r newydd | 10 | 14 |
| Ail-gofrestru pleidiau gwleidyddol | 8 | 8 |
| Newid i Gofrestru Pleidiau Gwleidyddol | 2 | 2 |
| Incwm gan gontract gwasanaethau | 84 | - |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr Incwm Gweithredu | 3,814 | 3,470 |

Nid yw incwm a dderbyniwyd gan ddirwyon a chosbau pleidiau gwleidyddol yn ffurfio rhan o’n hincwm o fewn ein datganiadau ariannol, ac mae i'w dalu’n llawn i’r Gronfa Gyfunol pan gaiff ei dderbyn; gweler SoPs 4 am y dadansoddiad hwn.

# 5. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Gwelliannau Llesddaliadol | Cyfarpar Swyddfa | Technoleg Gwybodaeth - caledwedd | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost neu bris** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 1233 | 33 | 815 | 187 | 2,268 |
| Ychwanegiadau | 31 | 42 | 564 | 173 | 810 |
| Gwarediadau | | | (124) | 27 | (124) |
| Ailddosbarthu – Eitemau Anniriaethol* | - | - | - | - | 27 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 1,264 | 75 | 1,255 | 387 | 2,981 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 193 | 4 | 581 | 64 | 842 |
| Costau'r flwyddyn | 155 | 7 | 146 | 22 | 330 |
| Gwarediadau | - | - | (124) | - | (124) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 348 | 11 | 603 | 86 | 1,048 |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2025** | 916 | 64 | 652 | 301 | 1,933 |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2024** | 1,041 | 29 | 234 | 123 | 1,427 |
| **Ariannu asedau:** Yn berchen | 916 | 64 | 652 | 301 | 1,933 |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2025** | 916 | 64 | 652 | 301 | 1,933 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu bris** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 422 | 5 | 611 | 161 | 1,199 |
| Ychwanegiadau | 811 | 28 | 259 | 26 | 1,124 |
| Ailddosbarthu | - | - | (55) | - | (55) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 1,233 | 33 | 815 | 187 | 2,268 |
| **Dibrisiant** | 99 | 2 | 492 | 48 | 641 |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 94 | 2 | 144 | 16 | 256 |
| Costau'r flwyddyn | - | - | (55) | - | (55) |
| **Ar 31 Mawrth 2024*** | 193 | 4 | 581 | 64 | 842 |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2024*** | 1,040 | 29 | 234 | 123 | 1,426 |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2023** | 323 | 3 | 119 | 113 | 558 |
| **Ariannu asedau:** Yn berchen | 1,040 | 29 | 234 | 123 | 1,426 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 1,040 | 29 | 234 | 123 | 1,426 |

.

*Mae balans o £27k a ddelid yn wreiddiol yn Asedau Anniriaethol* – ADA (Ased dan Adeiladu) wedi'i ailddosbarthu i PPE – Dodrefn a Ffitiadau yn y flwyddyn gyfredol. Mae hyn yn ymwneud ag ychwanegiad blwyddyn flaenorol a benderfynwyd, ar ôl cadarnhad gan ddeiliad y gyllideb, ei fod yn ased diriaethol. Nid oedd angen datganiad y flwyddyn flaenorol.

# 6. Asedau anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth £000 | Trwyddedau Meddalwedd £000 | Gwefannau £000 | Technoleg Gwybodaeth - Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu bris** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 253 | 95 | 747 | 69 | 1,164 |
| Ychwanegiadau | 78 | - | 73 | 124 | 275 |
| Amhariadau | - | - | - | (25) | (25) |
| Ailddosbarthu | - | - | 17 | (17) | |
| Ailddosbarthu – PPE* | - | - | - | (27) | 27 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 331 | 95 | 837 | 124 | 1,387 |
| **Costau amorteiddiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 107 | 51 | 507 | - | 665 |
| Costau'r flwyddyn | 85 | 22 | 69 | - | 176 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 192 | 73 | 576 | - | 841 |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2025** | 139 | 22 | 261 | 124 | 546 |
| **Cost neu bris** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 270 | 68 | 768 | 218 | 1324 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | 88 | 88 |
| Gwarediadau | (227) | (21) | - | - | (248) |
| | 210 | 48 | (21) | (237) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 253 | 95 | 747 | 69 | 1,164 |
| **Costau amorteiddiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 233 | 47 | 443 | - | 723 |
| Costau'r flwyddyn | 101 | 25 | 64 | - | 190 |
| Gwarediadau | (227) | (21) | - | - | (248) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 107 | 51 | 507 | - | 665 |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2024** | 146 | 44 | 240 | 69 | 499 |

Mae gwarediadau yn cynnwys asedau nad ydynt mwyach mewn defnydd sydd â dim Gwerth Llyfr Net. Technoleg gwybodaeth - mae asedau y maent yn cael eu hadeiladu a Gwefannau yn bennaf yn Arian Gwleidyddol ar-lein (PFO – platfform ar-lein diogel y Comisiwn a ddefnyddir gan bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr i gyflwyno gwybodaeth ariannol a chydymffurfiaeth).

*Mae balans o £27k a ddelid yn wreiddiol yn Asedau Anniriaethol* – ADA (Ased dan Adeiladu) wedi'i ailddosbarthu i PPE – Dodrefn a Ffitiadau yn y flwyddyn gyfredol. Mae hyn yn ymwneud ag ychwanegiad blwyddyn flaenorol a benderfynwyd, ar ôl cadarnhad gan ddeiliad y gyllideb, ei fod yn ased diriaethol. Nid oedd angen datganiad y flwyddyn flaenorol.

# 7. Prydlesi

Mae asedau hawl-i-ddefnyddio yn cynrychioli'r hawl i bennu defnydd ased sylfaenol sy'n deillio o ganlyniad i brydles. Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn berchen ar yr ased sylfaenol, ond mae'n cydnabod gwerth yr hawl i'w ddefnyddio yn unol ag IFRS 16

## 7.1 Datgeliad meintiol ynghylch asedau hawl-i-ddefnyddio

| | **Adeiladau** | **Cyfanswm 2025** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Gwerth ased hawl-i-ddefnyddio ar 1 Ebrill 2024** | 4,522 | 4,522 |
| Ychwanegiadau | 25 | 10 |
| Cost dibrisiant mewn blwyddyn | (645) | (645) |
| **Gwerth ased hawl-i-ddefnyddio ar 31 Mawrth 2025** | 3,902 | 3,887 |

| | **Adeiladau** | **Cyfanswm 2024** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Gwerth ased hawl-i-ddefnyddio ar 1 Ebrill 2023** | 4,384 | 4,384 |
| Ychwanegiadau | 756 | 756 |
| Cost dibrisiant mewn blwyddyn | (618) | (618) |
| **Gwerth ased hawl-i-ddefnyddio ar 31 Mawrth 2024** | 4,522 | 4,522 |

Parhaodd ein prydlesi Cymru a Gogledd Iwerddon yn eu lle yn ystod 2024/25, ac ni chafodd prydlesi newydd eu caffael yn y flwyddyn. Mae'r cynnydd i werth yr ased hawl-i-

ddefnyddio yn adlewyrchu newid ar gyfer costau dadfeilio cynyddol sy'n gysylltiedig â phrydlesi presennol.

## 7.2 Datgeliad meintiol ynghylch rhwymedigaethau prydlesi

| | Adeiladau | Cyfanswm 2025 | Cyfanswm 2024 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Rhwymedigaeth Prydlesu** | | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 676 | 676 | 663 |
| Hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na 5 mlynedd | 2,668 | 2,668 | 2,683 |
| Mwy na phum mlynedd | 647 | 647 | 1,308 |
| | 3,991 | 3,991 | 4,654 |
| *Llai* Elfen Llog | 240 | 240 | 306 |
| **Gwerth Cyfredol Rhwymedigaethau** | **3,751** | **3,751** | **4,348** |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | 618 | 618 | 606 |
| Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol | 3,133 | 3,133 | 3,742 |
| **Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer prydlesi** | **663** | **663** | **617** |

## 7.3. Datgeliadau meintiol ynghylch elfennau yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Disgownt mewn blwyddyn | 66 | 54 |
| Costau cysylltiedig â phrydlesi asedau gwerth isel (gan eithrio tymor byr) | - | - |

# Taliadau 8. Masnach a derbyniadau eraill

| | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau yn daladwy cyn pen blwyddyn:** | | |
| Symiau derbyniadwy masnach | 32 | - |
| Derbyniadau eraill | - | 2 |
| Derbyniadau Ychwanegol Cronfa Gyfunol oherwydd Cronfa Gyfunol | 9 | 9 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnol | 1,095 | 923 |
| | 1,136 | 934 |

# 9. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

| | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | 84 | 9 |
| Newid net mewn balans arian parod a chyfwerth ag arian parod | (56) | 75 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 28 | 84 |
| Daliwyd y balans canlynol ar 31 Mawrth yn: | | |
| Bancio'r Llywodraeth | 28 | 84 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 28 | 84 |

# 10. Masnach a symiau taladwy eraill

| | 2024/25 £000 | 2023/24 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | 794 | 915 |
| Symiau taladwy masnach | 298 | - |
| Symiau taladwy eraill* | 1 | - |
| Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol sydd i'w talu i'r Gronfa Gyfunol: | | |
| *wedi'u derbyn* | - | 1 |
| *swm derbyniadwy* | 9 | 9 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 2,067 | 3,009 |
| Incwm wedi'i ohirio – Senedd yr Alban | 17 | 24 |
| Incwm wedi'i ohirio - Y Senedd | 59 | 48 |

| | | |
|---|---|---|
| Symiau a roddwyd gan y Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn | 28 | 84 |
| Credydwyr eraill | 34 | 33 |
| | 3,307 | 4,123 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Incwm wedi'i ohirio, croniadau a phethau taladwy eraill | - | - |
| | - | - |

# 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau

| | **Pensiwn** | **Dadfeiliadau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill 2024 | 117 | 647 | 764 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | 25 | 25 |
| Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd | - | - | - |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (15) | - | (15) |
| Newid yn y gyfradd ddisgownt | - | (4) | (4) |
| Effaith ddisgowntio | 6 | 31 | 37 |
| (Enillion)/Colledion actiwaraidd | (5) | - | (5) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **103** | **699** | **802** |

**Dadansoddiad o amseru disgwyliedig ffrydiau wedi'u disgowntio**

| | **Dadfeiliadau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Dim hwyrach na blwyddyn | - | - |
| Hwyrach nag un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| Hwyrach na phum mlynedd | 699 | 699 |

| | | |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **699** | **699** |

## 11.1 Datganiad Rhwymedigaeth Pensiwn

Rydym yn darparu ar gyfer rhwymedigaeth bensiwn i Gyn-gomisiynwyr penodol y Comisiwn Llywodraeth Leol ar gyfer Lloegr, yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau ar 1 Ebrill 2002.

Nid yw'r ddarpariaeth bensiwn wedi ei hariannu, gyda budd-daliadau yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a'u sicrhau gan y cyflogwr. Nid oes cronfa, ac felly dim gwarged na ddiffyg arian. Ceisiwyd cyngor actiwaraidd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei gosod ar lefel realistig. Cynhaliwyd prisiant actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth i ddarparu gwerth y rhwymedigaeth pensiwn ar 31 Mawrth 2025. Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cyfrifo drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

O ystyried diffyg perthnasedd y rhwymedigaethau pensiwn, nid yw gofynion datgelu llawn IAS 19 yn ofynnol.

Y tybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

| | **2024/25** | **2023/24** |
|---|---|---|
| Tybiaethau chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) | 2.65% | 2.55% |
| Cyfradd cynnydd pensiynau | 2.65% | 2.55% |
| Y gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau cynllun | 5.15% | 5.10% |

Sensitifrwydd y rhwymedigaeth buddion diffiniedig i newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd sylweddol:

| **Newid mewn tybiaeth*** | | **Effaith ar DBO** | |
|---|---|---|---|
| | | **%** | **£000** |
| Cyfradd disgowntio rhwymedigaethau cynllun | + 0.5% y flwyddyn | (3) | (3) |
| Cyfradd Cynnydd CPI | + 0.5% y flwyddyn | 2 | 2 |
| Disgwyliad oes: pob aelod yn cael eu hystyried blwyddyn yn ieuengach na'u hoed | | 4 | 5 |

* Bydd newidiadau cyferbyniol yn y dybiaeth yn cynhyrchu newidiadau sydd oddeutu cyfartal a newidiadau cyferbyniol yn y DBO. Bydd dyblu'r newidiadau yn y tybiaethau yn cynhyrchu oddeutu dwbl y newid yn y DBO. Mae'r sensitifeddau yn dangos y newid mewn tybiaeth ar ei ben ei hun. Yn ymarferol, prin iawn mae tybiaethau o'r fath yn newid pan y'u

ceir ar eu pen eu hunain a, gan ystyried y gyd-ddibyniaeth rhwng y tybiaethau, gall yr effeithiau wrthbwyso i rai graddau.

O 2010–11, cafodd y sail ar gyfer mynegeio buddion ymddeoliadau ei newid o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Paratôdd Adran Actiwari'r Llywodraeth brisiad ar 31 Mawrth 2025.

| | 2024/25<br>£000 | 2023/24<br>£000 |
|---|---|---|
| Darpariaeth ar 1 Ebrill | 117 | 126 |
| Cost Llog | 6 | 5 |
| Colled/(Enillion) actiwaraidd | (5) | - |
| Tynnu'r buddion a dalwyd | (15) | (14) |
| Costau'r gwasanaeth blaenorol | - | - |
| Gwerth Cyfredol cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | 103 | 117 |

| **Gwerth cyfredol rhwymedigaethau cynllun** | **Gwerth ar 31/03/2025 £'000** | **Gwerth ar 31/03/2024 £'000** | **Gwerth ar 31/03/2023 £'000** | **Gwerth ar 31/03/2022 £'000** | **Gwerth ar 31/03/2021 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau gweithredol | - | - | - | - | - |
| Pensiynwyr wedi'u Gohirio | - | - | - | - | - |
| Pensiynwyr Cyfredol | 103 | 117 | 126 | 160 | 161 |
| **Gwerth cyfredol rhwymedigaethau cynllun o ran pensiynwyr cyfredol** | 103 | 117 | 126 | 160 | 161 |

## 11.2 Dadfeiliadau

Rydym yn cydnabod rhwymedigaeth i wneud taliadau dadfeilio i berchnogion eiddo ein lleoliadau swyddfa pan ddaw prydlesi unigol i ben. Mae'r taliadau hyn yn adlewyrchu cost ddisgwyliedig adfer yn llawn addasiadau ac addurniadau tenant ar yr adeg gadael.

Mesurir dadfeiliadau yn ôl amcangyfrif orau y gwariant angenrheidiol i setlo'r rhwymedigaeth gyfredol, wedi'u cyflenwi gan syrfëwr allanol gan ddefnyddio'r canllaw pris diwydiant. Mae'r amcangyfrif hwn yn adlewyrchu gwerth cyfredol y gwariant angenrheidiol, lle mae gwerth amser arian yn arwyddocaol. Adolygodd y Comisiwn Etholiadol yr asesiad yn fanwl i sicrhau ei fod yn ystyried beth sy'n ddilys a beth sy'n debygol i'r landlord ei ofyn i'r Comisiwn ei gwblhau cyn gadael yr eiddo ac addaswyd amcangyfrifon y syrfëwr yn unol

â hynny pryd bynnag mae hynny'n berthnasol. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, rydym wedi darparu darpariaeth ar gyfer dadfeilio sy'n realistig ac yn debygol ar gyfer y prydlesi newydd.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio cyfraddau disgownt Trysorlys EF i gyfrifo'r gwerth cyfredol. Dan IFRS 16, caiff dadfeiliadau ar brydlesi newydd eu cyfalafu i'r ased hawl-i-ddefnyddio.

# 12. Rhwymedigaethau ac asedau digwyddiadol

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn cynnwys pob hawl hysbys lle mae cyngor cyfreithiol yn dynodi nad yw meini prawf ar gyfer cydnabod darpariaeth wedi eu bodloni neu lle mae'r posibilrwydd o drosglwyddo economaidd yn brin.

Nid oedd unrhyw achosion cyfreithiol yn weithredol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol neu sydd wedi dechrau ers hynny lle all fod angen i'r Comisiwn Etholiadol wneud darpariaeth neu rwymedigaeth ddigwyddiadol.

Nododd y Comisiwn er bod posibilrwydd prin o sefyllfa lle fydd angen defnyddio rhwymedigaeth ddigwyddiadol, byddai'n cyflawni rhwymedigaethau ariannol ar gyfer hawliadau yn deillio o'r ymosodiad seiber yn 2021.

Mae'r tîm rheoli wedi dod i'r casgliad nad oes rhwymedigaeth gyfredol debygol i drosglwyddo buddion economaidd yn bodoli.

Ar 31 Mawrth 2025 nid oedd angen i unrhyw asedau digwyddiadol a rhwymedigaethau digwyddiadol gael eu datgelu dan yr IAS37. (2023/24: asedau digwyddiadol a rhwymedigaethau digwyddiadol £dim).

# 13. Trafodiadau pleidiau cysylltiedig

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol ar y Llywodraeth a phleidiau gwleidyddol, ac yn uniongyrchol atebol i'r Senedd, Senedd y DU a Senedd yr Alban. Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw gysylltiadau pleidiol perthnasol fel y'u diffinnir gan ddatgeliadau pleidiol Perthnasol i IAS 24.

Mae gan y Comisiwn Etholiadol drafodiadau gydag adrannau'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog. Ar wahân i'r taliadau a ddatgelir yn y cyfrifon, nid yw unrhyw un o'r Comisiynwyr, y Tîm Gweithredol na phleidiau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â nhw wedi ymgymryd ag unrhyw drafodiadau sylweddol gyda'r Comisiwn Etholiadol yn ystod y flwyddyn.

# 14. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10, mae digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Caiff hyn ei ddehongli ar ddyddiad y Dystysgrif Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw ddigwyddiadau ers 31 Mawrth 2025 a allai effeithio’r datganiadau ariannol.

# COMISIWN ETHOLIADOL

## CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDIR GAN Y TRYSORLYS YN UNOL Â PHARAGRAFF 17(2) ATODLEN 1 I DDEDDF PLEIDIAU GWLEIDYDDOL, ETHOLIADAU A REFFERENDA 2000.

1. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn paratoi cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd ariannol dilynol mewn cydymffurfiaeth ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu rhifyn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ('yr FReM') a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y cyfrifon ar ei chyfer.

2. Caiff y cyfrifon eu paratoi i:

a) roi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Comisiwn Etholiadol ar 31 Mawrth 2011 a diwedd blynyddoedd ariannol dilynol, ac o'i alldro adnoddau net, newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr a ffrydiau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; a

b) darparu datgeliad o unrhyw wariant neu incwm perthnasol nad yw wedi ei gymhwyso i'r dibenion bwriadedig gan y Senedd neu drafodiadau perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

3. Bydd cydymffurfio â gofynion y FReM yn angenrheidiol, ym mhob sefyllfa ar wahân i amgylchiadau arbennig, i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg. Os, dan yr amgylchiadau arbennig hyn, mae cydymffurfiaeth â gofynion y FReM yn anghyson gyda'r gofyn i roi darlun gwir a theg, dylid pellhau o ofynion y FReM dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i roi darlun gwir a theg. Yn achosion o'r fath, dylid defnyddio dyfarniad gwybodus a diduedd i greu triniaeth amgen briodol a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw a natur y FReM. Dylid trafod unrhyw bellhau perthnasol o FReM gyda'r Trysorlys yn y lle cyntaf.

4. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn disodli'r cyfarwyddyd sydd wedi'i ddyddio 27 Chwefror 2006.

**Chris Wobschall**
**Pennaeth, Polisi Adrodd Ariannol a Sicrwydd, Trysorlys EF**
**15 Ebrill 2011**

# Cysylltwch â ni

## Ein swyddfeydd

### Cymru

Y Comisiwn Etholiadol
Llawr 3, Tŷ James William
9 Maes yr Amgueddfa, Caerdydd
CF10 3BD
Rhif ffôn: 0333 103 1929
infowales@electoralcommission.org.uk

### Lloegr

The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ
Rhif ffôn: 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk

### Yr Alban

The Electoral Commission
City Chambers
High Street
Edinburgh EH1 1YJ
Rhif ffôn: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk

### Gogledd Iwerddon

The Electoral Commission
The Boat
49 Queen's Square
Belfast, BT1 3FG
Rhif ffôn: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

E03348957
Y Comisiwn Etholiadol 2025
978-1-5286-5730-3